Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 19 MEDI, 2023 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY, 19 SEPTEMBER, 2023 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**
**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 21 Mehefin, 2023.

4 **GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU (ADOLYGIAD DARPARIAETH BRYS)** (Tudalennau 13 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

5 **MATERION ADDYSG** (Tudalennau 45 - 110)

- Adroddiad Blynyddol ar Ynys Môn gan GwE : 2022/2023

  Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

- Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg

  Cyflwyno adorddiad gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg.

- Siarter Craffu Addysg

  Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar Cyfarwyddwr Stategol (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 111 - 118)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, John Ifan Jones, Euryn Morris, Margaret M Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>Mr John Tierney (Eglwys Gatholig) (Aelod Cyfetholedig)<br><br>Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Cyllid<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol) |
| **WRTH LAW:** | Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Polisi a'r Gymraeg (FO) (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol (AG) (ar gyfer eitem 8),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff M Evans, Pip O'Neill, Derek Owen<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos Medi.<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portfollio Gwasanaethau Oedolion) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Profiadau Corfforaethol a Chwsmeriaid);<br>Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd).<br><br>Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (ST) (ar gyfer eitem 7). |

---

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sonia Williams i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol yn Eitem 7 – Adroddiad Blynyddol – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ac Eitem 9 – Chwarter 4 : 2022/2023 – Adroddiad Cynnydd – Cais Twf Gogledd Cymru (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru).

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill, 2023;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2023 (Ethol Cadeirydd/Is-gadeirydd).

## 4 SAFONAU'R GYMRAEG - ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2022/2023

Cyflwynwyd Adroddiad Safonau Blynyddol y Gymraeg i'w ystyried gan y Pwyllgor ac i roi sylwadau arno cyn ei gyflwyno i'r Aelod Portffolio ei gymeradwyo drwy drefn ddirprwyedig i'w gyhoeddi.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, yn absenoldeb Arweinydd y Cyngor, fod yr adroddiad yn gwerthuso cydymffurfiaeth y Cyngor â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ac yn nodi'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Dywedodd fod nifer o uchafbwyntiau wedi bod o fewn y flwyddyn yn bennaf: gwneud y Gymraeg yn flaenoriaeth strategol o fewn y Cyngor; Arolygiaeth Gofal Cymru yn nodi'r gwaith da o ran y Gymraeg gyda thrigolion bregus; Estyn yn tynnu sylw at y gwaith da a wnaed o fewn y Gwasanaeth Addysg o ran y Gymraeg o fewn addysg; amlygrwydd technegol ar gyfer defnyddwyr ar-lein; staff yn canmol y gefnogaeth a roddir i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Adroddodd y Pennaeth Democratiaeth fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i strwythuro yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg ac i gydymffurfio â'r penawdau Safonau y mae'n ofynnol adrodd amdanynt. Dywedodd fod safbwynt Ynys Môn hefyd wedi'i ymgorffori o fewn yr adroddiad er mwyn tynnu sylw at y llwyddiannau ehangach a gafwyd o fewn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd ymhellach at bolisi iaith y Cyngor sy'n esbonio sut y cyflawnir Safonau'r Gymraeg yn ogystal â nod y Cyngor i wneud y Gymraeg yn brif iaith weinyddol yr Awdurdod hwn. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth ymhellach fod gwaith manwl wedi ei wneud gydag adrannau penodol o fewn yr Awdurdod i roi hyfforddiant a chefnogaeth i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y materion canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes risgiau penodol sy'n codi pryder ynghylch cydymffurfiaeth y Cyngor â safonau'r Gymraeg? Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y byddai diffyg cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn

risg benodol a fyddai'n arwain at ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg. Nododd fod y cwynion a dderbyniwyd am ddiffyg cydymffurfio yn isel gyda dim ond 6 chwyn y llynedd a'r gobaith yw y bydd y system CRM newydd o fewn y Cyngor yn helpu i fynd i'r afael â phryderon gan y cyhoedd mewn modd adeiladol. Nododd ymhellach fod risg uwch wrth weithio gyda sefydliadau trydydd parti y mae angen i staff fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Gall cydymffurfio â'r broses asesu effaith ar bolisïau fod yn risg uwch oherwydd ei natur gymhleth ar brydiau a cheisir cyngor arbenigol drwy Gomisiynydd y Gymraeg. Dywedodd hefyd yn ystod cyfarfod diweddar gyda Chomisiynydd Cymru fod sylwadau cadarnhaol wedi eu derbyn ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

- Cyfeiriwyd at y cyrsiau Cymraeg a roddwyd i staff y Cyngor fel y nodwyd yn yr adroddiad. Gofynnwyd ai'r un aelodau o staff yw'r rhain â'r rhai a fu ar y cyrsiau hyn y llynedd? Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg ei fod yn gyfuniad o staff sydd o bosibl wedi datblygu eu sgiliau Cymraeg ac sy'n mynd ymlaen i gyrsiau lefel uwch. Pwysleisiodd fod yna lwyfan dysgu ehangach i staff yn enwedig pan ddywedodd rhai dysgwyr Cymraeg eu bod wedi colli allan ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y pandemig. Nododd ymhellach mai'r ffordd orau o hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yw drwy greu amodau lle gall unigolion, beth bynnag fo lefel eu sgiliau Cymraeg, ymarfer defnyddio'r iaith mewn amgylchedd cynhwysol, croesawgar ac anfeirniadol. Mae gwaith wedi'i wneud gydag Adran Hyfforddi'r Cyngor i ddarparu cyfleusterau i staff allu mynychu cyrsiau mewnol;
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Cyngor yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg? Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod rhyddhau staff i fynychu cyrsiau yn her barhaus, fodd bynnag mae'n bwysig bod rheolwyr o fewn adrannau'r Cyngor yn cefnogi ac yn annog staff i fynychu cyrsiau Cymraeg a'u bod yn gallu gweld y gwerth mewn rhyddhau swyddogion i gael cymorth a chyfleoedd hyfforddi. Cyfeiriodd ymhellach y gellir cynnig sgiliau ysgrifennu Cymraeg i staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn gwella eu gallu a'u hyder;
- Holwyd a oes gwybodaeth ychwanegol a fyddai'n ychwanegu gwerth at yr Adroddiad Blynyddol? Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod trafodaethau mewnol wedi'u cynnal ynghylch sut y gellir gwella'r Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol ac yn enwedig y defnydd o ddata o ran defnyddio'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor a dewis iaith y cwsmeriaid. Roedd cynnwys mwy o astudiaethau achos yn faes arall a allai wella'r Adroddiad Blynyddol;
- Codwyd cwestiynau ynghylch y risg o ran recriwtio pobl ddi-Gymraeg? Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth ei bod yn gallu bod yn anodd recriwtio siaradwyr Cymraeg mewn rhai sectorau penodol ond mae'r data'n dangos bod canran y Swyddogion sy'n siarad Cymraeg yn y Cyngor yn uchel ac nad yw'n risg uniongyrchol ar hyn o bryd;
- Cyfeiriwyd at fod Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn feirniadol o gynnydd y Cyngor heb gydnabod y gwaith da sydd wedi digwydd o ran Strategaeth y Gymraeg. Holwyd a oes datblygiadau i gynnwys Cymdeithas yr Iaith o fewn y Fforwm? Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod Cymdeithas yr Iaith yn cael ei hystyried yn aelod o Fforwm yr Iaith Gymraeg a'i bod wedi'i chynnwys o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ers sefydlu'r Fforwm. Mynegodd fod croeso i gyrff perthnasol ymuno neu ail-ymuno â'r Fforwm i gryfhau'r Gymraeg ar yr Ynys;

- Codwyd cwestiynau ynghylch yr heriau a wynebir o ran cynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg i drigolion Ynys Môn? Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a’r Gymraeg fod angen ystyried y defnydd o ddata yn ofalus gan fod hyder wrth siarad ac ysgrifennu'r Gymraeg yn gallu amrywio ac mae dyletswydd i sicrhau bod lefel y Gymraeg yn mynd i'r afael ag anghenion y trigolion wrth ofyn am wasanaethau'r Cyngor. Nododd fod angen i wybodaeth ddigidol fod yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg. At hyn, dywedodd fod Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi codi’r mater fod angen gwella'r defnydd o'r Gymraeg o fewn derbynfeydd ar safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor;
- Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai cynrychiolwyr o wahanol adrannau’n mynychu'r cyfarfod hwn i adrodd ar lefel y siaradwyr Cymraeg yn eu hadran a'r cynnydd a wnaed i gefnogi a darparu hyfforddiant iddynt wella eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth ei fod yn cytuno bod angen cydnabod llwyddiannau unigolion sydd wedi gallu gwella eu sgiliau Cymraeg. Gellir defnyddio’r Grŵp Hybu'r Gymraeg mewnol i drafod sut i hyrwyddo llwyddiannau staff;
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y gellir gwella’r modd y caiff defnydd o'r Gymraeg ei hyrwyddo mewn caffis a safleoedd lletygarwch gydag arwyddion Cymraeg ac ati. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y gellir trafod y mater o fewn Fforwm yr Iaith Gymraeg lle mae'r holl sefydliadau partner lleol yn bresennol ac yn gallu trafod materion perthnasol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2022/23;**
- **Nodi ei gynnwys ac anfon sylwadau’r Pwyllgor Sgriwtini at yr Aelod Portffolio fel rhan o bendefryniad wedi’i ddirprwyo ac yna ei gyhoeddi.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 5 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022/2023 - ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, yn absenoldeb Arweinydd y Cyngor, mai pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad blynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr adroddiad yn cynnwys tair adran sy'n tynnu sylw at y wybodaeth ddiweddaraf am ddata, trefniadau ar gyfer ail-gategoreiddio ysgolion Ynys Môn o ran iaith yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac anstatudol a'r datblygiad diweddaraf o fewn ysgolion a sefydliadau ar yr Ynys. Dywedodd fod y Gymraeg yn un o chwe blaenoriaeth strategol y Cyngor ac adlewyrchir hyn o fewn y Gwasanaeth Addysg er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd ymhellach fod rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol

baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a ddylai gynnwys gofyniad i 'osod targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun o ran faint o addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg'.  Mae data CSCA yn adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg ar Ynys Môn rhwng Mehefin 2022 a Mehefin 2023.  Mae'r adroddiad yn nodi sefydlogrwydd canlyniadau 1,2,3, 5 a 6 ac mae'r twf yng nghanlyniadau 4 a 7 (data CSCA Ynys Môn ar gyfer 2022/2023) wedi'i gynnwys yn yr atodiadau i'r adroddiad.    Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc at y broses Categoreiddio Ysgolion a gynhaliwyd dros y flwyddyn hon, ac mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi mapio, cyfrannu at y broses ac wedi ymgynghori ag ysgolion i lywio proffil Categoreiddio Ysgolion.  Nododd fod y Gwasanaeth Dysgu wedi ymgynghori a thrafod Categorïau Iaith gydag ysgolion cyn dod i benderfyniad ar y categori.  Mae gan y Gwasanaeth Dysgu 3 chategori - Categori 1 - cyfrwng Saesneg; Categori 2 - Dwy Iaith; Categori 3 - cyfrwng Cymraeg.  Mae pob ysgol gynradd heblaw am un a thair o'r ysgolion uwchradd yng Nghategori 3.  Gan mai un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw annog ysgolion Môn i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, mae un ysgol gynradd wedi'i gosod yng Nghategori 2 ac mae dwy ysgol uwchradd yn is-gategori T2 - trosiannol i hwyluso'r broses i ysgolion symud i Gategori 3.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ymhellach at raglen 'Makaton' a 'Thaith yr Iaith' y blynyddoedd cynnar a amlygwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriodd yn benodol at y Canllaw Trosglwyddo Gwybodaeth Carfanau Iaith Blwyddyn 6 a dywedodd fod pob ysgol wedi derbyn canllawiau, cefnogaeth a chymorth i adrodd ar garfan iaith pob disgybl.  Cyfeiriwyd hefyd at ganolfan iaith Ynys Môn sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth am ei gwaith gan ysgolion, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar raglenni teledu.  Mynegodd mai'r nod yw sicrhau bod pob plentyn o fewn y system addysg yn ddwyieithog ac yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion canlynol:-

- Cyfeiriwyd at broses categoreiddio ysgolion ac i ba raddau roedd y data categoreiddio ysgolion yn gywir.  Codwyd cwestiynau ynghylch pa mor drylwyr oedd y broses o asesu ysgolion mewn perthynas â'r categoreiddio yn seiliedig ar sgiliau iaith? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y data categoreiddio yn deillio o'r trafodaethau gyda phob ysgol unigol ynghyd â defnyddio'r wybodaeth am garfan iaith; defnyddir gwybodaeth gan Gydlynwyr Gwasanaeth Gwe hefyd i fonitro'r data yn flynyddol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod adroddiad Estyn ar y Gwasanaeth Addysg yn pwysleisio bod gan y Gwasanaeth Addysg y data angenrheidiol a bod gan yr Awdurdod ymwybyddiaeth dda o'r ysgolion ar yr Ynys;
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd plant ysgolion cynradd Blwyddyn 6 (sy'n cael eu categoreiddio o fewn Categori 3) yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod dwy ysgol uwchradd yng Nghategori T2. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod pob disgybl unigol yn cael ei asesu o ran eu sgiliau Cymraeg sy'n cael ei gynnwys fel rhan o'r wybodaeth am garfan iaith i'r ysgolion uwchradd ac mai cyfrifoldeb yr ysgolion uwchradd yw darparu addysg cyfrwng Cymraeg i'r disgyblion.   Holwyd ymhellach a oes gan yr ysgolion uwchradd y ddarpariaeth i allu darparu addysg

cyfrwng Cymraeg ac athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod canlyniad y CSCA yn nodi faint o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd fod recriwtio athrawon mewn pynciau arbenigol yn her ond roedd yna welliannau bach o fewn yr ysgolion y llynedd;

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod defnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol yr un mor bwysig ag addysg disgyblion o fewn amgylchedd yr ysgol. Gofynnwyd a yw'r Gwasanaeth Addysg yn gallu cefnogi gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol pan fydd llai o grant ar gael? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei bod yn bwysig bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc allu mwynhau a chael gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chlybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu darparu o fewn y cymunedau. Nododd y dylai rhieni hefyd gael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn amgylchedd y cartref;
- Holwyd i ba raddau y mae'r Canolfannau Iaith yn ymateb yn llawn i anghenion trochi'r Awdurdod? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod gan yr Awdurdod ddwy Ganolfan Iaith i newydd-ddyfodiaid dderbyn ymyrraeth drochi'n amserol. Defnyddir grantiau trochi i gefnogi'r Canolfannau Dysgu ac eleni, mae'r defnydd o grantiau wedi golygu bod trochi'n digwydd trwy aelodau o'r ganolfan yn yr ysgolion uwchradd am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd. Mae 36 o blant yn cael eu cefnogi yn ystod pob tymor ond mae rhestr aros ar gyfer mynediad i'r Canolfannau Dysgu. Dywedodd fod cefnogi'r Canolfannau Dysgu yn her ariannol a byddai trydydd Canolfan Ddysgu yn cael ei chroesawu fel na fyddai angen i blant deithio mor bell. Byddai hynny'n mynd i'r afael â chostau trafnidiaeth. Gwnaed sylw gan aelodau'r Pwyllgor fod rhestr aros ar gyfer y Canolfannau Dysgu yn ôl yr hyn a adroddwyd, a chodwyd cwestiynau ynghylch y gefnogaeth a roddwyd o fewn yr ysgolion i'r disgyblion hyn sy'n aros am fynediad i'r Canolfannau Dysgu. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod pecynnau dysgu yn cael eu rhoi i'r ysgolion lle mae disgyblion yn aros am fynediad i'r Canolfannau Dysgu a bod staff yn cael sesiynau hyfforddi. Codwyd cwestiynau pellach ynglŷn â'r gefnogaeth i ddisgyblion sy'n mynychu'r Canolfannau Dysgu yn ystod gwyliau'r ysgol gan nad yw rhai cartrefi'n gallu siarad y Gymraeg. Mae'n her i ysgolion gynnal y Gymraeg i'r disgyblion hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei fod yn cytuno bod gwyliau'r haf yn gyfnod hir i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg. Nododd fod y Gwasanaeth Addysg wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Hamdden sy'n darparu cyfleoedd yn ystod gwyliau'r ysgol. Dywedodd ymhellach y bydd rhai ysgolion yn darparu gweithgareddau i ddisgyblion yn ystod gwyliau'r ysgol;
- Cyfeiriwyd at y ffaith ei fod yn nodi yn yr adroddiad bod 90% o staff addysgu yn gallu darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Holwyd a yw'r ganran hon yn gamarweiniol? Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y data yn cael ei dderbyn gan yr ysgolion yn dilyn trafodaethau gyda'r staff addysgu ynghylch canran y staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ailadroddodd ei bod yn her recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pynciau penodol;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wedi cael gwahoddiad i Ynys Môn yn 2026. Holwyd a fydd gwahodd Eisteddfod yr Urdd i Ynys Môn yn 2026 yn gwella'r parodrwydd i siarad Cymraeg ac a oes cynlluniau ar waith i baratoi ar gyfer croesawu Eisteddfod yr Urdd i'r Ynys? Mewn ymateb, dywedodd

y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Ysgol Corn Hir i drafod trefniadau i groesawu Eisteddfod yr Urdd i Ynys Môn yn 2026. Pan wahoddir digwyddiad o'r fath i unrhyw Sir dywedodd fod brwdfrydedd o ran diwylliant a hanes yr ardal. Nododd ymhellach fod Ynys Môn wedi cael llwyddiant yn ddiweddar yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin, a bod ysgolion yn haen 3 wedi bod yn cystadlu yn yr Eisteddfod.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn diweddariad ar ddata CSCA Ynys Môn 2022-2023 a'r dull a gynigiwyd i rannu'r wybodaeth hon;**
- **Cadarnhau trefniadau i ail-gategoreiddio ysgolion Ynys Môn yn unol â chanllawiau anstatudol cenedlaethol.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 6 PANEL SGRIWTINI ADDYSG - ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod y Panel yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2023 wedi ystyried yr adroddiad ar Safonau'r Gymraeg – Adroddiad Blynyddol: 2022/2023 gyda'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Uwch Reolwr y Sector Cynradd a'r Athro Arweiniol o'r Uned Iaith yn bresennol. Rhoddwyd cyfle i'r Panel ystyried yn fanwl y cynnydd yn 2022/2023 yn erbyn canlyniadau allweddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Ystyriwyd y weledigaeth, y nodau a’r amcanion ym Môn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a rhoddwyd ystyriaeth fanwl i astudiaeth achos yn edrych ar waith yr Uned Iaith. Nododd fod y Panel wedi codi'r materion canlynol:-

- Gofynnodd y Panel pa gyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg ac i ba raddau y mae lle i ymestyn y cyfleoedd hyn ymhellach;
- Trafodwyd effeithiau'r pandemig ar ddisgyblion i ddatblygu sgiliau iaith ac i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar;
- Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch proses categoreiddio ysgolion ac i ba raddau mae'r data categoreiddio ysgolion yn gywir. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i’r trefniadau ar gyfer darparu tystiolaeth wrth gategoreiddio ysgolion unigol;
- Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch 'dangosfwrdd 7' Cynlluniau Strategol Addysg Cymru (CSCA) fel adnodd i fesur perfformiad a chynnydd;
- Trafodwyd effaith bosibl y ddarpariaeth drochi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n symud i'r Ynys drwy'r unedau iaith yn Ysgolion Cybi a Moelfre a threfniadau ar gyfer ysgolion uwchradd. Gofynnwyd i ba raddau y mae'r adnoddau presennol yn briodol i sicrhau darpariaeth a chyfleoedd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
- Rhoddwyd ystyriaeth i'r risgiau i'r ddarpariaeth drochi a nodwyd mai adnoddau oedd y risg uchaf ac y dibynnir ar grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi’r gyllideb graidd.

Argymhellodd y Panel Sgriwtini Addysg fod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

- **Yn derbyn yr adroddiad cynnydd ar Gynllun Strategol Addysg Cymru 2022/23;**
- **Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer ail-gategoreiddio ysgolion Ynys Môn yn unol â'r canllawiau anstatudol cenedlaethol.**

**PENDERFYNWYD Nodi'r adroddiad cynnydd.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL - BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn mai dyma flwyddyn olaf y Byrddau Llesiant ar gyfer 2018 – 2023. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd fel Bwrdd i wella llesiant cymunedau yn ystod 2022/2023. Nododd fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Sefydlodd y Ddeddf hefyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Bob pum mlynedd, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail ar gyfer y Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Dywedodd ymhellach fod y Bwrdd wedi dechrau paratoi ar gyfer Cynllun Llesiant 2023 – 2028 ac ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd Asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn. Yn unol â gofynion y Ddeddf, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft am gyfnod o 12 wythnos rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 6 Mawrth 2023 ac roedd cyfleoedd priodol i unigolion, grwpiau â diddordeb a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ymgynghori trwy weithdai a sesiynau gwybodaeth. Nododd ei bod yn fwriad ail-ymweld â'r cymunedau lleol fel y gallant helpu i gyflawni'r Cynllun Llesiant newydd. Cyfeiriodd Rheolwr y Rhaglen fod Is-grŵp Newid Hinsawdd wedi'i sefydlu, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, i annog cydweithio ymysg sefydliadau cyhoeddus i liniaru effaith newid hinsawdd. Dywedodd hefyd bod gwaith wedi ei wneud gan y Bwrdd o ran y Gymraeg gan ei bod yn bwysig i gymunedau lleol allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn Gymraeg. Mae'r Bwrdd wedi cydweithio â phartneriaethau a chyrff cenedlaethol eraill i osgoi unrhyw ddyblygu ac i rannu syniadau i nodi bylchau ac mae asesiad risg ar lefel strategol wedi ei gynnal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion canlynol:-

- Cyfeiriwyd atg y ffaith fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gwneud gwaith o ran y Gymraeg yn ystod 2018-2023. Holwyd a fyddai'n fuddiol i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn am yr hyn y mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni trwy'r nodau hyn o ran y Gymraeg. Mewn ymatebodd, dywedodd

Rheolwr y Rhaglen nad yw'r Gymraeg yn un o nodau penodol y Bwrdd, sydd wedi'i herio, gan fod y Gymraeg yn rhan o'r holl waith a gyflawnir gan y Bwrdd. Cyfeiriodd ymhellach fod y Bwrdd wedi nodi tri nod fel meysydd blaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf a bydd y Gymraeg yn rhan flaenllaw o bob nod a nodwyd;

- Cyfeiriwyd at y ffaith nad yw Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus gofynnol o ran ceisiadau cynllunio. Gofynnwyd a yw'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu ac yn cyflawni eu rôl o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus? Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen fod y Bwrdd Iechyd wedi cydweithio’n dda â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi cyflawni ei ofynion strategol fel rhan o'r Bwrdd. Cyfeiriwyd at y ffaith bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ôl mewn mesurau arbennig a gofynnwyd a yw hyn yn her ac yn risg i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni ei nodau? Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen y bydd Prif Weithredwr Dros Dro newydd y Bwrdd Iechyd yn mynychu cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd trafodaethau'n cael eu cynnal i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi;
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa gyfleoedd, heriau a risgiau y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu hwynebu wrth symud ymlaen? Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen mai cryfder y Bwrdd yw gweithio mewn partneriaeth i herio a darparu cyfleoedd o fewn cymunedau. Rhoddodd esiampl - bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn cefnogi'r cais am drydedd bont dros Afon Menai;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr Adroddiad Blynyddol yn trafod blwyddyn olaf y Cynllun Llesiant ar gyfer 2018-2023. Holwyd pa werth ychwanegol a gyflwynwyd drwy gydweithio fel Bwrdd? Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen fod aelodau'r Byrddau wedi mynegi eu bod o'r farn bod gweithio o fewn y Bwrdd wedi rhoi gwerth ychwanegol, gan rannu arfer da ar lefel strategol;
- Gofynnwyd i ba raddau y mae sgil effeithiau'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar allu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni yn erbyn y targedau allweddol a pha wersi a ddysgwyd yn ystod blwyddyn olaf y Cynllun Llesiant? Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen ei bod wedi bod yn anodd i'r sefydliadau partner ymateb i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y pandemig, gan fod ganddynt gyfrifoldebau strategol allweddol yn eu sefydliadau eu hunain. Bydd y Cynllun Llesiant newydd ar gyfer 2023 – 2028 yn fwy realistig o ran yr hyn y gall y sefydliadau partner ei gyflawni a pha werth ychwanegol y gallant ei sicrhau trwy weithio mewn partneriaeth. Nododd fod tri nod corfforaethol o fewn y Cynllun Llesiant newydd yn hytrach na naw fel yn y cynllun blaenorol;
- Gofynnwyd a oedd yr ymatebion i'r holiadur yn cael ei ystyried yn siomedig o ran y cynllun drafft? Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen ei bod o'r farn bod y 499 o ymatebion a dderbyniwyd yn gadarnhaol, fodd bynnag, ystyriwyd y gallai ymgysylltu wyneb yn wyneb fod wedi bod yn fwy effeithiol gyda grwpiau cymunedol. Cafwyd adborth hefyd gan oddeutu 200 o unigolion ychwanegol drwy ymgysylltu e.e. trwy weithdai a sesiynau gwybodaeth ac addaswyd y Cynllun Llesiant mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Llesiant presennol – 2018/2023;**

- **Nodi y bydd Cynllun Llesiant 2023/2028 yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf, 2023.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**8 CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol fod yr economi ymwelwyr yn sylfaenol i sefyllfa economaidd gynaliadwy Ynys Môn gyda £360m y flwyddyn yn cael ei ychwanegu i'r economi lleol. Fodd bynnag, dros y 3 blynedd diwethaf, mae nifer yr ymwelwyr â'r Ynys wedi cynyddu a gall hyn gael effaith negyddol ar gymunedau lleol, yn enwedig ar ardaloedd arfordirol yr Ynys. Nododd fod y Cynllun Rheoli Cyrchfan wedi'i gynllunio ar gyfer delio â'r cyfleoedd a'r heriau i'r Ynys. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ymhellach at flaenoriaethau'r Cynllun ar gyfer 2023-2028, fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn arbennig diogelu'r Gymraeg, treftadaeth ac amgylchedd yr Ynys ynghyd â'r budd economaidd i Ynys Môn. Dywedodd ymhellach fod y Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft wedi'i gyflwyno a bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal rhwng 28 Ebrill, 2023 a 9 Mehefin, 2023. Cafwyd 48 o ymatebion sy'n cael ei ystyried yn ymateb eithaf isel i'r ddogfen. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ac o ansawdd uchel. Dywedodd yr Aelod Portffolio y bydd Is-grŵp yn cael ei sefydlu gydag aelodau o wahanol sefydliadau gyda ffocws ar greu Cynllun Gweithredu sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng denu twristiaeth i'r Ynys a'r effeithiau posibl ar gymunedau lleol.

Ailadroddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd sylwadau gan yr Aelod Portffolio mai'r sector twristiaeth yw'r sector mwyaf ar yr Ynys. Gwelwyd mewnlifiad o ymwelwyr i'r Ynys yn ystod y 3 blynedd diwethaf ac mae angen lliniaru effeithiau negyddol twristiaeth. Nododd fod angen ailddiffinio'r berthynas gyda'r sector twristiaeth er mwyn sicrhau deialog adeiladol.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chododd y materion canlynol:-

- Cyfeiriwyd at welliannau ar gyfer gweithgareddau arforol a nodwyd yn y Cynllun. Codwyd pryderon ynghylch problemau wrth i bobl ddefnyddio jet-sgis yn anystyriol ar arfordiroedd Ynys Môn. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod rheoli'r moroedd yn broblem a bod angen ymateb corfforaethol mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer y mater hwn;
- Dywedodd y Cadeirydd ei fod o'r farn bod angen ymgorffori Strategaeth Gwella Canol Trefi Môn (a ystyriwyd yn y cyfarfod diwethaf) yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan tra bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i adfywio'r cymunedau lleol a'r economi. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod nifer o ddogfennau drafft yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, ac mai ei gyfrifoldeb ef fel Pennaeth Gwasanaeth oedd hyn. Sicrhaodd y bydd y dogfennau'n gyson â'i gilydd;
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad ystyrid bod 48 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft yn ddigonol. Holwyd a fyddai

defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gwella'r ymatebion i broses ymgynghori gyhoeddus o'r fath? Mewn ymateb, dyweodd Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol ei fod o'r farn bod y 48 ymateb a gafwyd yn adeiladol ac o safon uchel gan gydnabod y byddai nifer uwch o ymatebion wedi bod yn fwy ffafriol. Nododd fod y broses ymgynghori gyhoeddus bresennol yn cael ei chynnal gyda chyfleusterau ar-lein y Cyngor gan ddefnyddio'r wefan a'r datganiadau i'r wasg. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr Uwch Dîm Arwain yn ymchwilio i sut mae'r Cyngor yn gallu cynyddu'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfennau amrywiol ar hyn o bryd;

- Dywedodd y Pwyllgor fod angen twristiaeth gynaliadwy ar yr Ynys ac nad yw'n effeithio ar gymunedau lleol. Codwyd cwestiynau ynghylch y bwriad i sefydlu Is-grŵp i drafod materion yn ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy? Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol mai pwrpas sefydlu Is-Grŵp yw hwyluso adborth a syniadau i sicrhau bod y sector twristiaeth yn fwy cynaliadwy yn ogystal â chysylltu ag atyniadau arbennig yr Ynys o ran natur, tirwedd, bywyd gwyllt a hanes Ynys Môn;
- Cyfeiriwyd at gerbydau gwersylla oedd yn parcio’n anghyfreithlon ar ardaloedd penodol ar yr Ynys. Gwnaed sylwadau bod angen cael cyfleusterau parcio digonol ar gyfer cerbydau gwersylla. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Grŵp Rheoli Twristiaeth mewnol wedi sefydlu Is-Grŵp i drafod yn benodol y mater o gerbydau gwersylla oedd yn parcio’n anghyfreithlon a'r angen i fynd i'r afael â'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gerbydau gwersylla;
- Cyfeiriwyd at boblogrwydd Traeth Llanddwyn a Choedwig Niwbwrch gan dwristiaid sy'n achosi problemau traffig i'r gymuned leol. Mae'r gwasanaethau brys yn methu â chael mynediad i bentref Niwbwrch gan fod y ffordd yn cau. Gofynnwyd sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau traffig parhaus sy'n wynebu trigolion Niwbwrch? Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod trafodaethau wedi'u cynnal ar hyn o bryd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i leddfu'r problemau yn Niwbwrch er mwyn sefydlu cynllun gweithredu strategol ar gyfer yr ardal. Nododd fod y Cyngor yn awyddus i fod yn rhan o'r trafodaethau er mwyn rhoi hyder i'r gymuned leol bod y materion traffig wedi cael eu hystyried.

**PENDERFYNWYD:**

- **Argymell bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith;**
- **Gofyn i’r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini ystyried priodoldeb rhaglennu eitem benodol ar effaith twristiaeth ar gymunedau lleol ar gyfer cyfarfod o’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn y dyfodol.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**9 CHWARTER 4 : 2022/2023 - ADRODDIAD CYNNYDD - CAIS TWF GOGLEDD CYMRU (BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU)**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr na fu cynnydd penodol ers yr adroddiad chwarterol diwethaf i'r Pwyllgor hwn.

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y canlynol:-

- Holwyd ynghylch y cysylltiad rhwng y Cydbwyllor Corfforaethol a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a sut mae'r adnoddau'n cael eu rhannu? Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr nad oes cysylltiad ffurfiol rhwng y Cydbwyllor Corfforaethol a'r Bwrdd Uchelgais ar hyn o bryd gan fod ganddynt strwythurau ar wahân. Nododd fod prosesau cyfreithiol yn cael eu dilyn ar hyn o bryd o ran goblygiadau'r posibilrwydd y byddai'r Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori o dan y Cydbwyllor Corfforaethol. Dywedodd ymhellach y bydd cyfle i'r Pwyllgor hwn graffu ar unrhyw benderfyniadau a wneir maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 4 : 2022/2023.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 10 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn amlinellu Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2023/24 i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/2024;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi 2023** |
| **Pwnc:** | **Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I ddarparu sylwadau ar yr Adolygiad Darpariaeth Brys - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**E-bost:** | **Susan Owen Jones**<br>**Susanjones4@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl aelodau etholedig.** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

1.1 Roi ei farn ar ymateb drafft Cyngor Sir Ynys Môn i Adolygiad Darpariaeth Brys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

1.2 Cynnig yr ymateb drafft i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

2.1 Mae'r Cyngor yn ymatebwr categori 1 ac mae ganddo gyfrifoldeb dros gynllunio ac ymateb i argyfyngau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2002, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

2.2 Mae'r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol mewn cydnerthedd sifil ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr categori 1 eraill yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

4.1 I ba raddau y mae ymateb drafft yr Awdurdod Lleol yn adlewyrchiad digonol o farn y Cyngor?
4.2 Pa fylchau sydd yn yr ymateb drafft?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Sefydlwyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 1996 yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.
5.2 Yr Awdurdod ydi'r corff sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub i gymunedau Gogledd Cymru.
5.3 Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 3 aelod etholedig ar yr Awdurdod.
5.4 Mae'r Cynghorydd Dylan Rees yn cadeirio'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol; mae'r Cynghorydd Jeff Evans yn aelod o'r Awdurdod a'r Panel Archwilio; ac mae'r Cynghorydd John Ifan Jones yn aelod o'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol.
5.5 Mae'r Awdurdod ynghanol ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd i holi barn pobl sy'n byw, gweithio neu deithio yn y rhanbarth ynglŷn â dyfodol y ddarpariaeth brys yng Ngogledd Cymru.
5.6 Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar dri opsiwn ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth brys ledled Gogledd Cymru.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

D/B

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

D/B

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

D/B

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cael ei ariannu'n bennaf drwy ardoll gan Awdurdodau Unedol yr ardal. Mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gronfa hon ac

| |
|---|
| mae cyfraniadau'n seiliedig ar y boblogaeth. Bydd unrhyw newid i gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n effeithio ar yr ardoll gan roi pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| • Ymateb drafft |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Adolygiad Darpariaeth Brys Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru – dogfen ymgynghori. |

This page is intentionally left blank

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Adolygiad Darpariaeth Brys**

Diolch am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ddarpariaeth brys. Mae Uwch Swyddogion ac Aelodau Etholedig wedi adolygu'r ddogfen ymgynghori, ac wedi ystyried yr opsiynau arfaethedig. Cawsant eu hystyried a'u cefnogi'n ffurfiol gan y xx ar xx.

Fel awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac fel ymatebwr categori 1, mae gan y Cyngor rôl hanfodol o ran cydnerthedd sifil ac mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod yn barod rhag argyfyngau. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr categori 1 eraill ac rydym yn gwerthfawrogi ac yn deall pwysigrwydd y gwasanaeth a'r heriau a wynebir ganddo. Rydym yn gwerthfawrogi ein hymrwymiad a'n hymdrechion parhaus i gydweithio'n effeithiol, ond yn cydnabod ar yr un pryd bod yr heriau ariannol presennol yn llethol ac yn peri ansicrwydd. Rydym hefyd yn cydnabod yr anawsterau sydd yn gysylltiedig â chynllunio, cyflenwi a chynnal gwasanaethau craidd yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys chwe awdurdod cyfansoddol, yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys cynghorwyr sir o'r chwe awdurdod lleol ac mae gan y Cyngor 3 aelod ar yr Awdurdod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n cael ei ariannu'n bennaf drwy ardoll gan Awdurdodau Unedol yr ardal. Bydd unrhyw newid i gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n effeithio ar yr ardoll gan roi pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor.

Gweler y sylwadau mawl sydd wedi'u nodi isod:

**Sylwadau Cyffredinol**

1. Mae pwrpas ac amcan yr ymgynghoriad wedi ei nodi'n glir yn y ddogfen. Mae'r wybodaeth wedi'i chyflwyno'n glir ac mae'r ddogfen yn hawdd i'w deall.
2. Nid yw'r ddogfen yn nodi pam bod angen newid. A yw hyn o ganlyniad i drafferthion ariannol ac os felly beth fyddai'r gost o 'wneud dim'?
3. Fodd bynnag, mae gwybodaeth bwysig iawn ar goll sef effaith yr opsiynau amrywiol ar gymunedau Ynys Môn (fel y nodir isod). Mae hyn yn hanfodol bwysig er mwyn ein galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ar unrhyw newidiadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y dyfodol.
4. Mae gwahanol anghenion a heriau yn bodoli ledled y rhanbarth, sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth yr ardal a'i chymunedau gwledig a gwasgaredig yn bennaf. Rydym am sicrhau na fydd ein cymunedau gwledig dan anfantais o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth brys.
5. Rydym yn cydnabod bod Gogledd Cymru fel rhanbarth wedi parhau i esblygu ac felly hefyd y risgiau i'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r ardal. Rydym hefyd yn croesawu'r modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi esblygu i fod yn wasanaeth ataliol ynghyd ag ymateb i alwadau am wasanaeth arbennig o ganlyniad i newid hinsawdd a datblygiadau technolegol.
6. Byddem wedi hoffi gweld mwy o wybodaeth benodol yn y ddogfen am y gwaith ataliol sy'n cael ei gyflawni, effaith y gwaith hwnnw, a'r gofynion o ran adnoddau a chapasiti.
7. Rydym yn cytuno gyda'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r opsiynau a'r themâu allweddol a godwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu cychwynnol. Maent yn addas a phriodol.

DRAFFT

**Yr Opsiynau**

8. Mae'r ddogfen yn awgrymu bod effaith y 3 opsiwn yn amrywio ar sail ranbarthol.
9. Yn achos Ynys Môn yn benodol, mae'r mapiau ar dudalennau 30-31 yn awgrymu na fydd cadw'r trefniadau presennol neu newid i un o'r 3 opsiwn yn achosi unrhyw effaith. Ydi hyn yn wir?
10. Nid yw Opsiwn 1 a 2 yn nodi unrhyw newidiadau nac effaith benodol ar gyfer yr Ynys ar wahân i'r ffaith eu bod yn costio mwy. Cynnal y gwasanaeth presennol, os ydi hynny'n bosib yn ariannol, fyddai'r opsiwn delfrydol.
11. Nid yw cynnal / parhau â'r trefniadau presennol wedi'i gynnwys fel opsiwn. A yw'r newid oherwydd problemau ariannol, ac os felly beth fyddai'r gost ychwanegol o "wneud dim" o'i gymharu â'r costau ychwanegol (sydd wedi eu nodi ar dudalen 37), neu a yw'r newid er mwyn gwella'r modd y mae'r Gwasanaeth Tân yn ymateb i alwadau sy'n golygu y byddai'r costau a nodwyd yn ychwanegol i'r gost bresennol. Mae angen eglurder.
12. Mae'r map yn nodi lleoliad y galwadau brys a dderbyniwyd yn glir gyda'r mwyafrif ar hyd y glannau yn y Gogledd ac ar Ynys Môn. Fodd bynnag, mae'r 3 opsiwn arfaethedig yn cynyddu staff llawn amser yn Ne Meirionnydd a Sir Ddinbych. O ganlyniad, bydd gan y Gwasanaeth fwy o staff llawn amser mewn ardaloedd sy'n derbyn llai o alwadau.
13. Hefyd, mae'r mapiau'n dangos nifer y galwadau ond nid oes sôn am amseroedd ymateb, e.e. faint o amser mae'n ei gymryd i ymateb i ddigwyddiad yn ardal Biwmares dan y trefniadau presennol er mwyn cymharu faint y bydd yn ei gymryd o dan y 3 opsiwn. Mae'n anodd dehongli'r effaith oherwydd diffyg gwybodaeth yn y ddogfen ymgynghori.

**Opsiwn 3**

14. Mae Opsiwn 3 yn golygu cau un orsaf dân ar alw ar yr Ynys, sef Gorsaf Dân Biwmares. Mae'r ddogfen yn awgrymu na fydd cau'r orsaf a chael llai o ddiffoddwyr tân yn cael effaith ar amseroedd ymateb yn yr ardal hon nac mewn ardaloedd cyfagos. Gan mai dim ond 6 gorsaf dân ar alw sydd ar yr Ynys rhaid i ni amau a yw hyn yn wir. A oes modd i chi ddarparu mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y byddwch yn mynd ati i liniaru unrhyw effaith yn gysylltiedig â chau'r orsaf hon, a chynnal y gwasanaeth presennol? Heb eglurhad/sicrwydd, mae'n anodd i'r Cyngor Sir gefnogi'r newid arfaethedig.
15. Rydym o'r farn y byddai cau'r orsaf, neu ddiffyg argaeledd yr adnodd hwn, yn cynyddu'r amser ymateb gan y byddai'n cymryd mwy o amser i'r orsaf dân agosaf nesaf ymateb. Ni fyddai'r ymateb o reidrwydd yn dod o'r orsaf dân agosaf nesaf chwaith gan nad ydynt bob amser ar gael oherwydd problemau staffio neu oherwydd eu bod wedi cael eu galw at argyfwng arall. Mae hyn felly'n peryglu bywydau, ac nid ydym yn credu bod y ddogfen ymgynghori'n mynd i'r afael â hyn yn ddigonol.
16. Dim ond Opsiwn 3 sy'n sôn am leihad (2,087) yn nifer yr aelwydydd a fyddai'n derbyn ymateb cyn pen 20 munud. Mae Opsiwn 1 a 2 yn cynyddu'r ymateb (2,148 a 321 yn y drefn honno). Rydym yn tybio bod y data'n cynnwys yr Ynys, ac yn benodol Biwmares, fodd bynnag nid yw hynny wedi'i nodi. Gwerthfawrogwn ragor o eglurder, a chadarnhad.
17. Mae diffyg manylder yn y naratif ynglŷn â chau Gorsaf Dân Biwmares. Nid ydych yn cyfiawnhau pam nac yn nodi'r manteision. Fel y nodwyd yn flaenorol, ni fyddai'r ymateb brys o reidrwydd yn dod o'r orsaf dân agosaf nesaf, sy'n awgrymu y gallai'r ymateb ddod o orsaf oddi ar yr ynys. Gan fod yr orsaf dân criw dydd agosaf i Fiwmares wedi'i lleoli dros y Fenai ym Mangor, Gwynedd, rydym o'r farn y byddai'r gostyngiad hwn mewn gwasanaeth yn peryglu bywydau.

DRAFT

18. Mae'r tagfeydd a'r diffyg gwydnwch dros y Fenai a'r ddibyniaeth ar Orsaf Dân Bangor yn peri pryder sylweddol. Cyflwynwyd tystiolaeth fanwl ynglŷn â'r pryderon hyn mewn adroddiad a gymeradwywyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar y 18fed o Orffennaf 2023 (Gwella Dibynadwyedd a Chydnerthedd ar draws y Fenai.pdf (ynysmon.gov.uk)
    a. Pont Britannia yw'r unig bwynt ar rwydwaith cefnffyrdd y DU sy'n rhan o lwybr Rhwydwaith Ffyrdd Traws Ewropeaidd yr E22, lle mae'r gerbytffordd yn culhau o 4 lôn i ddwy – un ym mhob cyfeiriad.
    b. Ceir cyfyngiadau o ran y math o gerbydau sy'n gallu cael mynediad i Bont Menai (sef hyd at 7.5 tunnell yn unig), ac mae cyfyngiadau cyflymder 30mya ynghyd â diffyg cyfleusterau mwy diogel, fel lleiniau caled, yn cyfrannu at gydnerthedd gwael o ran cerbydau brys.
    c. Mae'n rhaid cau Pont Britannia'n aml oherwydd gwynt, digwyddiadau a damweiniau.
    d. Yn ystod gwyntoedd cryfion (sy'n hyrddio dros 70mya) caiff y bont ei chau'n gyfan gwbl – heb unrhyw lwybr gwyro posibl ar gyfer cerbydau sydd dros 7.5 tunnell.
19. Mae'r diffyg gwydnwch dros y Fenai yn cael effaith ar wasanaethau brys a diogelwch cymunedau. Rydym felly'n gwrthwynebu'r cynnig i gau Gorsaf Dân Biwmares fel y nodir yn Opsiwn 3.

**Costau canolog a strwythur gweithredol**

20. Nid yw'r ymgynghoriad yn trafod, ystyried na chynnig unrhyw newidiadau i gostau canolog y gwasanaeth. Mae'r 3 opsiwn a gyflwynwyd yn golygu cynnydd o 8.1% i 13.5% o ran costau. Sut fydd y Gwasanaeth Tân yn ariannu'r cynnydd hwn, h.y. a fydd yr holl gostau'n cael eu hariannu drwy'r ardoll neu a fydd y gwasanaeth yn cynnig arbedion i leihau ei gostau canolog?
21. Rhaid canolbwyntio ar amddiffyn gwasanaethau rheng flaen ac nid yw hepgor unrhyw fanylion neu ystyriaethau ynghylch costau canolog yn cynnig unrhyw sicrwydd mai dyma sy'n digwydd.

I gloi, cadarnhaf safbwynt y Cyngor y dylid canolbwyntio ar amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yn sgil yr argyfwng economaidd ac y dylid ystyried arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd eraill o fewn strwythur gweithredu ac arferion gwaith Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, h.y. costau canolog, costau hyfforddi ac ati. Mae angen rhagor o fanylion ac ystyriaethau a thrafodaethau pellach ynglŷn â'r strwythur gweithredu ehangach a chyfleoedd i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn erbyn cau Gorsaf Biwmares fel y nodir yn Opsiwn 3.

Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn gwerthfawrogi'n hymrwymiad a'n hymdrechion parhaus i gydweithio, ond yn cydnabod bod yr heriau ariannol presennol yn llethol ac yn peri ansicrwydd. Byddem yn croesawu trafodaeth bellach.

This page is intentionally left blank

# Y LLE IAWN
# YR AMSER IAWN
# Y SGILIAU IAWN

**EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# Adolygiad Darpariaeth Brys

## Dweud eich dweud

21 Gorffennaf 2023 – 22 Medi 2023

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

*ATAL AMDDIFFYN YMATEB*
*PREVENTING PROTECTING RESPONDING*

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales

# Cynnwys


Beth yw cynnwys y ddogfen hon? .......... 3
Pwy ydyn ni? .......... 4
Ein nodau .......... 5
Cyflwyniad .......... 6
Sut rydyn ni'n gweithredu ar hyn o bryd .......... 7
Yr heriau sydd o'n blaenau .......... 8
Pam rydyn ni'n ymgynghori? .......... 9
Beth yw heriau'r gwahanol ddigwyddiadau rydyn ni'n mynd atynt? .......... 12
Datblygu ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol .......... 22
Beth oedd gan randdeiliaid i'w ddweud .......... 24
Sesiwn bellach gyda thrawstoriad o randdeiliaid .......... 26
Diystyru un o'r opsiynau yn dilyn ein gwaith cyn-ymgynghori .......... 28
Beth fyddai'r effaith ar ein hymateb brys? .......... 29
Beth a olygwn wrth geisio darparu'r gwasanaeth tecaf posib? .......... 32
Pam cael gorsafoedd tân staff dydd ychwanegol? .......... 33
Pam newid o staffio amser cyflawn i staffio dydd yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy? .......... 34
Pam cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam? .......... 34
Pam ystyried cau pum gorsaf dân ar-alwad? .......... 35
Sut i ymateb .......... 38
Ymateb yn ffurfiol i'n hymgynghoriad .......... 40
Beth sy'n digwydd nesaf? .......... 41


Tudalen 22

Y LLE IAWN
YR AMSER IAWN
Y SGILIAU IAWN
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI



## Beth yw cynnwys y ddogfen hon?

**Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth gan y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yn y rhanbarth am ddyfodol y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau darpariaeth frys yng Ngogledd Cymru.**


**Darpariaeth frys yw'r ffordd rydyn ni'n rheoli ein hadnoddau i gadw pobl yn ddiogel – ni waeth ble rydych chi'n byw neu pwy ydych chi, rydyn ni'n anelu at fod yno i chi pan fyddwch ein hangen.**

I'n helpu i ddatblygu ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol, rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n staff a chyrff cynrychioliadol, y cyhoedd, cynrychiolwyr y cyngor, grwpiau agored i niwed lleol ac aelodau o'n Hawdurdod Tân ac Achub i ddeall yr hyn sy'n wirioneddol bwysig petaech chi, neu rywun rydych yn gofalu amdano neu'n ei gynrychioli, angen ein gwasanaethau mewn argyfwng.

Mae'r holl adborth wedi'i ddefnyddio i ddatblygu ein hopsiynau ar gyfer dyfodol gwasanaethau darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru – rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn. Rydyn ni'n esbonio'r opsiynau ar dudalennau 36 a 37.

Rhwng 21 Gorffennaf 2023 a 22 Medi 2023, gallwch ddweud eich barn wrthym drwy lenwi ein holiadur a'i ddychwelyd atom – mae ar gael ar bapur neu ar-lein: www.tangogleddcymru.llyw.cymru.

Rydyn ni'n esbonio'r ffyrdd gwahanol y gallwch gymryd rhan a rhannu eich barn gyda ni ar dudalennau 38-40.



Y LLE IAWN
YR AMSER IAWN
Y SGILIAU IAWN
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

# Pwy ydyn ni?


Cafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei sefydlu fel rhan o'r broses o ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.

Yr Awdurdod yw'r corff sy'n atebol i'r cyhoedd ac sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth tân ac achub i gymunedau Gogledd Cymru.

Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. I gefnogi'r genhadaeth hon, bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio i ostwng nifer y tanau mewn cartrefi ledled y rhanbarth drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr, a bydd yn ymchwilio ac yn dadansoddi gwybodaeth i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob math o dân a pheryglon eraill.

Byddwn hefyd yn parhau hefyd i hybu addysg a gweithio ar y cyd â phobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngogledd Cymru. Mae cyfle cyfartal yn flaenoriaeth sylfaenol, ac mae'r Awdurdod yn ceisio cynyddu'r siawns o gyflogaeth i bobl a allai ei chael yn anodd cael swydd wrth hybu tegwch a chynhwysiant yn y gweithle.







**Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth a'r Awdurdod ar gael drwy fynd i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:**
**www.tangogleddcymru.llyw.cymru**

**Dangosir ein gwerthoedd craidd yn y diagram isod.**

# Ein nodau

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol 2021-24 sy'n nodi ein saith amcan gwella a llesiant hirdymor. Ym mis Hydref 2021, cadarnhaodd yr Awdurdod ei fwriad i barhau i fynd ar drywydd yr un amcanion hynny yn 2022/23 ac ym mis Mawrth 2023 cafodd y cynllun ei ddiwygio.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a sut rydyn ni'n bwriadu cyflawni hyn trwy saith amcan hirdymor. I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r saith amcan, mae yna gamau mwy manwl, tymor byr, sydd wedi'u cysylltu â'r saith nod llesiant a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: www.futuregenerations.wales






Y LLE IAWN
YR AMSER IAWN
Y SGILIAU IAWN
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI
YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE
RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS

# Cyflwyniad

Rydyn ni eisiau darparu'r gwasanaeth tecaf posib i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

Waeth ble rydych chi'n byw neu pwy ydych chi, ein nod ydy bod yno i chi pan fydd arnoch ein hangen ni.

Mae hyn yn golygu gallu darparu'r un gwasanaeth ar draws ein cymunedau amrywiol – amrywiol o ran lleoliad a daearyddiaeth, o ran y mathau o ddigwyddiadau rydyn ni'n ymateb iddynt, a hefyd o ran y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu.

O fynyddoedd Eryri i ddinas Wrecsam; o gadarnleoedd y Gymraeg i'r ffin â Swydd Amwythig a Swydd Gaer; o danau yn yr awyr agored i lifogydd; o danau mewn tai i wrthdrawiadau ar y ffordd; beth bynnag fo'ch ethnigrwydd, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol ac os oes gennych anabledd neu beidio.

Tudalen 24


Rydyn ni'n anelu at gyflawni hyn drwy reoli ein hadnoddau, ein cyllideb a'n pobl mor effeithiol â phosib.

Mae deall eich barn chi a barn pawb sy'n byw, gweithio a theithio yn ein rhanbarth yn allweddol i hyn.

Mae cadw cydbwysedd rhwng hyn a'r rhwystrau presennol i ddarparu gwasanaethau yn allweddol hefyd – yn enwedig o ystyried bod argaeledd ein diffoddwyr tân ar-alwad neu ran amser wedi gostwng, bod y risgiau sy'n wynebu ein cymunedau yn newid gyda'r newid yn yr hinsawdd, a'r heriau ariannol yn fwy nag erioed.

Ac nid dim ond ymateb i ddigwyddiadau sy'n bwysig – byddai eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf yn well o lawer i bawb dan sylw.

Nid yn unig mae ein gwaith atal yn helpu i'ch cadw chi'n ddiogel ond mae hefyd yn golygu y gallwn reoli'r ffordd rydyn ni'n gweithio yn well. I gymunedau fel y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig, mae'n ffordd hanfodol o amddiffyn ein trigolion.



**Dawn Docx** Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr



**Dylan Rees** Cadeirydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol

# Sut rydyn ni'n gweithredu ar hyn o bryd

Cafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei greu yn 1996 gan ddod â Gwasanaeth Tân Sir Clwyd a Gwasanaeth Tân Gwynedd at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r model ar gyfer darpariaeth frys a'r lleoliadau a'r trefniadau ar gyfer criwio'r 44 gorsaf dân yng Ngogledd Cymru wedi aros heb eu newid ryw lawer ers y cyfnod wedi'r rhyfel.

Mae Gogledd Cymru fel rhanbarth wedi parhau i esblygu ac felly hefyd y risgiau sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n byw ac yn gweithio yn ein hardal brydferth ac sy'n ymweld â hi. Yn 2008, yn ogystal â bod yn wasanaeth ymateb, sefydlodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei hun fel gwasanaeth atal hefyd. Ers hynny, rydyn ni wedi gweithio'n galed i ostwng nifer y tanau, yn ogystal â'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n digwydd o ganlyniad.

Roedd y flwyddyn 2022/23 yn garreg filltir bwysig i ni – am y tro cyntaf ers i ni ddechrau cadw cofnod, ni fu unrhyw farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru.

Mae hyn yn newyddion gwych, ond rhaid i ni beidio â llaesu dwylo. Mae'n rhaid i ni weithio'n galetach byth i gynnal y lefel hon o ddiogelwch.



# Yr heriau sydd o'n blaenau

Yn y cyfamser, mae risgiau eraill wedi dod i'r amlwg gyda newid yn yr hinsawdd yn cynyddu pa mor aml a difrifol ydy'r achosion o danau yn yr awyr agored a llifogydd.

Mae datblygiadau newydd o ran technoleg fel paneli solar a cherbydau trydan, a dulliau newydd o adeiladu ag deunyddiau adeiladu newydd, yn peri risgiau newydd i'r cyhoedd ac i ddiffoddwyr tân.

A ninnau wedi dechrau cefnogi cydweithwyr eraill yn y sector brys, rydyn ni wedi gweld cynnydd yn yr hyn a elwir yn alwadau gwasanaeth arbennig.


O ganlyniad, rydyn ni'n dod yn fwy o Wasanaeth Achub nag yn Wasanaeth Tân ac Achub.

Yn y dyfodol, gobaith Llywodraeth Cymru ydy y gallwn ymchwilio i'r posibiliad o allu cynorthwyo ein cydweithwyr ambiwlans ymhellach drwy ymateb i achosion o ataliadau'r galon. I wneud hyn i gyd, byddai angen i ni fod **yn y lle iawn.**

Tudalen 25




# Pam rydyn ni'n ymgynghori?





Ar hyn o bryd, dim ond mewn 8 o'n gorsafoedd tân wedi'u lleoli'n bennaf ar hyd coridor ffordd ddeuol yr A55 yn ein rhanbarth y mae gennym ddarpariaeth frys wedi'i gwarantu.

Mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru, rydyn ni'n dibynnu ar ddiffoddwyr tân rhan amser neu ar-alwad (sy'n gweithredu'r system dyletswydd rhan amser) – ac mae'n anodd sicrhau bod y rhain ar gael yn ystod y dydd (tudalen 11).

Rydyn ni'n gweithio'n galed i recriwtio a chadw'r diffoddwyr tân hyn ond mae angen i ni gael darpariaeth frys wedi'i gwarantu mewn ardaloedd mewndirol, er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu criw ymateb o fewn yr amser ymateb gorau posib ym mhob rhan o Ogledd Cymru. Mewn argyfwng, mae amser yn hanfodol.

Rydyn ni felly wedi bod yn archwilio senarios ar gyfer darparu darpariaeth frys yn y dyfodol – gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth bresennol tra hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol presennol. Gan weithio gydag arbenigwyr annibynnol, rydyn ni wedi bod yn modelu'n union sut y gallem wneud y gorau o'n hadnoddau ac ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Gwyddom fod nifer y digwyddiadau yr ydyn ni'n mynd iddynt yn cynyddu trwy gydol y dydd, gan gyrraedd uchafbwynt yn gynnar gyda'r nos ac yna gostwng yn y nos. Gallem felly edrych ar gyfateb y galw hwn trwy newid y ffordd y mae rhai o'n criwiau'n gweithio mewn rhai ardaloedd.




**Digwyddiadau fesul awr ar gyfartaledd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Tudalen 26

Er y gallwn weithio i wella sut y gallai ein darpariaeth a pherfformiad ar gyfartaledd edrych, bydd ardaloedd o hyd, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, lle byddem yn parhau i weithio'n galetach i wella ein gwasanaethau amddiffyn ac atal a pharhau i ganolbwyntio ar recriwtio staff ar alw a'u hargaeledd.

Byddai hyn yn ein galluogi i ymateb yn fwy effeithiol i'r holl argyfyngau y cawn ein galw i fynd atynt, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd a digwyddiadau o ganlyniad i dywydd eithafol, ac yn hollbwysig, ar yr **amser iawn**.

Ynghyd â'r risgiau newydd, mae'r dechnoleg y mae diffoddwyr tân yn ei defnyddio wedi dod yn fwy soffistigedig. Felly, mae hyfforddiant yn hollbwysig, ac oherwydd bod nifer y tanau wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf diolch i'n gwaith atal, mae hyd yn oed yn fwy hanfodol bod hyfforddiant realistig a ymdrochol yn cael ei roi ym mhob un o'r argyfyngau rydyn ni'n debygol o fynd atynt.

Mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'n hangen i hyfforddi diffoddwyr tân i gadw eu hunain a'r cyhoedd yn ddiogel a darparu ymateb o'r ansawdd uchaf.

Felly, rydyn ni wrthi'n datblygu achos busnes i adeiladu Canolfan Hyfforddi fodern o'r radd flaenaf. Byddai wedi'i lleoli'n fwy canolog, fel bod llai o amser yn cael ei dreulio'n teithio a mwy o amser yn hyfforddi. Gall hefyd baratoi ein diffoddwyr tân at ddelio â risgiau newydd a phresennol a gallem ei rannu gyda'n partneriaid yn y gwasanaethau brys ac eraill y gallwn ni fod mewn argyfyngau gyda nhw. Mae hyfforddi gwasanaethau brys ar y cyd a gweithgareddau ar y cyd yn sicrhau bod gan ein pobl y **sgiliau iawn**.

## O ble mae ein harian yn dod?

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian ar draws yr holl wasanaethau a ddarparwn gyda chyllid a godir gan y chwe awdurdod lleol a wasanaethwn: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Mae ein Hawdurdod Tân ac Achub yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod lleol ac mae ganddo'r pŵer i godi ardoll ar y Dreth Gyngor ar gyfer cyllid.

Bob blwyddyn, mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn talu cyfraniad i gronfa gwasanaeth tân cyfun sy'n cyfateb i'w gyfran o dreuliau ein Hawdurdod Tân.

Ein cyllideb bresennol ar gyfer 2022/23 yw £44.4 miliwn – sy'n cyfateb i £63.07 y flwyddyn y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, neu £150.66 y flwyddyn fesul cartref.

Mae gwybodaeth am gost pob opsiwn yr ymgynghorir yn ei gylch wedi'i chynnwys yn y tabl ar dudalennau 36-37.

## Beth yw ein patrymau shifft bresennol?


- Mae ein diffoddwyr tân ar ddyletswydd rhan amser neu ar-alwad (rhan amser) wedi'u lleoli'n bennaf mewn gorsafoedd tân gwledig ar draws ein rhanbarth. Mae gofyn iddyn nhw fod o fewn pum munud o'u gorsaf dân ac yn cario hysbyswr i allu ymateb i argyfyngau a mynychu nosweithiau ymarfer unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau hyfforddi a dyletswyddau eraill a drefnwyd ymlaen llaw.
- Mae ein diffoddwyr tân criw dydd yn ddiffoddwyr tân llawn amser wedi'u lleoli ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaergybi. Mae'r system shifft criw dydd yn ei gwneud yn ofynnol i'n criwiau weithio cyfuniad o oriau yn yr orsaf yn ystod y dydd ac ar-alwad o leoliad sylfaenol dros nos, i ddarparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.
- Mae ein diffoddwyr tân amser cyflawn neu amser llawn wedi'u lleoli yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae criwiau yn y gorsafoedd hyn yn gweithio shifftiau o'r orsaf gyda'r nos ac yn ystod y dydd i ddarparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.
- Mae diffoddwyr tân gwledig amser cyflawn hefyd yn gweithio'n llawn amser ac yn gweithio shifftiau dydd 12 awr dros y rhanbarth ar sail ddeinamig yn dibynnu ar yr angen.



# Beth yw heriau'r gwahanol ddigwyddiadau rydyn ni'n mynd atynt?

Tudalen 27

## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i atal neu ymateb i **danau mewn tai**




**Tanau damweiniol mewn cartrefi a fynychwyd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Yn rhy aml o lawer rydyn ni'n gweld effeithiau trychinebus tanau damweiniol yn y cartref. Mae atal tanau rhag digwydd yn y lle cyntaf yn allweddol i gadw pobl yn ddiogel a dyna pam rydyn ni wedi gweithio'n galed i leihau nifer y tanau ynghyd â'r marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i hynny – ac mae cynnal archwiliadau diogel ac iach i ddarparu cyngor diogelwch tân yn y cartref a gosod larymau mwg yn rhan annatod o'r gwaith hwn.

Mae'r rhan fwyaf o danau'n cychwyn yn ddamweiniol – a gall yr effeithiau fod yn ddinistriol. Mae dros 40% o'r holl danau yn y cartref yn cychwyn yn y gegin. Rhywbeth yn tynnu sylw yw'r ffactor dynol mwyaf sy'n gyfrifol am hynny – gan arwain at gegin llawn mwg, offer wedi'u difrodi neu yn yr achosion gwaethaf, anafiadau neu niwed difrifol.

Rydyn ni'n ymgyrchu drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo ffyrdd y gallwch aros yn ddiogel – gallwch ddilyn ein hawgrymiadau ar goginio'n ddiogel, diogelwch e-sigaréts, diogelwch trydanol, diogelwch ysmygu a llawer mwy ar ein gwefan: www@tangogleddcymru.llyw.cymru

Ers 2013, mae system chwistrellu tân wedi'i gosod ym mhob cartref newydd a chartref wedi'i drawsnewid yng Nghymru. Mae hyn fel cael diffoddwr tân yn eich cartref a phrofwyd bod hyn yn achub bywydau ac yn atal anafiadau.

Mae systemau larwm wedi'u monitro'n cynnig system gymorth werthfawr i breswylwyr oedrannus neu agored i niwed - ac i bob un ohonom, gall larymau mwg sy'n gweithio rhoi rhybudd cynnar a all ddarparu amser gwerthfawr i fynd allan, aros allan a deialu 999.


Yn 2022/23, am y tro cyntaf ers i'n cofnodion ddechrau, ni fu unrhyw farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngogledd Cymru.

Fodd bynnag, ni allwn fod yn hunanfodlon a gwyddom fod angen i ni weithio'n galetach byth i gynnal y lefel hon o ddiogelwch.



Tudalen 28

## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i atal neu ymateb i **wrthdrawiadau traffig ffyrdd**




**Lleoliadau gwrthdrawiadau traffig ffyrdd 01/04/2017 - 31/03/2022**



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a chodi ymwybyddiaeth o brif achosion gwrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol. Mae neges y 'Pump Angheuol' yn canolbwyntio ar 'Peidiwch ag yfed a gyrru, Gyrrwch Gan Bwyll, Peidiwch â bod yn ddiofal, Gwisgwch wregys, a Diffoddwch eich ffôn symudol'.

Nid delio â thanau mewn tai yn unig yw ein gwaith fel gwasanaeth tân ac achub – rydyn ni'n mynd at nifer uchel o wrthdrawiadau traffig ffyrdd ac yn gweithio'n ddiflino gydag asiantaethau partner i helpu i addysgu gyrwyr am ganlyniadau angheuol posib goryrru neu beidio â thalu sylw wrth yrru.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i yrwyr iau – mae llawer o dystiolaeth bod gyrwyr 16-24 oed yn anghymesur o debygol o gael eu hanafu mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Yng Nghymru, mae'r grŵp oedran hwn yn cyfrif am 11 y cant o'r boblogaeth ond 22 y cant o'r holl bobl a gafodd eu hanafu.

Mae cydweithio i helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd yn rhan o'n hymrwymiad i leihau digwyddiadau traffig ar y ffordd a all ddigwydd unrhyw le ar draws ein rhanbarth.





Mae newid yn yr hinsawdd wedi gweld cynnydd yn y galw i ymateb i danau yn yr awyr agored yn ein rhanbarth.

Bob blwyddyn yng Nghymru, mae tân yn gyfrifol am ddifrodi miloedd o hectarau o dir cefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt.

Mae tanau yn yr awyr agored yn cymryd adnoddau y gall fod eu hangen mewn argyfwng arall – ac oherwydd eu bod yn tueddu i ddigwydd mewn amgylcheddau gwledig a gwledig-trefol, rydyn ni wedi gweld sut mae tanau yn yr awyr agored yn rhoi bywydau mewn perygl – bywydau ein cymunedau yn ogystal â'n diffoddwyr tân.

Yn 2022, gwelsom gynnydd dramatig yn nifer a difrifoldeb y tanau yn yr awyr agored yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru, gan godi o 4 ym mis Mawrth ac Ebrill 2021 i 20 ym mis Mawrth ac Ebrill 2022. Mae'r darlun hwn yn debyg ar draws Cymru gyfan.

Dyna pam mae cydweithio i atal y tanau hyn yn bwysicach nag erioed – ac rydyn ni'n gweithio gydag ystod o sefydliadau, ynghyd â gwasanaethau tân ac achub eraill ledled Cymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y difrod y mae tanau yn yr awyr agored yn gallu ei achosi i rai o'n tirweddau ucheldirol mwyaf eiconig.

Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr lleol – roedd llawer o'r tanau yn yr awyr agored ucheldirol ym mis Mawrth 2022 wedi digwydd o ganlyniad i dechnegau rheoli tir fel gwaith llosgi gweunydd rhagnodedig yn mynd allan o reolaeth.

Yn ystod haf 2022, cofnodwyd y tymereddau uchaf erioed, ac mae tanau yn yr awyr agored bellach yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel perygl mawr ar y Gofrestr Risg Genedlaethol o Argyfyngau Sifil, ac yn adroddiad Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ar Iechyd 2023 y DU.

Gall effaith tanau yn yr awyr agored fod yn ddinistriol – maen nhw'n difrodi tir ac eiddo, yn niweidio bywyd gwyllt a'r amgylchedd, yn rhyddhau carbon deuocsid a llygryddion i'r atmosffer a chyrsiau dŵr, gan effeithio ar gymunedau a busnesau lleol.


Mae diffodd tanau yn yr awyr agored yn waith anodd a chostus iawn, ac mae'n gofyn am offer arbenigol gan fod ein diffoddwyr tân yn aml yn wynebu gweithio dan amodau peryglus ac anodd.

Mae'r costau yn sgil tanau yn yr awyr agored yn enfawr, gan gynnwys y gwaith adfer, ffermwyr a busnesau'n colli tir a'r effaith negyddol ar gymunedau.

Trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, rydyn ni'n canolbwyntio ar leihau nifer y tanau glaswellt a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar ein cymunedau, ein tirwedd a'n bywyd gwyllt.


Tudalen 29

## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i daclo **tanau yn yr awyr agored**




**Lleoliadau tanau yn yr awyr agored 01/04/2017 - 31/03/2022**

# Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i ymateb i **llifogydd**




**Ymateb i ddigwyddiadau llifogydd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Mae newid hinsawdd hefyd wedi gweld cynnydd yn y galw i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yng Ngogledd Cymru.

Mae stormydd sylweddol yn digwydd yn amlach ar draws y DU, sy'n gofyn am ymateb brys aml-asiantaeth.

Ym mis Ionawr 2021, daeth Storm Cristoph ag un o'r tridiau gwlypaf a gofnodwyd erioed ar draws Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Aeth criwiau tân Gogledd Cymru at ddigwyddiadau llifogydd ar draws y rhanbarth wrth i Storm Cristoph daro'r DU, gan ddod â glaw sylweddol a nifer o rybuddion llifogydd difrifol.

Roedd ein hystafell reoli yn brysur gyda dros 200 o alwadau wedi eu derbyn ar anterth y storm, gyda chriwiau neu swyddogion yn mynd allan at 56 o alwadau. Cynorthwyodd staff gweithredol mewn 48 eiddo ac achubwyd 28 o anafusion dros ddau ddiwrnod o dywydd garw.



Gweithiodd swyddogion yn agos gyda phartneriaid o wasanaethau brys eraill ac awdurdodau lleol wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer y llifogydd eang hyn.

Yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf oedd Rhuthun a Bangor-is-y-coed lle cafodd trigolion o'r gymuned leol eu symud o'u cartrefi, ac agorwyd canolfannau gorffwys tra bod rhybuddion llifogydd a rhybuddion llifogydd mewn grym ar draws Gogledd Cymru.

Rydyn ni eisiau parhau i helpu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu i fod yn ddiogel beth bynnag fo'r tywydd – ac mae effeithiau newid hinsawdd yn golygu bod angen i ni allu addasu i ymateb i'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau.




Tudalen 30





Tudalen 31

## Y lle iawn, yr amser iawn, y sgiliau iawn i helpu i gryfhau **trefniadau atal ac amddiffyn**






**Nifer o danau cynradd fesul Awdurdodau Tan ac Achub yng Nghymru**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar atal fel conglfaen y gwaith o amddiffyn ein cymunedau.

Mae atal digwyddiadau rhag digwydd yn y lle cyntaf yn well i bawb ac rydyn ni'n gweithio'n galed i atal tanau a digwyddiadau eraill.

Mae nifer y prif danau – y rhai a allai fod yn danau mwy difrifol sy'n niweidio pobl neu'n achosi difrod i eiddo – wedi gostwng yn sylweddol ar draws Cymru gyfan dros y deng mlynedd diwethaf diolch i'n ffocws ar atal, ac wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd diwethaf.





**Nifer y digwyddiadau dyddiol ar gyfartaledd 01/04/2017 - 31/03/2022**

Yn 2022/23, cwblhaodd ein staff diogelwch cymunedol 18,052 o archwiliadau diogel ac iach i helpu i atal tanau yn y cartref, trwy annog perchnogaeth larymau mwg i roi rhybudd cynnar pe bai tân a thrwy roi cyngor diogelwch tân hanfodol i breswylwyr.

Gallwch gofrestru i gael archwiliad diogel ac iach am ddim trwy anfon neges destun gyda'ch manylion i 07507303678, llenwi'r ffurflen ymholiadau ar-lein yn www.tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy ffonio 0800 169 1234 rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ein rôl fel rheolydd diogelwch tân yw gweithio gyda phobl a busnesau i helpu i sicrhau eu bod yn gwneud popeth i gynnal diogelwch y cyhoedd yn yr eiddo y maent yn gyfrifol amdano o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Lle mae bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd mewn eiddo, gallwn ddefnyddio ein pwerau gorfodi i leihau risg a dod â gwelliannau a thrwy wneud hynny byddwn yn gweithredu'n gymesur.

Mae ein staff diogelwch tân busnes yn gweithio ar draws Gogledd Cymru gyda phobl a busnesau i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad i'w helpu i reoli'r risgiau tân yn eu heiddo.






Tudalen 32

# Datblygu ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r ffordd orau o ddarparu ein darpariaeth frys yn y dyfodol, gan sicrhau y gallwn fod **yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau cywir.**

Yn seiliedig ar ein gwaith modelu ac ar ein profiad proffesiynol ein hunain, rydyn ni wedi archwilio amrywiaeth o wahanol senarios. Trwy gyfres o weithdai cyn-ymgynghori, seminarau a grwpiau ffocws rydyn ni wedi casglu mewnwelediadau ac adborth gan ystod eang o bobl, gan gynnwys staff a chyrff cynrychioliadol, y cyhoedd, cynrychiolwyr y cyngor, grwpiau agored i niwed lleol ac aelodau o'n Hawdurdod Tân.

Defnyddiwyd y sesiynau hyn i edrych ar beth yn union oedd yn bwysig i'w ystyried wrth wella ein gwasanaethau darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

Yna fe wnaethon ni gynnal sesiynau rhanddeiliaid pellach yn cynnwys trawstoriad eang o bobl i'n helpu i ddatblygu rhestr wedi'i mireinio o opsiynau posib ar gyfer y dyfodol, pob un ohonyn nhw'n ddichonadwy a phob un yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i bawb.

Datblygwyd yr opsiynau hyn ar sail y meini prawf canlynol:

- **Darpariaeth frys** - sut mae ein peiriannau tân yn ymateb i alwadau brys.
- **Gwasanaethau amddiffyn ac atal** - sut rydyn ni'n cadw eich cartrefi a'ch busnesau'n ddiogel.
- **Fforddiadwyedd** - cadw ein gwasanaethau mor fforddiadwy â phosib, gan ddarparu'r gwerth gorau am arian.
- **Gweithlu** - effaith newidiadau ar ein timau.
- **Gwasanaeth teg a chyfartal** - staff sydd yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau iawn.
- **Gwerth cymdeithasol** - cydnabod effaith unrhyw newidiadau ar ein cymunedau.

Roedd y themâu allweddol a gododd o'r ymgysylltu hwn yn cynnwys:

- **Cyllid** – Deall y pwysau cyllidebol. A yw'r adolygiad o'r ddarpariaeth frys yn cael ei lywio gan ystyriaethau ariannol?
- **Risgiau yn y dyfodol** – Gall newid yn yr hinsawdd a thechnoleg newydd roi mwy o alw ar adnoddau.
- **Atal ac amddiffyn** – Sut mae ein hymgysylltiad efo'r cyhoedd a busnesau wedi ei heffeithio.
- **Cyfathrebu** - Allweddol i helpu dealltwriaeth o'r heriau a wynebir ac effeithiau unrhyw gynigion.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau nad yw ein hadolygiad o'r ddarpariaeth frys a'r broses ymgynghori hon yn achosi anfantais i unrhyw un yn anfwriadol a, lle bynnag y bo modd, ein bod yn rhagweithiol wrth sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Gellir gweld ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ein gwefan: **www.tangogleddcymru.llyw.cymru**

# Beth oedd gan randdeiliaid i'w ddweud

## Staff

"Efallai y bydd tywydd eithafol yn golygu y bydd angen mwy o ymateb i danau yn yr awyr agored."

"Effaith negyddol ar staff yn sgil newid systemau dyletswydd neu leoliad gorsaf – colledion o ran staff."

"Byddwch yn fwy beiddgar a chyfleu ein gwerth am arian a pheidiwch â derbyn cyfyngiadau cyllidebol."

## Uwch arweinwyr allanol lleol a chenedlaethol

"A oes ffrydiau ariannu eraill ar gael gan Lywodraeth Cymru?"

"Deall a yw'r adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn cael ei yrru gan bwysau ariannol?"

"Dileu aneffeithlonrwydd."

"Gofynnir am gynllun cyllideb tymor canolig 5 mlynedd."

"Dynodi'n ffurfiol y byddai'r ddarpariaeth ddyddiol yn cael ei lleoli yn ôl risg."

"Mae gostyngiad yn nifer y peiriannau tân yn Wrecsam wedi bod yn ddadleuol o'r blaen ac mae ganddo'r potensial i fod yn ddadleuol eto."

## Cyrff cynrychioli staff

"Mae barn gweithwyr yn bwysig."

"A all staff gael eu trosglwyddo neu eu hadleoli i Wasanaethau Tân ac Achub eraill?"

## Risgiau yn y Dyfodol

"Byddai toriadau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu gweld fel bai'r Cyngor lleol."

"Cynnydd mewn poblogaeth yn arwain at gynnydd mewn tanau ."

## Grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar-lein

"Ydych chi'n ymgynghori gyda chynllunio strategol o ran mwy o boblogaeth a thai o fewn y gymuned?"

"Pwy fydd yr ymgynghoriad yn cael ei anelu ato, sut bydd yn digwydd a sut beth fydd o?"

"Bydd bod yn agored ac yn dryloyw trwy gydol y broses ac nid y dyluniad terfynol yn allweddol yn ystod yr ymgynghoriad."

"Beth yw'r risgiau posib a'r effaith ar waith ataliol?"

"Mae angen i'r gwasanaeth fod yn edrych ar waith atal gyda landlordiaid presennol a phobl o fewn y cymunedau."

"O ran nifer y bobl Affricanaidd sy'n dod i mewn i'r ardal, yn enwedig yn Wrecsam – a oes modd ystyried gwaith atal i'r bobl hyn o fewn yr adolygiad o'r ddarpariaeth brys?"

# Sesiwn bellach gyda thrawstoriad o randdeiliaid



Beth sy'n bwysig i chi pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau am y gwasanaethau a gynigiwn?

Argaeledd/ Partneriaeth
Gwasanaethau
Darpariaeth Wledig
Cymuned
Ymateb tanau gwyllt
Gwasanaethau Atal
Adnoddau cywir
Darpariaeth
Ardaloedd – ymateb
Amseroedd ymateb
Darpariaeth addas
Lefel y ddarpariaeth
Asiantaethau partner
Dull partneriaeth
Gweithio mewn partneriaeth
Gwasanaeth
Partneriaeth efo asiantaethau eraill
Pympiau sydd ar gael
Adnoddau ac ymateb

Tudalen 34

A oes unrhyw feysydd eraill o adborth neu ystyriaethau mewn perthynas â'n gwaith cyn-ymgynghori ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr hoffech i ni eu hystyried?

Darpariaeth Cymru
Setiau o Ddiffoddwyr Tân
Tiroedd neu fathau eraill
Lleoliadau
Risg
Argaeledd peiriannau
Digwyddiadau tanau awyr agored
Anghenion
Tanau yn yr awyr agored
Sgiliau
Ardaloedd gwledig
Cyfrifon tanau
Darpariaeth
Peiriannau arbennig
Argaeledd gwledig
Adleoli staff
Staff
Personel llawn amser gwledig
Gweddu orau

# Diystyru un o'r opsiynau yn dilyn ein gwaith cyn-ymgynghori

Roedd un o'r opsiynau'n ymwneud â dim newid, aros fel rydyn ni a derbyn y risg o ran argaeledd.

Fodd bynnag, ar y sail nad yw'r opsiwn hwn yn bodloni meini prawf yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar gyfer ymateb brys teg, cynaliadwy a chyfiawn ar draws cymunedau Gogledd Cymru, nid yw'r opsiwn hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## Ynghylch pa opsiynau ydych chi'n ymgynghori: beth maen nhw'n ei olygu i'n cymunedau a'n staff?

| Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 |
|---|---|---|
| • Cynnal model ymateb 24 awr yn ein gorsafoedd amser cyflawn presennol, gyda gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd criw dydd.<br>• Ychwanegu tair gorsaf dân staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau, gan adleoli diffoddwyr tân amser cyflawn yn dilyn newidiadau yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig. | • Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd.<br>• Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad.<br>• Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, gallwn ychwanegu tair gorsaf staff dydd, wedi'u lleoli yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 22 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn. | • Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd.<br>• Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad.<br>• Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, gallwn ychwanegu dwy orsaf staff dydd, wedi'u lleoli ym Mhorthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 36 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn.<br>• Cau pum gorsaf dân ar-alwad yn Abersoch, Biwmares, Cerrigydrudion, Conwy a Llanberis, gan arwain at ostyngiad o 38 yn nifer y diffoddwyr tân ar-alwad. |

Tudalen 35

Dewiswyd tri opsiwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac mae gan y rhain oblygiadau gwahanol ar gyfer helpu i sicrhau y gallwn fod yno i chi **yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau cywir.**

**Mae'r tabl a gyflwynir ar dudalennau 36 - 37 yn cynnwys cymariaethau manylach o'r opsiynau ac mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan : www.tangogleddcymru.llyw.cymru**





# Beth fyddai'r effaith ar ein hymateb brys?

Edrychwyd ar y tebygolrwydd ar gyfartaledd y bydd lleoliad yn derbyn ymateb o fewn 20 munud yn ystod y dydd ar gyfer yr holl opsiynau gwahanol dan ystyriaeth – er mwyn gallu cymharu ein hymateb brys.

Gwyddom fod argaeledd staff ar-alwad yn heriol yn ystod y dydd, ond yn fwy cadarn gyda'r nos sy'n glod i ymroddiad ein staff.


Felly, er mwyn dangos y gwahaniaethau rhwng yr opsiynau yn effeithiol, mae'r mapiau ar y dudalen nesaf yn dangos argaeledd amser cyflawn 100% mewn porffor ac argaeledd ar-alwad mewn arlliwiau llwyd, yn dibynnu ar yr argaeledd cyfartalog (dros bum mlynedd).

## Trefniadau presennol





Tudalen 36


## Opsiwn 1




## Opsiwn 2




## Opsiwn 3






Tudalen 37

## Beth a olygwn wrth geisio darparu'r gwasanaeth tecaf posib?

Mae ystod eang o ffactorau yn dod i rym wrth ystyried sut y gallwn ddarparu'r gwasanaeth tecaf posib ar draws holl gymunedau Gogledd Cymru a'r her i ni fel Gwasanaeth yw dod o hyd i'r cydbwysedd cywir wrth gwrdd â'n holl amcanion.

Yn gyntaf, mae angen i ni allu ymateb i amrywiaeth o wahanol ddigwyddiadau gan gynnwys llifogydd, tanau yn yr awyr agored, tanau mewn tai, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, digwyddiadau diwydiannol, heriau diogelwch dŵr ac ati.

Mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn ymateb mewn modd amserol er mwyn gallu darparu'r ymateb mwyaf effeithiol posib i chi, y cyhoedd – pwy bynnag ydych chi, ble bynnag yr ydych yn byw yng Ngogledd Cymru a beth bynnag fo'ch anghenion. Gwyddom fod ein poblogaeth yn heneiddio ac o ganlyniad rydyn ni'n disgwyl y bydd angen cymorth ar fwy o bobl yn y dyfodol.

Mae angen i ni weithio o hyd i amddiffyn busnesau a chadw aelodau o'r cyhoedd mor ddiogel â phosib trwy atal digwyddiadau rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Ac yr un mor bwysig, mae gennym ni'r ymrwymiad a'r ddyletswydd gofal uchaf i'n staff, eu diogelwch a'u lles.

## Pam cael gorsafoedd tân staff dydd ychwanegol?

Mae'r tri opsiwn sy'n cael eu hystyried i gyd yn ymwneud â newid y ffordd rydyn ni'n staffio rhai o'n gorsafoedd tân yn ystod oriau'r dydd, o system dyletswydd rhan amser wedi'i chriwio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad i system dyletswydd staff dydd wedi'i chriwio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn, a fyddai'n system ddyletswydd newydd ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae staffio dydd yn golygu y byddai gorsafoedd tân yn cael eu criwio gan ddiffoddwyr tân amser llawn am 12 awr y dydd (e.e. 8yb tan 8yh), gyda chefnogaeth diffoddwyr tân ar-alwad, ac yn dychwelyd i fod yn orsafoedd tân ar-alwad llawn dros nos.

Byddai angen cytuno ar staffio dydd yn lleol gyda staff pe bai penderfyniad i wneud hyn wrth symud ymlaen. Mae gwasanaethau tân ac achub eraill yn y DU eisoes yn gweithredu'r math hwn o model staffio.

Mae'r lleoliadau a gynigir ar gyfer staffio dydd, a rhai o'r rhesymau dros hyn, fel a ganlyn:


**Porthmadog:** Mwy o welliant mewn ymateb o gymharu â gorsafoedd lleol eraill. Cefnogaeth o ran argaeledd o orsafoedd ar-alwad cyfagos. Bydd cyfleusterau'r orsaf yn cefnogi newid gydag isafswm buddsoddiad (Opsiynau 1, 2 a 3).

**Dolgellau:** Lleoliad strategol yn Ne Gwynedd gyda gwell rhwydweithiau trafnidiaeth ar gyfer mwy o effaith o ran yr ymateb. Cefnogaeth o ran argaeledd o orsafoedd ar-alwad cyfagos. Bydd cyfleusterau'r orsaf yn cefnogi newid gydag isafswm buddsoddiad (Opsiynau 1, 2 a 3).

**Corwen:** Lleoliad strategol ar gyfer De Sir Ddinbych gyda rhwydweithiau i ardaloedd eraill ar-alwad ar draws sawl awdurdod unedol lleol. Cefnogaeth o ran argaeledd o orsafoedd ar-alwad cyfagos. Bydd cyfleusterau'r orsaf yn cefnogi newid gydag isafswm buddsoddiad (Opsiynau 1 a 2).



# Pam newid o staffio amser cyflawn i staffio dydd yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy?



Mae Opswn 1 yn cynnig newid gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy i'r system dyletswydd criw dydd sefydledig, fel y disgrifiwyd yn gynharach.

O dan Opsiynau 2 a 3, rydyn ni'n cynnig newid dwy o'n gorsafoedd tân amser cyflawn – y Rhyl a Glannau Dyfrdwy – i fodel 'staffio dydd'.

Fe wnaethom ystyried nifer y digwyddiadau yn ystod y dydd ac yn ystod y nos, lefel y risg ar draws yr ardaloedd yr effeithir arnynt, a'r cymorth sydd ar gael gan orsafoedd ar-alwad cyfagos.

Fe wnaethom hefyd ystyried nifer y digwyddiadau presennol yn y gorsafoedd hyn sy'n debycach i'n gorsafoedd tân criw dydd presennol.

Byddai hyn hefyd yn helpu i greu'r capasiti o ran diffoddwyr tân sydd ei angen er mwyn rhoi staffio dydd ar waith ym mhob un o'r tri opsiwn a gwella ein hymateb mewn ardaloedd mwy gwledig.



# Pam cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam?



Byddai cael gwared ar drydydd peiriant Wrecsam fel rhan o Opsiynau 2 a 3, ynghyd â'r newid arfaethedig yng ngorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy, yn ein galluogi i ailddosbarthu staff a gwella ein hymateb mewn ardaloedd mwy gwledig.

Unwaith eto, fe wnaethom ystyried nifer y digwyddiadau yn ystod y dydd ac yn ystod y nos, lefel y risg ar draws yr ardaloedd yr effeithir arnynt, a'r cymorth sydd ar gael gan orsafoedd ar-alwad cyfagos.

Gwyddom fod yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i un peiriant tân fynd at ddigwyddiad dros bum mlynedd ar draws Gogledd Cymru yn is nag 11 munud. Ar hyn o bryd rydym yn mynd at 93.6% o'r holl ddigwyddiadau o fewn 20 munud. Mae'r pwysau sy'n cael ei roi arnom gan ddiwydiant yn isel, gyda Wrecsam yn mynd at 25 o brif danau dibreswyl y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae gwaith i leihau digwyddiadau yn HMP Berwyn hefyd wedi arwain at llai o bresenoldeb tân ac achub na pan agorodd yn gychwynol.

Ni fyddai unrhyw newid i ymateb 24/7 ein peiriant cyntaf o Wrecsam gyda'r cynigion hyn.

# Pam ystyried cau pum gorsaf dân ar-alwad?

Nid ar chwarae bach yr ystyrir Opsiwn 3 gan ei fod yn ymwneud ag ystyried cau pum gorsaf dân ar-alwad yn barhaol.

Mae hefyd yn golygu llai o ddiffoddwyr tân ac felly gostyngiad mewn cyfleoedd gwaith lleol, gan effeithio ar werth cymdeithasol yn y cymunedau hynny.

Yn gyffredinol, rhagwelir y byddai angen 74 yn llai o ddiffoddwyr tân (amser cyflawn ac ar-alwad) pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei fabwysiadu – sy'n cyfateb i 11.5% o gyfanswm ein diffoddwyr tân yn y Gwasanaeth.

Byddai felly yn lleihau ein hymateb gweithredol ac yn arwain at fwy o risg i'n cymunedau.

Fodd bynnag, mae'r opsiwn hwn yn helpu i leihau pwysau ar y gyllideb ar adeg pan fo heriau ariannol yn fwy nag erioed.

Bydd yr holl opsiynau yn arwain at ofyn i aelwydydd Gogledd Cymru dalu mwy am ein gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn cwrdd â'r heriau hyn – ond byddai Opsiwn 3 yn golygu y byddai gofyn i aelwydydd dalu llai na'r opsiynau eraill (£4.41 y flwyddyn yn llai fesul aelwyd nag Opsiwn 2, a £8.14 y flwyddyn yn llai fesul aelwyd nag Opsiwn 1).

Er y byddai Opsiwn 3 yn amlwg yn effeithio ar staff a'n cymunedau mewn rhai lleoliadau, byddem yn gweithio'n galed i gyfyngu ar hyn a byddem yn ymrwymo i weithio'n agos i gefnogi unrhyw staff a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau hyn.

## Ffactorau a ystyriwyd ar gyfer nodi gorsafoedd tân ar-alwad yr ystyriwyd eu cau gydag Opsiwn 3

- Nifer o ddigwyddiadau.
- Effaith wedi'i modelu ar amseroedd ymateb cyfartalog pe bai'r orsaf yn cael ei chau.
- Effaith wedi'i modelu ar amseroedd ymateb cyfartalog pe bai'r orsaf ar gael 100%.
- Capasiti gorsafoedd cyfagos i ddelio gyda nifer y galwadau.
- Cyfraddau defnyddio peiriannau.
- Sefydliad presennol – arbedion ariannol.
- Arbedion ariannol tymor hwy – ardrethi, cyfleustodau, offer a chostau hyfforddi.

**Cyfeiriwch at y tabl ar y dudalen nesaf sy'n crynhoi'r opsiynau.**

Tudalen 39

| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 |
|---|---|---|---|
| **Newidiadau i Orsafoedd a/neu Systemau Dyletswydd** | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Griwio Dydd ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig | Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig |
| **Gorsafoedd Amser Cyflawn wedi'u Cyflwyno** | Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau | Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau | Staffio Dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau |
| **Cau Gorsafoedd** | Dim | Dim | Abersoch, Biwmares, Llanberis, Cerrigydrudion a Chonwy |
| **Niferoedd Staff Amser Cyflawn** | Dim Newid | 22 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn<br><br>Gostyngiad o 12% | 36 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn<br><br>Gostyngiad o 19% |
| **Niferoedd Staff Ar-Alwad** | Dim Newid | Dim Newid | 38 yn llai o Ddiffoddwyr Tân<br><br>Ar-Alwad<br><br>Gostyngiad o 8% |
| **Canran y cartrefi yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn ymateb 1af o fewn 20 munud** | Wedi cynyddu i 92.7% | Wedi cynyddu i 92.2% | Wedi gostwng i 91.5% |
| **Y gwahaniaeth rhwng y model ymateb presennol** | 2,148 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud | 321 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud | 2,087 yn llai o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud |
| **Newid o ran Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn fesul blwyddyn** | Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br><br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. | Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br><br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. | Cynnal 1,160 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol.<br><br>Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig. |
| **Gwerth Cymdeithasol** | Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd | Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd | Llai o ymgysylltiad cymunedol a llai o gyfleoedd swyddi yn y 5 ardal lle byddai gorsafoedd ar-alwad yn cael eu cau. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Gwynedd |
| **Amcangyfrif o'r gost fesul cartref y flwyddyn** | £171.02 | £167.29 | £162.88 |
| **Y gwahaniaeth rhwng cost 22/23 fesul cartref y flwyddyn** | Cynnydd o £20.36 | Cynnydd o £16.63 | Cynnydd o £12.22 |

newid negyddol    newid positif

## Sut i ymateb

Mae eich barn yn bwysig i ni a hoffem glywed gennych.

Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn am ein hopsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau darpariaeth frys yng Ngogledd Cymru cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau terfynol am ddyfodol ein gwasanaethau.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn ymateb i'r cwestiynau am ein hopsiynau arfaethedig ar gyfer ein gwasanaethau darpariaeth frys yn y dyfodol.

**Mae'r cwestiynau wedi'u nodi yn ein holiadur sydd ar gael ar bapur neu ar-lein: www.tangogleddcymru.llyw.cymru**

Cyn llenwi ein holiadur, efallai yr hoffech edrych ar y wybodaeth ategol fanwl sydd hefyd ar gael ar ein gwefan.

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch ein ffonio ar 07787 578 386 a gallwn anfon copïau papur o'r wybodaeth ategol atoch.

**Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng dydd Gwener 21 Gorffennaf a hanner nos dydd Gwener 22 Medi 2023.**

Gallwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol i gael diweddariadau ar ein hymgynghoriad:

**@NorthWalesFire**
#yLleIawnyrAmserIawnySgiliauIawn

**@Northwalesfireservice**

**/north-wales-fire-and-rescue-service**



Tudalen 40



## Mae sawl ffordd wahanol y gallwch chi gymryd rhan a mynegi eich barn wrthym

**Gallwch fynd i ddigwyddiad yn bersonol neu gyfarfod rhithiol**

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, rydyn ni'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu efo'r gymuned i gasglu adborth a chlywed barn pobl. Gallwch ddod o hyd i fanylion yr holl ddigwyddiadau ar ein gwefan: www.tangogleddcymru.llyw.cymru

Os na allwch gael mynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch neu anfonwch neges destun atom i gael manylion y digwyddiadau ar 07787 578 386.

**Gallwch ein gwahodd ni i'ch grŵp**

Gallwn hefyd ymweld â grwpiau cymorth lleol i gasglu adborth. Os ydych chi'n aelod o grŵp cymunedol ac yr hoffech i ni ddod i siarad â'ch grŵp, cysylltwch â 07787 578 386 neu anfonwch e-bost atom ar: Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru

# Ymateb yn ffurfiol i'n hymgynghoriad

Gallwch rannu eich barn â ni hyd at hanner nos ar **ddydd Gwener 22 Medi 2023.**

## I roi gwybod i ni am eich barn, gallwch:

Dychwelwch holiadur papur wedi'i lenwi yn ôl atom yn rhad ac am ddim i: ***Freepost ADOLYGIAD TAN/FIRE REVIEW***.

Llenwch yr holiadur ar-lein: [www.tangogleddcymru.llyw.cymru](www.tangogleddcymru.llyw.cymru)

QR CODE

Neu, sganiwch y cod QR hwn a fydd yn mynd â chi'n syth at ein holiadur ar-lein.

Os na allwch gwblhau'r holiadur:

Anfonwch e-bost at: Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru neu lythyr at: ***Freepost ADOLYGIAD TAN/FIRE REVIEW.***

Neu ffoniwch / tecstiwch i rannu eich barn ar 07787 578 386.

Mae ein gwefan yn cynnig gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn darparu bar offer hawdd ei ddefnyddio fel y gallwch ddarllen a deall popeth yn y ffyrdd sy'n gweithio orau i chi. Mae hyn yn cynnwys darllen yn uchel, testun mwy a'r gallu i weld y wybodaeth mewn ystod eang o ieithoedd ychwanegol.

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen y gallwch ofyn amdano drwy anfon e-bost atom yn Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ein ffonio / tecstio ar 07787 578 386.

Tudalen 41

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau eto a byddwn yn parhau i fod â meddwl agored am yr ateb gorau nes bydd yr holl adborth, tystiolaeth a gwybodaeth wedi'u casglu a'u hystyried.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ddydd Gwener 22 Medi 2023, bydd yr holl adborth a gasglwyd yn cael ei ddadansoddi i gynhyrchu adroddiad yn nodi'r hyn mae pobl wedi'i ddweud am ein hopsiynau arfaethedig.

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystyried yr adborth, ynghyd ag ystod eang o wybodaeth a thystiolaeth arall, megis data digwyddiadau, data gweithlu a data ariannol. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r holl adborth, tystiolaeth a gwybodaeth i benderfynu sut i symud ymlaen.


Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth a diweddariadau am y rhaglen waith hon. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad canfyddiadau'r ymgynghoriad a phapurau allweddol a fydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar ein gwefan.

Bydd cyfarfod penderfynu terfynol yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei recordio a bydd ar gael ar ein gwefan i ganiatáu i'r rhai sydd â diddordeb glywed y drafodaeth a sut caiff y penderfyniad ei wneud.

Byddwn yn cyhoeddi manylion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar ein gwefan: [www.tangogleddcymru.llyw.cymru](www.tangogleddcymru.llyw.cymru)

Ar ôl i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud, byddai unrhyw newidiadau i'n darpariaeth frys yn digwydd fesul cam, fel rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/28.

Rydyn ni wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o bobl wrth i newidiadau gael eu gwneud. Bydd manylion am gynnydd yn cael eu rhannu ar ein gwefan hefyd.



Y LLE IAWN
YR AMSER IAWN
Y SGILIAU IAWN
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI



# YDYCH CHI'N PROFI'CH LARYMAU MWG BOB WYTHNOS?

Profi'ch larymau mwg bob wythnos ydi'r ffordd orau o wneud yn siwr y gallwch ddianc o'ch eiddo cyn gynted â phosib mewn achos o dân.

Fe all hefyd leihau'r difrod i'ch cartref a'ch eiddo trwy'ch galluogi i alw'r gwasanaeth tân ac achub ar unwaith.

**Fe allwn anfon neges atoch ar e-bost i'ch atgoffa i brofi'ch larymau bob wythnos. Anfonwch eich cyfeiriad e-bost i: cyfryngau@tangogleddcymru.llyw.cymru**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi, 2023** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol GwE 2022/23 ar gyfer Ynys Môn** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Craffu ar Adroddiad Blynyddol GwE** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cynghorydd Dafydd Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Berw Hughes** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Marc Berw Hughes**<br>**07969324329**<br>**MarcHughes@ynysmon.llyw.cym** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i holl Aelodau'r cyngor** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** Gynnig sylwadau ar yr adroddiad blynyddol a chynnig awgrymiadau ar effeithiolrwydd y cynnig i ysgolion Ynys Môn.

**A2** Ddod i farn am y trefniadau craffu mewn perthynas a'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd newydd i'r dyfodol.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor.

Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lles yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun ydy "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn " ac mae gwaith GwE yn cyfrannu at y nod hyn.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut ydym yn gwybod beth yw safonau yn ysgolion Ynys Môn?
2. I ba raddau mae gwaith GwE yn cael effaith ar safonau yn ysgolion y sir?
3. Beth yw'r prif heriau i ysgolion Ynys Môn, y Gwasanaeth Dysgu a GwE wrth symud ymlaen?
4. Yng nghyfnod ansicrwydd cyllidol, sut mae GwE yn darparu gwerth am arian?
5. Yn sgil y Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd newydd, beth yw'r dulliau gorau o graffu ar addysg?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. Mae Awdurdod Lleol Ynys Môn yn gweithio mewn perthynas clos ac effeithiol â GwE. GwE yw consortiwm addysg rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn o ran gwella ysgolion, rhannu arfer effeithiol, gwybodaeth a sgiliau, cynyddu cryfderau lleol ac adeiladu capasiti.

2. Adroddodd ESTYN, fel rhan o arolygiad 2022 o Wasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn, bod y bartneriaeth yn gynhyrchiol a:

*'Fel partneriaid, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau i'r prosesau gwella ysgolion. Dros gyfnod estynedig, mae sefyllfa sefydlog o ran staff y rhanbarth sydd yn gweithio gyda'r awdurdod a'i ysgolion. Mae hyn yn cyfrannu at eu hadnabyddiaeth drylwyr o anghenion yr ysgolion. Mae ymdeimlad bod pob un yn cyfrannu i waith 'Tîm Môn' ac mae cydweithio bwriadus er mwyn sicrhau cefnogaeth werthfawr a her briodol i ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gyda'r rhanbarth i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gwerthfawr i staff ysgolion ddatblygu eu medrau arwain. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n fuddiol mewn partneriaeth gyda GwE i gynnig gwasanaethau a hyfforddiant penodol i ymateb i anghenion ysgolion unigol a'u blaenoriaethau.'*

3. Er mwyn diweddaru aelodau'r Pwyllgor ynghylch gwaith GwE, mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 ynghlwm ac yn cynnwys 3 atodiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys atodiadau ar:
   - Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig
     - Arweinyddiaeth

- Addysgu a Dysgu
- Cwricwlwm a Darpariaeth
- Safonau a Chynnydd Dysgwyr

- Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Cynradd
  - Arweinyddiaeth
  - Addysgu a Dysgu
  - Cwricwlwm a Darpariaeth
  - Safonau a Chynnydd Dysgwyr
- Data Hyfforddiant a Chefnogaeth i Ynys Môn

4. Yn yr adroddiad blynyddol, nodir:
   - Bod yr Awdurdod Lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn, ac yn darparu her gadarn a phriodol ynghyd â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer.
   - Bod y Gwasanaeth Dysgu'n ymateb yn brydlon ac yn gadarn mewn ysgolion sy'n achosi pryder.
   - Bod ansawdd uwch arweinyddiaeth yn gyffredinol dda ar draws y sectorau ysgolion
   - Bod ansawdd yr addysgu'n gyffredinol gryf ar draws y sectorau ac mae gweithredu pwrpasol yn digwydd i wella a chysoni ble gwelir amryfuseddau.
   - Bod ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at well safonau ar draws y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd.
   - Bod prosesau olrhain cynnydd a chodi safonau dysgwyr yn broses sy'n esblygu'n gryf yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd.
   - Bod bron i bob ysgol ym Môn ar y trywydd iawn i wireddu'r camau yr amlinellwyd yn y ddogfen 'Taith i 2022' (Cwricwlwm i Gymru).

   Yn yr adroddiad, mae'r canlynol wedi eu hadnabod fel prif flaenoriaethau i'w datblygu ymhellach yng nghynlluniau gwella'r ysgolion uwchradd:
   - Gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus gan arfarnu a mireinio'n rheolaidd.
   - Parhau i ddatblygu addysgeg effeithiol a sicrhau bod adborth yn arwain at welliannau.
   - Codi safonau yn y medrau a'r Gymraeg.
   - Gwella presenoldeb.
   - Parhau i ddatblygu cydweithio ar bob lefel o arweinyddiaeth a sicrhau bod adolygu gan gymheiriaid yn rhan annatod o hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant grymus a thrylwyr.

   Hefyd, mae'r canlynol wedi eu hadnabod ymysg y blaenoriaethau mwyaf cyffredin i'w datblygu ymhellach yng nghynlluniau gwella'r ysgolion cynradd:

- Codi safonau Llythrennedd a Rhifedd ar draws yr ysgolion.
- Parhau i fireinio, gwerthuso ac addasu gwaith cynllunio'r cwricwlwm newydd.
- Parhau i ddatblygu a mireinio addysgeg effeithiol.

5. Mae Addysg yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol, gyda Chwricwlwm newydd a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ymysg newidiadau enfawr. Fel

rhan o'r diwygiad hwn, mae'r broses atebolrwydd yn esblygu, yn cynnwys adrodd a chraffu ar addysg, gan gynnwys perfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion.

6. Ym Medi 2023, cyhoeddwyd canllaw newydd gan Lywodraeth Cymru sef Canllawiau Gwella Ysgolion. Eleni, mae'r canllaw yn cael ei weithredu ar sail anstatudol a bydd yn statudol o Fedi 2024. Bydd y canllaw yn cryfhau systemau atebolrwydd, gydag ysgolion yn cael eu dal yn uniongyrchol atebol am ansawdd darpariaeth a chynnydd dysgwyr gan y corff llywodraethol ac Estyn. Yn ogystal â hyn, mae'r canllaw yn nodi'n glir fod pob partner yn rhan o'r broses, gydag atebolrwydd clir ar y gwasanaethau cefnogi megis y Gwasanaeth Dysgu a GwE. Bydd angen cydweithio agos rhwng Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE er mwyn ddarparu cymorth yn seiliedig ar flaenoriaethau gwella cynllun datblygu ysgol pob ysgol. Er bod elfen o weithio ar y cyd mewn rhai meysydd, bydd Gwasanaeth Dysgu Ynys Môn yn cefnogi ysgolion gyda materion ymddygiad, lles emosiynol a meddyliol, Anghenion Dysgu Ychwanegol, presenoldeb, adnoddau dynol, cyllid, datblygu'r Gymraeg, adeiladau, iechyd a diogelwch. Tra bydd GwE, ar ran y Gwasanaeth Dysgu, yn darparu cefnogaeth ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, cynllunio cwricwlwm a datblygu'r Gymraeg.

7. Fel rhan o'r gyfundrefn newydd, bydd angen i ysgolion gyhoeddi crynodeb o'u cynllun datblygu ysgol ar eu gwefannau yn nodi eu blaenoriaethau gwella lefel uchel, y camau arfaethedig i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a'r cerrig milltir perthnasol. Bydd y crynodeb yn nodi'r cymorth sydd ar gael i'r ysgol gan yr Awdurdod Lleol, GwE a phartneriaid allanol eraill er mwyn gwireddu'r blaenoriaethau. Bydd disgwyliad i ysgol gyhoeddi adroddiad ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol, yn cynnwys effeithiolrwydd y gefnogaeth. Eleni bydd angen i ysgolion ystyried y 'blaenoriaethau cenedlaethol' newydd wrth bennu eu blaenoriaethau gwella eu hunain h.y.:

   - gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
   - lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr

8. Oherwydd hyn, mae craffu ar waith Gwasanaeth Dysgu'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys gwaith GwE, yn esblygu. Mae hon yn siwrne ar y cyd rhwng y Panel Sgriwtini Addysg, y Gwasanaeth Dysgu a GwE.

9. Wrth i'r canllaw gwella newydd ddod i rym, bydd pwyllgorau mewn lle cryf i:

- Graffu ar waith y Cyngor i gefnogi ysgolion.
- Craffu ar ba mor effeithiol ydy'r cydweithio rhwng Awdurdod Lleol Ynys Môn a'r consortia.
- Monitro a chraffu'r defnydd o bwerau statudol i gefnogi a gwella ysgolion sy'n achosi pryder.
- Ystyried effaith penderfyniadau i foderneiddio ysgolion ar wella ysgolion.

10. Yn sgil hyn oll, gofynnir i chi, fel y Pwyllgor Sgriwtini, drafod fformat newydd yr adroddiad ynghyd ag effeithiolrwydd gwaith y Gwasanaeth Dysgu, gan gynnwys

| |
|---|
| GwE, yn wyneb y newid mewn diwylliant, ac wrth ymateb i'r canllawiau gwella ysgolion newydd. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| **Ddim yn berthnasol** |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| **Ddim yn berthnasol** |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| **Ddim yn berthnasol** |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Yng nghyfnod ansicrwydd cyllidol, gofynnir i chi ystyried a yw GwE yn darparu gwerth am arian. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol GwE Ynys Môn 2022/23<br>Atodiad 1: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig<br>Atodiad 2: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd<br>Atodiad 3: Data Hyfforddiant GwE ar gyfer Ynys Môn 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Llywodraeth Cymru - Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE
# YNYS MÔN 2022-23

**Mae Adroddiad Blynyddol GwE eleni yn benodol i bob Awdurdod Lleol a'i ysgolion.**

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Awdurdod Lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn, ac yn darparu her gadarn a phriodol ynghyd â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar gyfer gwella ysgolion sy'n ddealladwy i bob un o'r rhanddeiliaid ac sy'n rhoi siâp a chyfeiriad pendant i'r Gwasanaeth Dysgu. Mae'r berthynas rhwng Cyngor Môn a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) yn effeithiol. Mae prosesau cadarn ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol ar gyfer gosod cyfeiriad a dal y gwasanaeth rhanbarthol yn atebol. Mae rôl benodol y gwasanaeth rhanbarthol yn y broses o wella ysgolion yn eglur ac yn glir i'r holl ran-ddeiliaid a chânt eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan weithdrefnau craffu lleol.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn ymateb yn brydlon ac yn gadarn mewn ysgolion sy'n achosi consyrn. Drwy gydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol mae prosesau a chamau gweithredu pwrpasol mewn lle i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder - er mwyn datblygu ansawdd arweinyddiaeth ac addysgeg gan arwain at safonau gwell yn gyffredinol.

Mae pandemig COVID-19 wedi dangos bod newid cadarnhaol yn bosibl hyd yn oed yn yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yn ystod COVID-19, cyflwynodd ysgolion ar draws y Gwasanaeth Dysgu brofiadau addysgu a dysgu ystyrlon trwy ddull dysgu cyfunol creadigol. Yn ddi-os, arweiniodd y pandemig at ffocws cynyddol ar lesiant a buddsoddiad sylweddol mewn addysgu a dysgu.

Mae ansawdd uwch arweinyddiaeth yn gyffredinol dda ar draws y sectorau ysgolion. Mae'r Awdurdod a GwE yn cynnig arlwy cyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chefnogaeth bwrpasol wedi ei thargedu i ysgolion yn ôl yr angen. Yn ychwanegol, mae trefniadau cadarn ar waith ym Môn ble mae arweinwyr yr ysgolion yn cydweithio i gefnogi ei gilydd mewn clystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd ac yn cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd cynyddol am daith wella ei gilydd. Ble gwelir yr arferion gorau, mae cydweithio effeithiol ar lefel clwstwr yn gryfder yn Ynys Môn – mewn dalgylchoedd penodol yn y cynradd ac o fewn y gynghrair uwchradd.

Mae ansawdd yr addysgu'n gyffredinol gryf ar draws y sectorau ac mae gweithredu pwrpasol yn digwydd i wella a chysoni ble gwelir amryfuseddau. Mae'r Awdurdod Lleol, mewn partneriaeth gyda GwE, wedi gweithredu'n gadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd y dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod Covid-19 a chyn hynny.

Mae'r ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at safonau gwell ar draws y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd. Mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach mewn un ysgol uwchradd. Mae pob ysgol uwchradd yn gwneud defnydd mwy deallus o ddata a gwybodaeth addysgu, dysgu ac asesu i arfarnu safonau ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach ond cydnabyddir bod angen cryfhau'r prosesau hyn ymhellach i sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd disgyblion mewn rhai ysgolion. Mae ysgolion uwchradd hefyd yn cyflwyno rhaglenni olrhain ac ymyrryd i fynd i'r afael â thanberfformiad a nodwyd ac amrywiant o fewn ysgolion. Mewn rhai ysgolion, mae angen cryfhau a mireinio'r dulliau hyn ymhellach.

Mae prosesau olrhain cynnydd a chodi safonau dysgwyr yn broses sydd yn esblygu'n gryf yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd. Mae arferion y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yr ynys o ddal y cynnydd a'r effaith wedi eu rhaeadru ar draws y rhanbarth. Mae taenlenni tracio cynnydd wedi esblygu i

DRAFT

gynnwys cynnydd holistaidd dysgwyr. Mae llawer o'r ysgolion ar hyn o bryd yn gweithio ar fireinio prosesau asesu parhaus yn yr ysgolion er mwyn cynnwys mwy o gyfraniad y dysgwyr. Lle nad yw'r prosesau hyn mor effeithiol, cynigir cefnogaeth i'r ysgolion rheini fireinio eu prosesau olrhain cynnydd a dal yr effaith.

Mae bron pob ysgol ym Môn ar y trywydd iawn i wireddu'r camau a amlinellwyd yn y ddogfen 'Taith i 2022' (Cwricwlwm i Gymru). Mae cymorth penodol ar waith ar gyfer yr ychydig iawn o ysgolion nad ydynt ar y trywydd iawn. Mae bron pob ysgol uwchradd ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 o fis Medi 2023.

Mae'r canlynol wedi eu hadnabod fel prif flaenoriaethau i'w datblygu ymhellach yng nghynlluniau gwella'r ysgolion uwchradd:

- Gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus gan arfarnu a mireinio yn rheolaidd.
- Parhau i ddatblygu addysgeg effeithiol a sicrhau bod adborth yn arwain at welliannau.
- Codi safonau yn y medrau a'r Gymraeg.
- Gwella presenoldeb.
- Parhau i ddatblygu cydweithio ar bob lefel o arweinyddiaeth a sicrhau bod adolygu gan gymheiriaid yn rhan annatod o hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant grymus a thrylwyr.

Mae'r canlynol wedi eu hadnabod ymysg y blaenoriaethau mwyaf cyffredin i'w datblygu ymhellach yng nghynlluniau gwella'r ysgolion cynradd:

- Codi safonau Llythrennedd a Rhifedd  ar draws yr ysgolion.
- Parhau i fireinio, gwerthuso ac addasu gwaith cynllunio'r cwricwlwm newydd.
- Parhau i ddatblygu a mireinio addysgeg effeithiol.

DRAFT

**RHAGARWEINIAD A CHYD-DESTUN**

Mae'r Awdurdod Lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda iawn, ac yn darparu her gadarn a phriodol ynghyd â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol ar eu cyfer. Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar gyfer gwella ysgolion sy'n ddealladwy i bob un o'r rhanddeiliaid ac sy'n rhoi siâp a chyfeiriad pendant i'r Gwasanaeth Dysgu. Mae'r berthynas rhwng Cyngor Môn a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) yn effeithiol. Mae prosesau cadarn ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol ar gyfer gosod cyfeiriad a dal y gwasanaeth rhanbarthol yn atebol. Mae rôl benodol y gwasanaeth rhanbarthol yn y broses o wella ysgolion yn eglur ac yn glir i'r holl ran-ddeiliaid a chânt eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan weithdrefnau craffu lleol.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn arfarnu ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio data a gwybodaeth ansoddol yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau fod y gwasanaeth rhanbarthol yn cwrdd â blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE gyda'i gilydd wedi cydweithio i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig Covid-19. Mae dulliau cyfathrebu gan ddarparu negeseuon clir a chyson i ysgolion wedi bod yn gryfder ar Ynys Môn. Nid yn unig y croesawyd y negeseuon cyson hyn gan arweinwyr ysgolion a staff, ond hefyd gan undebau athrawon, gyda pob un yn gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau.

Mae staff yr awdurdodau lleol a GwE wedi addasu eu gwaith yn briodol dros y dair mlynedd ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi ailgyfeirio ynni ac adnoddau sawl gwaith yn ystod y cyfnod yma er mwyn cwrdd gydag anghenion ysgolion a rhanddeiliaid yr ynys. Mae hyblygrwydd a chydweithio effeithiol mewn gwahanol dimau (yn aml ar draws sectorau) wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr. Wrth ddilyn prosesau pwrpasol o wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn, roedd llais y rhanddeiliaid yn hollbwysig - yn sicrhau y gallai'r gwasanaeth gyfeirio y lefel priodol o gymorth i'r mannau lle'r oedd ei angen fwyaf.

Mae paratoi tuag at Cwricwlwm i Gymru yn rhaglen ddiwygio sylweddol gydag addysgu a dysgu effeithiol a gwireddu'r Pedwar Diben yn ganolog i'w lwyddiant. Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi sicrhau bod yr holl gymorth cwricwlwm yn cyd-fynd â'r disgwyliadau a'r egwyddorion o fewn Taith Llywodraeth Cymru i 2022. Yn unol â gweithredu'r Cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022, mae pob ysgol gynradd wedi cael cymorth gan GwE i gwrdd â'r gofynion statudol newydd o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Mae cefnogaeth i leoliadau uwchradd ac ysgolion arbennig i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023 yn parhau ar draws yr awdurdod. Mae'n hollbwysig bod y gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm, yn enwedig ymgysylltu uniongyrchol rhwng ysgolion uwchradd a chynradd, yn parhau er mwyn cefnogi pontio dysgwyr. Er mwyn hwyluso'r ddeialog broffesiynol hon, mae GwE a'r Gwasanaeth Dysgu yn parhau i ddarparu rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol a lleol. O dan arweiniad ac adborth rheolaidd gan yr Athro Graham Donaldson, mae ysgolion yn datblygu ac yn rhannu arfer effeithiol i ddadbacio potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) a chynllunio ac asesu cwricwlwm ysgol gyfan.

Mae cynnwys yr adroddiad yn nodi cynnydd yn erbyn pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella:

- Maes Allweddol 1 – Gwella Arweinyddiaeth
- Maes Allweddol 2 – Gwella Dysgu ac Addysgu
- Maes Allweddol 3 – Cwricwlwm a Darpariaeth

- Maes Allweddol 4 – Cynnydd Dysgwyr a Safonau
- Maes Allweddol 5 – Cefnogaeth a Her i Ysgolion sy'n achosi Consyrn

**ARWEINYDDIAETH**

Mae ansawdd uwch arweinyddiaeth yn gyffredinol dda ar draws y sectorau ysgolion. Oherwydd bod ffocws a chefnogaeth bwrpasol i arweinyddiaeth:

- mae bron pob ysgol yn cymryd camau i gryfhau arweinyddiaeth yn eu hysgol ymhellach gyda ffocws penodol ar fireinio a gwella prosesau arfarnu a chynllunio gwelliant ar bob lefel.
- mae bron pob ysgol yn blaenoriaethu arweiniad a chymorth i ddatblygu gallu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i arwain ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.
- mae cynnydd yn nifer yr arweinwyr sy'n manteisio ar hyfforddiant o ansawdd uchel a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.
- mae gan nifer cynyddol o ysgolion uwch arweinwyr sydd wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant ac sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau adolygu cymheiriaid

Mae'r Awdurdod a GwE yn cynnig arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â chefnogaeth bwrpasol wedi ei thargedu i ysgolion yn ôl yr angen. Yn ychwanegol, mae trefniadau cadarn ar waith ym Môn ble mae arweinwyr yr ysgolion yn cydweithio i gefnogi ei gilydd mewn clystyrau cynradd a chynghrair uwchradd ac yn cymryd perchnogaeth ac atebolrwydd cynyddol am daith wella ei gilydd.

Mae bron pob ysgol wedi llwyddo i barhau i arfarnu ansawdd eu darpariaeth drwy gydol cyfnod Covid-19 gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth ddefnyddiol, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ag ysgolion eraill a thrafodaeth gyda'r Ymgynghorydd Cyswllt GwE. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yr Ynys wedi casglu safbwyntiau rhanddeiliaid yn effeithiol trwy holiaduron i ddisgyblion a rhieni, galwadau ffôn neu sgyrsiau ag unigolion. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, bu i rhan fwyaf yr ysgolion addasu a gwella eu darpariaeth yn sylweddol wrth ddarganfod ffyrdd newydd o addysgu drwy'r pandemig. Ers haf 2022 mae pob ysgol wedi bod yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithgareddau gwerthuso'n cael eu cryfhau yn dilyn cyfnod y pandemig gan weithio tuag at ddisgwyliadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd.

Mae nifer sylweddol o ymarferwyr Ynys Môn wedi dilyn y Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol gan ddatblygu cynhwysedd arweinyddiaeth ar draws yr Ynys ar bob lefel. Mae hyn yn cynnwys arweinwyr canol, uwch arweinwyr, penaethiaid newydd a phenaethiaid profiadol. Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng y Gwasanaeth Dysgu a GwE i gefnogi datblygiad arweinwyr ar draws y 'Llwybr Arweinyddiaeth'. Mae gwybodaeth am eu cynnydd yn cael ei chyfathrebu'n rheolaidd trwy gyfarfodydd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Mae'r cydweithio a'r cyfathrebu yma yn sicrhau y gall y Gwasanaeth Dysgu adnabod anghenion datblygu a thargedu cymorth pellach os oes angen.

Mae'r holl raglenni wedi eu haddasu i weithio mewn dull rithiol ac wedi parhau dros y cyfnod clo. Mae athrawon Ynys Môn wedi dangos ymrwymiad clodwiw iawn i ddatblygu eu hymarfer a'u sgiliau arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod yma. Er yr holl heriau ychwanegol, yn ystod 2021-22 bu 21 o ymarferwyr yn cymryd rhan yn ein Rhaglenni Arweinyddiaeth. Eleni mae 35 unigolyn yn dilyn ein Rhaglenni Arweinyddiaeth o Ynys Môn sydd yn gynnydd pellach yn y niferoedd

Dros y bedair mlynedd diwethaf, mae 19 o ymarferwyr o Ynys Môn wedi llwyddo i gyrraedd y safon er mwyn derbyn cymhwyster CPCP. Mae hyn yn ganran llwyddiant o 86% sydd yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol am y cyfnod. O ystyried mai 45 ysgol sydd ar yr Ynys (39 Cynradd, 5 Uwchradd ac 1 Arbennig), mae'r nifer o ddarpar benaethiaid sydd yn meddu'r cymhwyster yn gymhariaeth gadarn iawn ac yn awgrymu dyfodol iach o ran arweinwyr ysgolion.

Mae cydweithio effeithiol yn digwydd rhwng GwE a'r Gwasanaeth Dysgu i gefnogi penaethiaid newydd a phenaethiaid mewn gofal. Mae'r rhaglen yn cynnwys arlwy gyfoethog o hyfforddiant cyson dwy gydol y flwyddyn addysgol er mwyn arfogi'r penaethiaid yn bwrpasol i allu cwblhau eu gwaith fel penaethiaid ym Môn yn llwyddiannus, gan gynnwys sesiynau arweiniad ar feysydd megis rheoli cyllid, diogelu, diogelwch safle ymysg elfennau rheolaethol eraill. Mae pob pennaeth newydd yn cael mynediad at fentor lleol ac Hyfforddwr Arweinyddiaeth - penaethiaid profiadol a llwyddiannus i gynnig cefnogaeth gadarn gyda materion arweinyddiaeth a rheolaeth o ran eu gwaith fel pennaeth yn Ynys Môn a thu hwnt. Golyga hyn bod cefnogaeth amserol a phrydlon ar gael i benaethiaid newydd Ynys Môn a bod ganddynt sawl ffynhonnell cefnogaeth i droi ato yn unol â'u hangen yn ogystal a chyfleodd da i ddatblygu eu gwybodaeth a dyfnhau eu sgiliau yn y rôl. Ers i'r Rhaglen gychwyn yn 2018, mae 14 Pennaeth o Fôn wedi ei ddilyn, gan gynnwys 3 pennaeth sydd â mynediad ato eleni.

Mae 11 arweinydd o 4 ysgol uwchradd, 3 ysgol gynradd a 2 swyddog o'r Awdurdod, yn ogystal â holl staff GwE sy'n cefnogi ysgolion Ynys Môn, wedi dilyn y rhaglen genedlaethol ar gyfer cymell a mentora. Derbyniwyd adborth bositif yn datgan bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion mewn ysgolion a hefyd ar waith y gwasanaeth rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion a chlystyrau.

Mae rhaglen gynhwysol o hyfforddiant yn ei le er mwyn cefnogi datblygiad llywodraethwyr. Mae'r rhaglen wedi ei lunio yn rhannol drwy ymgynghoriad â llywodraethwyr er mwyn ymateb i'w hanghenion datblygiadol penodol. Mae adborth gan lywodraethwyr ar y rhaglen wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae gan y gwasanaeth rhanbarthol ddarpariaeth amrywiol o hyfforddiant sy'n gyfoethogi hyfforddiant yr Gwasanaeth Dysgu.

Mae arlwy gyfoethog ar gael i gefnogi datblygiad proffesiynol cynorthwywyr addysgu drwy'r rhaglenni cenedlaethol, sef y Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu. Mae'r LIDGA yn cynnwys hyfforddiant 'Ymsefydlu', 'Cynorthwywyr wrth eu gwaith' a'r rhaglen 'Darpar CALU' sydd yn arwain at asesiad ar gyfer statws CALU. Yn yr un modd a'r rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer athrawon, mae'r rhaglenni hyn yn annog unigolion i ddatblygu'n ymarferwyr myfyriol sy'n gwerthuso eu hymarfer yn erbyn y 'Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu'.

Mae holl raglenni'r LIDGA wedi eu haddasu ar gyfer eu darparu'n rhithiol ac mae cynorthwywyr addysgu Ynys Môn wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r newid. Trosglwyddwyd y rhaglen Ymsefydlu i restr chwarae, ac yn ystod 2020-21, a 2021-2022 bu i 22 o gynorthwywyr Ynys Môn gwblhau'r rhaglen hon. Mae hyn yn 13.8% o'r cynorthwywyr addysgu a gwblhaodd y rhaglen ar draws y rhanbarth yn ystod y cyfnod, sy'n ganran cadarn o ystyried nifer ysgolion yr ynys, ac yn gynnydd o 22.7% ar y ddwy flynedd flaenorol. Addaswyd y rhaglen 'Cynorthwywyr wrth eu gwaith' yn ystod 2021-22 er mwyn ei chyflwyno yn rhithiol.

Crëwyd rhaglen genedlaethol Darpar CALU newydd yn 2020, ac erbyn hyn mae'r rhaglen wedi rhedeg dros bedwar cylch, gyda 12 cynorthwyydd addysgu yr Awdurdod wedi cyfranogi i'r rhaglen. Yn dilyn cwblhau y rhaglen Darpar CALU newydd, ac ateb gofynion cymwysterau llythrennedd a rhifedd, gall cynorthwywyr addysgu wneud cais am asesiad ar gyfer Statws CALU. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae 12 o gynorthwywyr Ynys Môn wedi derbyn statws CALU (6 o dan yr hen drefn a 6 o dan y drefn Darpar CALU newydd). Mae'r niferoedd hyn yn ganmoladwy.

Ar y cyfan, mae cydweithio clwstwr effeithiol yn y cynradd a chydweithio cynghrair effeithiol yn yr uwchradd yn gryfder ar yr Ynys. Mae'r holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sy'n gweithio fel Ymgynghorwyr Cyswllt gyda'r ysgolion cynradd yn brofiadol ac wedi bod yn cefnogi clystyrau penodol am gyfnod estynedig. Mae hyn yn golygu bod gan y Gwasanaeth Ranbarthol a'r Gwasanaeth Dysgu wybodaeth drylwyr o gryfderau ac anghenion ysgolion a chlystyrau/grwpiau o ysgolion penodol. Mae enghreifftiau niferus ar draws y dalgylchoedd cynradd sy'n dangos bod systemau a phrosesau cydweithio yn aeddfedu ymhlith ysgolion ac o ganlyniad bod cynnydd yn y rhannu arbenigedd ac arfer gorau. Mae hefyd wedi arwain at lai o lwyth gwaith mewn ymateb i'r Daith Diwygio. Ble mae'r arferion mwyaf llwyddiannus, mae cydweithio yn golygu bod arweinwyr o bob haen yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a rhannu arfer dda, gan gydweithio mewn modd

strwythuredig gan ddatblygu amrywiaeth eang o feysydd yn llwyddiannus – megis Cwricwlwm i Gymru, addysgeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, digidol a pontio cynradd-uwchradd. Mae'r cydweithio hwn wedi arwain at wella profiadau a chanlyniadau dysgwyr.

Mae 4 o’r 5 dalgylch cynradd wedi ymrwymo i'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. O dan y trefniant yma, mae pob ysgol wedi ymrwymo i gylch o hunan-adolygu ac adolygu cymheiriaid gan gynnig cefnogaeth ar y cyd i wella meysydd blaenoriaeth. Trefnwyd rhaglen gyfoethog o hyfforddiant i uwch-sgilio arweinwyr ac i sefydlu rôl 'hwyluswyr gwelliant' ym mhob ysgol. Mae pob ysgol wedi gweld yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol, gan nodi ei fod wedi arwain at well dealltwriaeth a mwy o hyder wrth gefnogi a herio arferion ei gilydd. Mae’r gwaith yn mynd rhagddo yn y clystyrau a’r cylchoedd gweithredu yn cael eu cwblhau. Gwahoddir clystyrau i roi cyflwyniad ar y gweithredu i glystyrau eraill a rhannu darganfyddiadau. Mae hyfforddiant pellach hefyd yn yr arfaeth ar gyfer arfogi mwy o hwyluswyr gwelliant yn ogystal â chyflwyniad i feddylfryd y rhaglen i holl staff yr ysgolion.

Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys un grŵp yn gweld gwerth mawr yn y rhaglen i ddatblygu arweinwyr a hyrwyddo cydweithio ymysg dirprwyon. Mae un clwstwr wedi cwblhau un cylch ac wedi creu gwefan i ddal yr holl effaith. Mae’r cynnydd y mae’r rhaglen wedi ei hyrwyddo yn cynnwys cynnydd mewn hyder hwyluswyr gwelliant wrth ymgymryd â sesiynau cymell, cynnydd yn yr ymdriniaeth yn y clwstwr â gwaith ymchwil ayyb.

Mae Ysgolion Uwchradd Môn wedi cydweithio’n effeithiol gyda’i gilydd ers sawl blwyddyn drwy gyfrwng y grŵp CAMU. Ffurfiolwyd cydweithio drwy gyfrwng Rhaglen Bartneriaeth Ysgolion [EDT] yn 2019 ond bu raid oedi ar y gwaith hwnnw oherwydd Covid. Parhaodd y cydweithio clos drwy gyfnod heriol iawn y pandemig ond gyda’r ffocws ar faterion gweithredol ac ymateb i heriau’r cyfnod hwnnw.

Wrth symud o gyfnod y pandemig, ac mewn cyfarfod rhwng y 5 Pennaeth yn fuan yn nhymor y gwanwyn 2022, rhannwyd eu blaenoriaethau lefel uchel a chytunwyd i roi sylw i faes ffocws Cynhwysiad ac Agweddau at Ddysgu a oedd yn faes cyffredin gan bob un o’r ysgolion i dderbyn sylw pellach. Cynhaliwyd ymweliadau undydd i bob ysgol gan aelodau o dimau arweinyddiaeth ysgolion uwchradd yr ynys ac Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE. Derbyniodd pob ysgol adborth ac adroddiad ar y canfyddiadau ac argymhellion i’w hystyried fyddai’n debygol o rymuso’u darpariaeth ymhellach. Yn y flwyddyn addysgol 2022-23 bu i bob Pennaeth benderfynu ar faes penodol ac unigryw i’w hysgolion ar gyfer y cydweithio. Dilynwyd yr un drefn o gynnal ymweliad undydd, sicrhau adborth, llunio adroddiad, gyda’r disgwyl i’r ysgolion ymateb yn y modd mwyaf perthnasol ac effeithiol fel dilyniant.
Mae Cynllun Gweithredu wedi ei lunio ar gyfer 2023-24 ar y cyd rhwng y 5 Pennaeth, GwE a’r Awdurdod ac yn seiliedig ar egwyddorion cytunedig.

## GWELLA ADDYSGU A DYSGU

### Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, ymgysylltu ac effaith

Oherwydd y ffocws cynyddol ar gefnogaeth ac arweiniad ar gyfer gwella'r addysgu a'r dysgu trwy ymgysylltu â rhaglen ymchwil Asesu ar Gyfer Dysgu Shirley Clarke [AaGD], trwy rwydweithiau ar gyfer arweinwyr addysgu a dysgu, rhwydweithiau ar gyfer pynciau craidd a gwaith y ' tîm o amgylch yr ysgol’ ar gyfer Ysgolion sy’n Peri Pryder:

- mae bron pob ysgol yn dangos gwelliannau mewn agweddau penodol ar addysgeg. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw pellach i gyflymder a graddfa gwelliannau mewn rhai ysgolion.
- mae bron pob ysgol yn cymryd camau priodol i gryfhau addysgeg a chodi safonau ymhellach.

- mae cymorth pwnc penodol o ansawdd uchel wedi'i dargedu ar gyfer addysgeg yn gwella safonau addysgu a dysgu ar draws llawer o bynciau ac yn benodol mewn Saesneg a Mathemateg ac yn gwella dyfnder ac ehangder dealltwriaeth.
- mae gan bron bob ysgol ymyriadau llythrennedd a rhifedd priodol ar waith a gallant ddangos y cynnydd a wnaed gan grwpiau o ddisgyblion. Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol gryf ar draws y rhan fwyaf o ysgolion ym mhob sector a chymerir camau pwrpasol i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder ac i leihau amrywiaethau o fewn ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Dysgu mewn partneriaeth â GwE, wedi bod yn cymryd camau cadarnhaol i gefnogi arweinwyr ac athrawon i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod Covid-19. Mewn 3  o ysgolion Cynradd yr ynys  sy'n peri pryder, mae argymhelliad addysgeg yn dilyn arolygiad Estyn diweddar wedi arwain at gamau gwella penodol a miniog. Mae cefnogaeth ychwanegol i'r ysgolion rheini yn cynnwys hyfforddiant i holl staff ar adolygu prif egwyddorion Asesu Ar Gyfer Dysgu; cyfleoedd i arsylwi arferion llwyddiannus yn ogystal â chefnogaeth benodol wrth graffu, cynnal teithiau dysgu ac arsylwi gwersi. Mae cyflymder a graddfa'r gwelliannau yn y mwyafrif o'r ysgolion hyn yn gryf.

Ers cychwyn y cyfnod clo, mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi bod yn rhagweithiol yn eu cefnogaeth i ysgolion. Mae ystod eang o ddeunyddiau a modelau o safon ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol wedi eu darparu trwy lwyfannau digidol megis 'Google Classroom' a Chanolfan Gefnogaeth GwE [Canolfan Cefnogaeth GwE - Canolfan Cefnogaeth GwE (gwegogledd.cymru)]. Mae'r gwaith wedi tynnu ar ganfyddiadau ymchwil i arferion rhyngwladol effeithiol.

Mae bron pob un o'r penaethiaid wedi gwerthfawrogi mewnbwn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a swyddogion y Gwasanaeth Dysgu wrth iddynt ddarparu arweiniad a chymorth i ysgolion a chlystyrau ddatblygu eu darpariaeth ymhellach. Nododd bron pob un o'r penaethiaid fod rôl yr YCG wrth hwyluso cyfarfodydd clwstwr wedi bod yn allweddol i rannu syniadau ac arfer dda ar gyfer datblygu eu darpariaeth dysgu o bell a chyfunol. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE hefyd wedi darparu ystod o ganllawiau ac adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, ac wedi gweithio gyda Mike Gershon er mwyn i rieni dderbyn mynediad at ddeunyddiau o safon er mwyn cyfrannu at addysg eu plant. Mae deunyddiau 'Helping your Child to Learn' (HYCTL) a 'Helping your Teen to Learn' (HYTTL), a'r adnodd 'Adolygu gyda Mike' wedi cael derbyniad da. Mae ystod y strategaethau adolygu hefyd wedi effeithio ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau diwedd blwyddyn.

Dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwneud defnydd effeithiol iawn o ganllawiau ac arweiniad gan y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Rhanbarthol ar gyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae'r canllawiau yma yn cynnwys arweiniad ar gynllunio arferion adalw gwybodaeth ac adalw dysgu'n llwyddiannus wrth i ddisgyblion ddychwelyd addysg wyneb yn wyneb. Bu ffocws a gweithredu pwrpasol hefyd ar draws ysgolion yr Ynys ar adnabod gwaelodlin wrth i'r dysgwyr ddychwelyd i addysg ffurfiol gan sicrhau gweithredu cynlluniau pwrpasol mewn ymateb i unrhyw fylchau mewn dysgu.

Dros y cyfnod, mae GwE wedi cefnogi ysgolion i arfarnu ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell, ac wedi rhannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpariaethau effeithiol i leihau amrywiadau. Mae trafodaethau rheolaidd gydag arweinwyr ac athrawon dros y cyfnod, gweithgarwch craffu ar waith dysgwyr (ar y safle ac yn rhithiol) a theithiau dysgu, oll wedi arwain at ddarparu profiadau gwerthfawr a ffocws ar gyfer yr ystod gallu, o dan amgylchiadau anodd a heriol iawn. Mae tystiolaeth glir hefyd bod nifer gynyddol o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio technoleg yn fwy hyderus er mwyn cefnogi'r dysgu. Dyma un o'r 'mannau twf' allweddol sy'n deillio o gyfnod Covid-19.

Mae ysgolion wedi derbyn canllawiau manwl i gefnogi eu paratoadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r ffocws ar addysgeg a'r 12 egwyddor yn ganolog i'r gwaith hwn. Ers mis Medi 2021, mae'r gwasanaeth a chynrychiolwyr ysgolion wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda'r Athro Graham Donaldson mewn ymgais i ddyfnhau dealltwriaeth o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys hyrwyddo cydweithio llwyddiannus sy'n golygu bod athrawon wedi gallu cyd-gynllunio enghreifftiau a modelau i'w rhannu ar draws ysgolion.

O ran Ynys Môn mae 106 o ymarferwyr yn rhan o'r Rhwydweithiau Rhanbarthol a lleol. Mae'r Rhwydweithiau'n rhannu ffrwyth eu llafur gyda'r holl ysgolion trwy Ganolfan Gefnogaeth GwE. O dan arweiniad aelodau'r rhwydweithiau, cynhaliwyd gweminarau effeithiol i bob arweinydd ysgol ar ddylunio'r cwricwlwm, asesu a dilyniant a chynllunio egwyddorion. Mae ysgolion wedi nodi bod y cyflwyniadau wedi rhoi hwb i'w hyder i ddatblygu eu cynllun cwricwlwm lefel uchel ac i ymgorffori'r pedwar diben yn eu cynllunio. Mae pob ysgol wedi cael mynediad i'r gweithdai hyn naill ai trwy recordiad byw neu drwy drafodaethau dilynol gyda'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi rhoi ffocws cryf ar ddatblygu addysgeg fel rhan o'r cymorth i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol GwE [dan arweiniad Shirley Clarke] wedi bod yn un o bileri'r rhaglen dysgu proffesiynol ers Tachwedd 2017. Mae gwerthusiad i effaith y gwaith yma wedi adnabod bod:

- effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau, safonau cyrhaeddiad, lles disgyblion, agweddau at ddysgu a datblygiad fel dysgwyr annibynnol.
- gan athrawon ddealltwriaeth ddyfnach o addysgeg effeithiol ar sail ymchwil eang a chyfredol, ar lefel leol a rhyngwladol. Maent hefyd wedi dod i arwain ar addysgu yn eu hysgolion a thu hwnt.
- athrawon wedi ymgymryd ag ymchwil gweithredu yn eu hysgolion, gan gymryd rhan mewn cydweithrediad proffesiynol a dod yn arloeswyr hyderus. O ganlyniad, mae ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn datblygu'n dda fel sefydliadau sy'n dysgu.
- ffocws cliriach ar addysgeg effeithiol mewn cydweithrediadau clwstwr.
- mewnbwn amlwg i wella parodrwydd ysgolion a'u paratoadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd e.e. ffocws cynyddol ar y pedwar diben, 12 egwyddor addysgegol, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, safonau proffesiynol ar gyfer arweinwyr ac athrawon, dibenion asesu ac egwyddorion cynllunio.
- ysgolion wedi gwneud defnydd da ac effeithiol o egwyddorion a strategaethau asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- rhieni wedi dod i ddeall mwy am asesu ffurfiannol yn eu hymdrechion i gefnogi eu plant gartref e.e. pwerau dysgu, deilliannau dysgu, meini prawf llwyddiant ac adborth llafar pwrpasol.

Yn yr uwchradd bu ffocws cyson hefyd ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd cymorth gwahaniaethol ar draws yr ystod gallu. Drwy'r grŵp Camu ac ar y cyd gydag arweinydd MATh GwE mae canllawiau a chymorth penodol wedi eu rhannu i ddatblygu gwell dealltwriaeth a hyder ymhlith cydlynwyr i arwain ar hyn ar draws ysgolion ac i ddatblygu eu prosesau a'u systemau ar gyfer nodi, olrhain a chefnogi'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr. Roedd mewnbwn hefyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau cenedlaethol yn hyn o beth. Fel grŵp, maent wedi cydweithio i sicrhau cyd-ddealltwriaeth a sut i sicrhau lefel briodol o her a sut i hyrwyddo strategaethau galw i gof ac adolygu.

Mae ystod o rwydweithiau a fforymau yn weithredol i gefnogi arweinwyr yn y sector uwchradd, ar bob lefel, i allu arwain ar addysgeg gyda mwy o hyder ac effeithiolrwydd. Mae hyn yn cynnwys rhwydwaith addysgu a dysgu CAMU ar gyfer uwch arweinwyr a rhwydweithiau ar gyfer penaethiaid pynciau craidd. Mae tystiolaeth fod cydweithio o fewn y rhwydweithiau wedi bod yn gryfder penodol ac mae cefnogaeth ar y cyd wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb o ran dulliau addysgu a dysgu yn yr ysgolion uwchradd.

Mae rhwydweithiau pwnc wedi canolbwyntio ar:

- gefnogi arweinwyr canol i arwain ar addysgu a dysgu.
- hwyluso a chefnogi cydweithio gyda chymheiriaid ac ar gryfhau prosesau a gweithdrefnau cynllunio gwerthuso a gwella.
- hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gynllunio ac addysgeg yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.
- wella ymyriadau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â chefnogi agweddau penodol ar baratoadau ac asesiadau CA4 a CA5.

Mae gwaith y rhwydweithiau'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan arweinwyr canol sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau o safon sydd wedi'u datblygu ar y cyd a'u cadw ar Ganolfan Cymorth GwE [Gwyddoniaeth], MathsCymru [Mathemateg], Y Pair [Cymraeg] a Herio (Saesneg).

Mae'r rhwydweithiau Cymraeg, Saesneg a Llythrennedd wedi bod yn gymysgedd o gyflwyno negeseuon allweddol, hyfforddiant a thrafodaethau sy'n cwmpasu datblygiad addysgeg, cynlluniau a dulliau gweithredu ar gyfer TGAU, datblygu llythrennedd, ymarfer adalw a strategaethau llefaredd. Yn dilyn cyfarfodydd rhwydwaith Penaethiaid Mathemateg mae ysgolion unigol wedi cael cefnogaeth bellach i weithredu gwahanol ddulliau sydd wedi cael eu trafod. Mae cyfarfodydd Penaethiaid Gwyddoniaeth yn gyfle i drafodaethau a gweithgareddau ar gynllunio, cyflawni a gwerthuso eu gweithgareddau CiG newydd, cynlluniau gwaith TGAU, enghreifftiau o asesiadau a dulliau addysgol sy'n gweithio'n dda yn eu hysgolion.

Mae effaith y rhwydweithiau pwnc yn glir ar sawl lefel ac ar draws ystod o agweddau:

- Uwch-sgilio arweinwyr canol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fethodoleg ac ansawdd cynllunio e.e. strategaethau ad-alw, strategaethau i wella gwaith llafar ac ysgrifennu, defnyddio offer technegol i ddatblygu sgiliau pwnc ac ati.
- Mae arweinwyr canol wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r 12 egwyddor addysgegol a'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Mae arferion da wedi cael eu lledaenu ac yn cael eu mabwysiadu'n ehangach. Mae nifer sylweddol o arweinwyr wedi nodi eu gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd i rannu syniadau a datblygiadau a chefnogi ei gilydd yn broffesiynol.
- Defnydd cynyddol o adnoddau'r llyfrgell ddigidol ar Ganolfan Cymorth GwE ac o'r gwefannau pwnc i wella profiadau dysgwyr, i baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau ac i baratoi rhaglenni ymyrraeth bwrpasol.
- Mae arweinwyr ac athrawon yn fwy hyderus yn eu sgiliau digidol.
- Mae arweinwyr yn fwy hyderus gyda rhagfynegiadau, asesu a graddio.
- Bu targedu'n effeithiol i hybu sgiliau llafaredd yn y Gymraeg.

Yn ogystal â'r rhwydweithiau a'r fforymau, mae cymorth penodol ar gael i bob ysgol uwchradd unigol ac mae'r targedu hwn wedi arwain at welliannau clir mewn sawl achos. Mae cynnwys y Cynlluniau Cefnogaeth i ysgolion unigol yn seiliedig ar anghenion penodol yr ysgol sy'n deillio o'u hunan werthuso ac sy'n flaenoriaeth yn y Cynllun Gwella Ysgol. Mae'r gefnogaeth i wella agweddau ar addysgu a dysgu yn sail i'r cynlluniau hyn. Maent yn cael eu cynhyrchu ar y cyd gyda'r uwch dimau arwain a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt. Mae'r berthynas a'r cydweithio rhwng ysgolion a GwE yn gryf iawn ac mae effaith gadarnhaol y gefnogaeth yn amlwg mewn sawl agwedd o waith ysgol.

Mae'r nifer fechan o ysgolion cynradd sy'n achosi consyrn hefyd wedi cael mynediad at gynllun cymorth pwrpasol ac mae hyn wedi arwain at welliant amlwg yn yr ysgolion hynny. Er enghraifft mae un ysgol sydd wedi derbyn pecyn cymorth pwrpasol wedi gwneud cynnydd cryf, yn enwedig ym maes Addysgeg ac Arweinyddiaeth. Ers mis Medi 2022, mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio gydag arweinwyr cynradd i ddatblygu Cynllun Cefnogaeth penodol ar gyfer pob ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Fframwaith Gwella Ysgolion newydd. Ceir enghreifftiau niferus o gymorth pwrpasol ac effeithiol i ysgolion ar wella agweddau penodol ar addysgu, dysgu, medrau'r disgyblion ac arweinyddiaeth. Er enghraifft, mae pob YCG yn cefnogi

DRAFT

eu hysgolion i fonitro addysgu a dysgu trwy ystod o weithgareddau gan gynnwys craffu ar waith, teithiau dysgu a gwrando ar ddysgwyr a staff. Mae hyn yn galluogi arweinwyr ysgolion cynradd i fireinio eu prosesau monitro a hunan-arfarnu er mwyn adnabod, ffocysu a datblygu meysydd i'w gwella a chynllunio gwelliant yn bwrpasol. Mae'r YCG yn darparu arweiniad uniongyrchol, yn cyfeirio ymarferwyr at ddysgu proffesiynol perthnasol neu'n rhoi cymorth i ysgolion gaffael cymorth o amrywiol ffynonellau. Mae hyn yn galluogi pob ysgol gynradd i dderbyn cymorth sydd wedi'i dargedu bwrpasol.

Mae tystiolaeth gadarn bod y pecyn cymorth ar gyfer disgyblion 3-8 oed yn cael dylanwad bositif ar ddysgu ac addysgu ar lefel ysgol unigol, clwstwr neu awdurdod. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn ogystal â lleihau amrywiadau o fewn ysgolion. Mae'r gefnogaeth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen, yn unol â chanllawiau 'Galluogi Dysgu' ac 'Addysgeg' Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cynnig proffesiynol i UDA, athrawon a chynorthwywyr plant 3-8 oed ar ffurf rhwydweithiau tymhorol, rhaglen hyfforddi ranbarthol a hyfforddiant clwstwr pwrpasol. Mae'r ffocws yn bennaf ar ddatblygu agweddau ar addysgeg, addysgu a llesiant o fewn profiadau dysgu ymarferol a chyfannol, gan hyfforddi ymarferwyr i ddatblygu fel hwyluswyr dysgu effeithiol. Mae gan bob ymarferwr fynediad at y cynnig proffesiynol ac adnoddau i gefnogi dysgu trwy Ganolfan Gefnogaeth GwE. Mae llawer o ysgolion yn yr Awdurdod yn defnyddio'r gweminarau mewn cyfarfodydd staff a HMS i uwch-sgilio'r gweithlu. Mae tystiolaeth gan ysgolion yn nodi bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth (profiadau addysgu a dysgu) ac ar ddeilliannau disgyblion.

Ers 2019, mae'r cynnig proffesiynol yma wedi cynnwys cefnogaeth i ymarferwyr Blwyddyn 3 hefyd er mwyn adeiladu ar rai o Egwyddorion Dysgu Sylfaen yn CA2 wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Parhaodd y cynnig proffesiynol drwy gydol y cyfnod cloi gyda'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio i dargedu'r agweddau hynny a nodwyd gan ysgolion fel rhai sydd angen eu blaenoriaethu yn dilyn Covid-19, e.e. sgiliau cyfathrebu ac iechyd a lles disgyblion. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn addysgeg ddatblygiadol briodol. Mae tystiolaeth o effaith y rhaglen gymorth hon yn cynnwys:

- dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut mae'r egwyddorion addysgegol (gan gynnwys 12 egwyddor CiG) yn cysylltu â'i gilydd i greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- ymarferwyr yn defnyddio ystod o ddulliau addysgegol priodol sy'n bodloni anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).
- ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- ymarferwyr yn ystyried yr amgylchedd dysgu corfforol yn ogystal a'r hinsawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial o ran eu darpariaeth.
- ymarferwyr yn dyfnhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd myfyrio ar eu harferion dyddiol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o anghenion, medrau a chynnydd disgyblion; galluogi ymarferwyr i ddod o hyd i'r dulliau dysgu a ffefrir gan blant a phobl ifanc a'r ffordd orau o ennyn eu diddordeb mewn dysgu; adnabod y disgyblion hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i'w helpu i gyrraedd eu llawn botensial.
- ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn eu galluogi i gynllunio darpariaeth briodol sy'n cefnogi ymrwymiad a mwynhad dysgwyr o fewn eu gweithgareddau dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.
- ymarferwyr yn deall yr angen i asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i gwreiddio mewn arferion o ddydd i ddydd, heb dynnu sylw penodol o fewn yr addysgu a dysgu.

At ei gilydd, mae arsylwadau gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a chanfyddiadau arolygiadau Estyn lle bo'n berthnasol, yn nodi bod y rhaglen gymorth yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gydag ymarferwyr yn gwneud defnydd gwell o arsylwadau a strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu i gynllunio'r camau dysgu nesaf i ganiatau ar gyfer cynnydd. Datblygodd cydweithio ac ymgysylltu cryf a phwrpasol rhwng y Gwasanaeth Dysgu, GwE ac ysgolion yr Ynys yn ystod cyfnod y pandemig gan arwain at well ddarpariaeth llawr dosbarth yn

gyffredinol a datblygiad pellach o ddulliau cefnogi dysgwyr bregus. O ganlyniad, mae bron pob ysgol yn datblygu eu darpariaeth i ddarparu tegwch addysgol i bob dysgwr, ac mae ganddynt amgylchedd dysgu gynhwysol er mwy cefnogi plant a phobl ifanc bregus fel eu bod yn cael pob cyfle posib i gyflawni i'w potensial.

Mae bron pob ysgol gynradd yn cytuno bod cefnogaeth y Rhaglen Dysgu Carlam wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau sylfaenol a lles ar ôl i blant ddychwelyd i addysg ffurfiol yn dilyn y cyfnodau clo. Roedd bron pob ysgol wedi sicrhau eu bod yn cynnal gweithdrefn asesu mewnol, boed yn ansoddol neu'n feintiol, er mwyn nodi effaith y cyfnod yma ar les a dysgu plant. Roedd athrawon o'r farn bod y cyfnod clo yn effeithio ar hyder a lles mwyafrif y disgyblion, gydag ymddygiad rhai disgyblion wedi gwaethygu. Cafodd y gwaith targedu dysgu carlam ei arwain a'i weithredu yn llwyddiannus gan arweinwyr ysgolion yn dilyn canfod gwaelodlin safonau a sgiliau sylfaenol disgyblion.

Mae bron pob ysgol wedi gwneud defnydd pwrpasol o'r grantiau amrywiol ac mae'r rhan fwyaf wedi cyflogi neu ymestyn oriau athrawon neu gynorthwywyr er mwyn targedu grwpiau ac unigolion mewn llythrennedd, rhifedd a lles. Darparodd GwE arweiniad a chanllawiau, gyda nifer dda o ysgolion yn manteisio ar hyfforddiant penodol megis sesiynau lles Ysgolion Gwybodus o Drawma, SAFMEDS, Headsprout ac Elklan.

At ei gilydd, mae ysgolion yr Ynys wedi ymateb yn dda i'r her a gallent dystio i welliannau a chynnydd clir ym medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion a dargedwyd trwy'r rhaglenni carlam hyn.

Mae ysgolion yn parhau i gyflwyno strategaethau ymyrraeth effeithiol ar gyfer disgyblion, e.e. trwy sesiynau addysgu manwl bob dydd, SAFMEDS, sesiynau RILL ac iFOR i ddatblygu sgiliau darllen/sillafu Cymraeg a Saesneg, sesiynau Tric a Chlic i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen, gweithgareddau penodol Ysgolion Gwybodus Trawma, cynnal grwpiau Anogaeth, Talkabout, neu Mind Mechanics . Mae pob ysgol yn cydnabod bod y gwaith targedu yma wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a hyder disgyblion ac mae nifer dda yn nodi eu bod wedi gweld llawer o ddisgyblion agored i niwed yn gallu ymdopi'n dda â heriau ystafell ddosbarth prif ffrwd a heriau cymdeithasol amrywiol.

Yn ogystal â'r arlwy dysgu proffesiynol, mae ysgolion unigol wedi derbyn mewnbwn a chefnogaeth benodol i ymateb i'w anghenion datblygol. Mae effaith yr ymyriadau yma i'w gweld yn ansawdd a safonau medrau mewn sawl ysgol, yn lefelau hyder athrawon ac yn y cynnydd a welir mewn cydweithio rhwng ysgolion. Mae'r arweiniad a'r cymorth a ddarperir i ysgolion yn cynnwys: canllawiau cynllunio ar gyfer cydlynwyr Llythrennedd a Rhifedd a Chynorthwywyr Addysgu; cefnogaeth i ANG ar gyflwyno gwersi effeithiol, cefnogaeth benodol ar gyfer datblygu llafaredd er mwyn gwella sgiliau mathemategol a gwyddonol; arweiniad i wella lefel yr her mewn cynllunio; dyfnhau sgiliau mathemategol a gwella sgiliau darllen lefel uwch. Cyfoethogir y rhaglen ymhellach gan gyfarfodydd tymhorol y rhwydweithiau perthnasol. Dros y cyfnod clo, bu cydweithio agos gydag ysgolion i lunio deunyddiau a phecynnau dysgu o bell i gefnogi ysgolion i ddatblygu sgiliau sylfaenol dysgwyr. Mae effaith y gwaith wedi'i ei gydnabod mewn sawl adroddiad monitro ac arfarnu, yn ogystal ac yr adborth a dderbyniwyd gan arweinwyr ysgol.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor ac arbenigwyr ymchwil, datblygwyd adnoddau, rhaglenni a phecynnau i gefnogi hyfedredd darllen yn y ddwy iaith. Mae cydweithio hefyd wedi digwydd ar ddeunyddiau SAFMEDS i gefnogi sgiliau rhifedd a RILL/iFOR i gefnogi rhuglder/llythrennedd darllen. Mewn sawl ysgol, mae'r rhaglenni hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau rhifedd a darllen dysgwyr ac ar hyder athrawon a staff i gyflwyno.

Cyflwynwyd sesiynau briffio byw i benaethiaid ac arweinwyr ar sut i wneud defnydd effeithiol o'r asesiadau cenedlaethol mewn darllen a rhifedd er mwyn gwella dealltwriaeth a hyder y gweithlu wrth fesur cynnydd dysgwyr unigol dros y cyfnod.

Yn yr uwchradd, roedd ffocws penodol ar gefnogi rhaglenni dysgu carlam a darparu adnoddau ymyrraeth yn CA3 ac arweiniad ar strategaethau i wella ymgysylltiad rhieni. Yn ogystal, datblygwyd pecyn cymorth ar gyfer Llythrennedd sy'n cefnogi cynllunio a sgaffaldio cyfleoedd ar

gyfer darllen ac ysgrifennu a chynorthwyo gyda dysgu a datblygu geirfa ynghyd â deunyddiau adolygu ac adalw. Mae'r rhain wedi'u rhannu gydag ysgolion trwy wefan Tanio a Chanolfan Gymorth GwE. Mae hyn wedi arwain at raglenni ymyrraeth o ansawdd gwell ac mae ysgolion yn adrodd am well rhugldeb a hyder mewn dysgwyr a gwell dealltwriaeth ymhlith staff o sut i fynd ati i ddefnyddio sgaffaldiau a chynllunio.

O ran Cymhwysedd Digidol, mae'r cynnig dysgu proffesiynol wedi bod ar waith ym mhob ysgol ym Môn. Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Hwb i ddatblygu addysgu a dysgu ac i ddatblygu cymhwysedd digidol dysgwyr. Yng ngoleuni hyfforddiant, bu cynnydd cyfartalog o dros 500% yn nifer y dysgwyr sy'n mewngofnodi i Hwb bob mis. Bu cynnydd misol cyfartalog o bron i 300% yn y nifer o weithiau y mae pob dysgwr yn ymgysylltu â Hwb, o gymharu â 2017. Erbyn hyn, mae pob ysgol ar yr Ynys yn ymgysylltu â Hwb gyda bron pob ysgol yn gwneud defnydd rheolaidd ac effeithiol.

Mae Rhaglen Hwyluswyr Digidol wedi'i chyflwyno ble mae pob clwstwr wedi enwebu unigolyn i fod yn Bencampwr Digidol - i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Dysgu a GwE er mwyn datblygu arweinyddiaeth strategol o'r parth digidol o fewn y clwstwr. Mae pob clwstwr ym Môn wedi ffurfio grŵp dysgu digidol, ac mae 84% o ysgolion yn ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Mae pob clwstwr wedi ffurfio gweledigaeth a rennir ar gyfer dysgu digidol. Hyd yn hyn, mae 110 o ymarferwyr ar draws yr Ynys wedi cael hyfforddiant trwy'r rhaglen hon. Mae pob un o'r clystyrau wedi ffurfio gweithgor i oruchwylio datblygiadau digidol ac i ymgorffori cymhwysedd digidol yn llawn fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

## CWRICWLWM A DARPARIAETH

### Crynodeb o'r prif gamau gweithredu, ymgysylltu ac effaith

Oherwydd cydweithio ac ymgysylltu effeithiol rhwng yr ALl, GwE ac ysgolion:

- mae pob ysgol yn rhoi cynlluniau ar waith i ymateb i hanfodion pedwar diben y cwricwlwm newydd.
- mae pob ysgol yn gweithio i ddatblygu cynnig cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion eu dysgwyr gan gynnwys y rhai mwy abl.
- mae pob clwstwr yn gweithredu cynlluniau trosglwyddo.
- mae pob ysgol yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithrediad cymheiriaid o fewn ac ar draws sectorau.
- mae pob ysgol uwchradd ar y trywydd iawn i fodloni'r gofynion statudol erbyn iddynt gyflwyno eu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi cefnogi arweinwyr yn effeithiol er mwyn paratoi ar gyfer Y Daith Diwygio a Chwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn diwallu anghenion amrywiol ysgolion yn ystod y pandemig. Cynhaliwyd sesiynau i arweinwyr yn y meysydd canlynol: arwain newid, gweledigaeth a dylunio cwricwlwm, a rhannwyd 'bapurau procio' (think-pieces) a ddatblygwyd ar y cyd â'r Athro Graham Donaldson. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi hyn ar ffurf clystyrau o ysgolion cynradd a'u hysgolion uwchradd er mwyn cynnal trafodaeth ystyrlon ar draws y continwwm 3-16. Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, cynhaliwyd sesiynau Dysgu Proffesiynol dros gyfnod o 3 wythnos ar gyfer uwch arweinwyr, gan ganolbwyntio ar ddatblygu gweledigaeth, cynllunio a datblygu'r cwricwlwm. Cyflwynwyd y sesiynau hyn yn rhithiol mewn clystyrau ac roeddent yn darparu cyfleoedd cyfoethog a rheolaidd ar gyfer trafodaethau grŵp gyda chyfoedion. Cynhaliwyd sesiynau dalgylchol dilynol llwyddiannus gan Ymgynghorwyr Cyswllt er mwyn ysgogi cydweithio pellach a chyd-greu gweledigaeth dalgylchol.

Yn Ynys Môn, mae 106 o ymarferwyr yn rhan o'r Rhwydweithiau Rhanbarthol a Lleol CiG. Mae'r Rhwydweithiau'n rhannu ffrwyth eu llafur gyda'r holl ysgolion trwy Ganolfan Gefnogaeth GwE. O dan arweiniad y rhwydweithiau, cynhaliwyd gweminarau effeithiol i bob arweinydd ysgol ar ddylunio'r cwricwlwm, asesu a dilyniant a chynllunio egwyddorion. Mae ysgolion wedi nodi bod y cyflwyniadau wedi rhoi hwb i'w hyder i ddatblygu eu Cynllun Cwricwlwm Lefel Uchel i gynnwys eu gweledigaeth, eu hegwyddorion ac i ymgorffori'r pedwar diben. Mae pob ysgol wedi cael mynediad i'r gweithdai hyn naill ai trwy recordiad byw neu drwy drafodaethau dilynol gyda'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt. Yn dilyn y dysgu proffesiynol yma, mae pob ysgol gynradd wedi datblygu ac ymgorffori neu addasu eu datganiadau gweledigaeth, sydd wedi helpu i sicrhau cysondeb o fewn eu hysgolion wrth ymdrin â'r cwricwlwm.

Mae lefel uchel o ymgysylltu wedi sicrhau bod ysgolion cynradd yn fwy hyderus wrth gychwyn rhoi'r Cwricwlwm newydd ar waith. Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn cryfhau'n ac mae themâu trawslinol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn dod i'r amlwg trwy eu hymagwedd – Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl Gyda'n Gilydd. Mae'r cyflwyniadau Dysgu Proffesiynol i uwch arweinwyr wedi'u rhaeadru i athrawon a chynorthwywyr trwy gyfarfodydd staff a/neu HMS penodol, sy'n golygu bod gan yr holl staff bellach ddealltwriaeth well o'r fframwaith. Mae ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid ehangach er mwyn cydweithio i ddatblygu gweledigaeth a rennir wedi datblygu'n arfer llwyddiannus ar draws yr Ynys. Gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau a gyflwynir yn y sesiynau i arweinwyr er mwyn parhau â thrafodaethau a dyfnhau dealltwriaeth yn ôl yn yr ysgol.

Mynychodd cynrychiolwyr o bob Dalgylch (a swyddogion y Gwasanaeth Dysgu) gynhadledd dysgu proffesiynol diweddar gan GwE ar bontio, lle bu pob clwstwr yn cynllunio eu camau nesaf ar y cyd er mwyn gwella dilyniant disgyblion ar draws y continwwm dysgu. Roedd y dysgu proffesiynol hwn yn adeiladu ar gynhadledd ddeuddydd ranbarthol a oedd yn cynnwys diweddariadau gan Estyn, Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr addysgol er mwyn pennu ein dull cyffredin o wella ysgolion. O ganlyniad, mae pob dalgylch yn/yn bwriadu cydweithio ar gynllun gweithredu er mwyn cynllunio cyflwyno'r cwricwlwm ac ymagwedd gyson tuag at ddilyniant.

Mae YCG yn parhau i gefnogi pob clwstwr i ddatblygu eu dulliau pontio drwy gydol y flwyddyn hon. Bydd y gefnogaeth yma yn arwain at gysondeb pellach mewn ansawdd cynllunio'r cwricwlwm o fewn ac ar draws ysgolion.

DRAFT

## CYNNYDD A SAFONAU DYSGWYR

### Ysgolion uwchradd

Mae'r ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at safonau gwell ar draws bron pob ysgol uwchradd. Mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd. Effaith hyd yma:

- mae pob ysgol uwchradd yn gwneud defnydd mwy deallus o ddata a gwybodaeth addysgu, dysgu ac asesu i arfarnu safonau ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach. Mewn rhai ysgolion, mae angen cryfhau'r prosesau hyn ymhellach i sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd disgyblion.
- mae pob ysgol uwchradd yn cyflwyno rhaglenni olrhain ac ymyrryd i fynd i'r afael â thanberfformiad a nodwyd ac amrywiant o fewn ysgolion. Mewn rhai ysgolion, mae angen cryfhau a mireinio'r dulliau hyn ymhellach.
- mae bron pob ysgol uwchradd yn datblygu cynnig pwrpasol ar gyfer disgyblion CA4 fel bod dilyniant clir i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwasanaeth rhanbarthol a'r awdurdod lleol wedi cydweithio yn llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd i'w cefnogi i ddod i farn ar gynnydd a safonau dysgwyr. Mae ymarferion ar y cyd, yn cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith a holi dysgwyr wedi caniatáu i'r rhan fwyaf o'r ysgolion gydnabod eu cryfderau ac adnabod meysydd datblygol. Yn y mwyafrif o wersi a arsylwyd gwelwyd bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol, yn gwrando, ac yn ymateb yn gadarnhaol. Amrywiol yw medrau darllen y disgyblion ac mae angen sicrhau bod gwell cyfleoedd iddynt ymarfer eu huwch sgiliau darllen. Yn yr un modd, mae medrau llafar y disgyblion yn amrywio. Mae rhai disgyblion yn hyderus iawn ar lafar yn y ddwy iaith ond mae angen datblygu hyder rhai sydd yn llai hyderus i gyfrannu yn effeithiol. Anghyson hefyd yw ansawdd y gwaith ysgrifennu estynedig a welwyd yn yr ymarferion craffu. Gall nifer o ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn addas ac mae eu medrau digidol yn datblygu.

Yn gyffredinol, mae agweddau at ddysgu yn faes i'w ddatblygu ynghyd a chryfhau'r cynllunio ar gyfer cynnydd yn y medrau.

### Ysgolion cynradd

Mae'r ffocws cynyddol ar gefnogi ysgolion i wella ansawdd a chysondeb arweinyddiaeth ac addysgeg wedi arwain at safonau gwell ar draws bron pob ysgol gynradd. Mae angen cyflymu'r gwelliant ymhellach mewn lleiafrif o ysgolion cynradd.

Ar hyn o bryd mae 2 Cynllun Gwella ôl Arolwg i dair ysgol gynradd ar yr ynys. Mae un ysgol mewn Mesurau Arbennig ac un ysgol mewn Adolygiad Estyn. Mae cefnogaeth gan GwE a swyddogion yr Awdurdod Lleol yn graidd i'r cynlluniau hyn. Caiff cynnydd yn erbyn y deilliannau eu mesur yn barhaus gan yr ysgolion a'r YCG. Mae cyfarfod pob hanner tymor yn yr ysgolion rheini sydd mewn Adolygiad Estyn gyda'r staff, cynrychiolaeth o gyrff Llywodraethu'r ysgolion, YCG cyswllt a chraidd GwE yn ogystal â swyddog addysg yr Awdurdod Lleol. Adroddir ar gynnydd yr ysgolion hyn yn rheolaidd yn y Cyfarfodydd 360 a'r BAS.

Mae cynnydd cadarn yn erbyn yr argymhellion mewn un ysgol sydd mewn Adolygiad Estyn ac effaith y gweithredu a'r gefnogaeth yn cychwyn cael effaith glir ar safonau.

Yn yr ysgol sydd mewn Mesurau Arbennig mae prosesau grymus ar waith i gefnogi'r ysgol trwy gynllun 360 manwl, sy'n cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad. Ail-ymwelodd Estyn â'r ysgol ar y 4ydd o Fai er mwyn trafod a derbyn y CGOA. Yn ystod tymor yr Haf sefydlwyd Bwrdd Gwella Brys sydd yn cyfarfod pob hanner tymor ac yn cynnwys cynrychiolaeth o'r ALI, GwE, yr ysgol, cynrychiolaeth o'r Corff Llywodraethu yn ogystal â'r Deilydd Portffolio Addysg a llywodraethwyr allanol.

## CEFNOGAETH A HER I YSGOLION SY'N ACHOSI CONSYRN

### Crynodeb o gamau gweithredu ac effaith

Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn ymateb yn brydlon ac yn gadarn mewn ysgolion sy'n achosi consyrn. Ceir enghreifftiau penodol lle mae dwysáu'r her a'r cymorth ochr yn ochr â chamau cadarn a phrydlon wedi arwain yn uniongyrchol at newidiadau mewn uwch bersonel arweinyddiaeth. Mae tystiolaeth gref bod camau gweithredu'r Awdurdod Lleol i gefnogi ysgolion sy'n achosi consyrn yn effeithiol.

Fel rhan o'r dull rhanbarthol, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi cryfhau ei weithdrefnau cefnogi a herio ymhellach. Mewn ymateb i'r peilot cenedlaethol i gefnogi ysgolion sy'n achosi consyrn trwy'r model aml-asiantaeth, adolygwyd gweithdrefnau a strwythurau ar gyfer cefnogi, monitro a herio

ysgolion. Y nod oedd sicrhau bod pob ysgol yn gallu cael mynediad at gymorth o ansawdd da mewn modd amserol er mwyn symud ar hyd y llwybr 'dymunol' ar y cyflymder gofynnol. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol yn cynnwys swyddogion o bob awdurdod, ynghyd ag ymgynghorwyr GwE, i yrru'r gwaith yn ei flaen.

Mae strategaeth ysgolion sy'n achosi consyrn clir ar waith ac mae gan bob ysgol sydd wedi eu hadnabod gynllun cymorth cyfannol sy'n mynegi'n glir natur a dwyster y cymorth a ddarperir a'r gwelliannau sydd eu hangen.

Ar gyfer ysgolion y mae eu perfformiad yn gyson gryf neu'n gryf ar y cyfan, eir i'r afael â gwelliannau trwy gydweithio â chymheiriaid, Rhaglen Dysgu Proffesiynol generig y Gwasanaeth Dysgu a GwE a'r cynllun cefnogaeth pwrpasol ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, pan fydd gweithdrefnau Gwasanaeth Dysgu/GwE yn amlygu pryder, caiff cymorth dwysach ei dargedu drwy'r dull amlasiantaeth lleol.

O fewn y strwythur diwygiedig, mae grŵp aml-asiantaeth o uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol a staff GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a thystiolaeth fel bod pryderon yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mabwysiadwyd trothwyon a sbardunau er mwyn sicrhau cysondeb wrth adnabod pryderon mewn perthynas â safonau, addysgu a dysgu, asesu, arweinyddiaeth, cynhwysiad neu faterion rheolaethol. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth gytûn a chysondeb o ran ymagwedd, trefnwyd hyfforddiant ar gyfer yr holl swyddogion a chynghorwyr. Unwaith y nodir bod ysgol yn peri pryder, mae'r swyddog arweiniol, yr Arweinydd Craidd a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt yn gweithio gyda thîm arweinyddiaeth yr ysgol i ddatblygu cynllun cymorth pwrpasol. Mae'r grŵp aml-asiantaeth yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y cynllun yma yn cael ei ddatblygu, ei ddarparu a'i fonitro. Pan fydd pryderon yn codi ynghylch diffyg neu gyflymder cynnydd, caiff y rhain eu cyfeirio at y Prif Swyddog Addysg fel bod penderfyniad priodol yn cael ei wneud ynghylch a ddylid gweithredu pwerau statudol ai peidio. Mae llif rheolaidd a chyson o wybodaeth yn cael ei rannu rhwng swyddogion y Gwasanaeth Dysgu ac ymgynghorwyr GwE.

Ar hyn o bryd mae Cynllun Gwella ôl Arolwg i ddwy ysgol gynradd ar yr ynys. Mae un ysgol mewn Mesurau Arbennig ac un ysgol yn Adolygiad Estyn. Mae cefnogaeth gan GwE a swyddogion yr Awdurdod Lleol yn graidd i'r cynlluniau hyn. Caiff cynnydd yn erbyn y deilliannau eu mesur yn barhaus gan yr ysgolion a'r YCG. Mae cyfarfod pob hanner tymor yn yr ysgolion rheini sydd mewn Adolygiad Estyn gyda'r staff, cynrychiolaeth o gyrff Llywodraethu'r ysgolion, YCG cyswllt a chraidd GwE yn ogystal â swyddog addysg yr Awdurdod Lleol. Adroddir ar gynnydd yr ysgolion hyn yn rheolaidd yn y Cyfarfodydd 360 a'r BAS.

Mae cynnydd cadarn yn erbyn yr argymhellion mewn un ysgol ac effaith y gweithredu a'r gefnogaeth yn glir ar safonau.

Yn yr ysgol sydd mewn Mesurau Arbennig mae prosesau grymus ar waith i gefnogi'r ysgol trwy gynllun 360 manwl, sy'n cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad. Ail-ymwelodd Estyn â'r ysgol 4. Mai er mwyn trafod a derbyn y CGOA. Yn ystod tymor yr Haf sefydlwyd Bwrdd Gwella Brys sydd yn cyfarfod pob hanner tymor ac yn cynnwys cynyrchiolaeth o'r ALI, GwE, yr ysgol, cynyrchiolaeth o'r Corff Llywodraethu yn ogystal â'r Deilydd Portffolio Addysg a llywodraethwyr allanol.

## ATODIAD 1

**Arweinyddiaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**
Mae sefyllfa uwch arweinyddiaeth yn sefydlog a chryf mewn tair ysgol uwchradd ar yr ynys. Mae aelodau'r uwch dim arwain yn yr ysgolion hyn yn rhoi cefnogaeth gadarn i'w Penaethiaid ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o feysydd cyfrifoldeb. Yn y ddwy ysgol arall, mae newidiadau diweddar i staffio'r uwch arweinwyr a bydd angen sicrhau cefnogaeth ar yr aelodau newydd hyn wrth iddynt ddatblygu yn eu rolau. Yn gyffredinol, mae gan yr uwch arweinwyr adnabyddiaeth gadarn o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu hysgolion.

Ar yr haen ganol, mae sawl enghraifft yn yr ysgolion o arweinyddiaeth effeithiol sydd yn sicrhau profiadau cadarn i'r dysgwyr a safonau uchel ar lawr dosbarth a thu hwnt. Serch hyn, mae amrywiaeth yn parhau yn ansawdd ac effaith arweinwyr canol yn yr ysgolion.

Mae trefn glir ar gyfer prosesau hunan arfarnu yn yr ysgolion, ac mae cyfnodau wedi eu pennu ar gyfer arsylwi a chraffu traws ysgol. Mae trefniadau ar waith sydd yn cynnwys aelodau o Gynghrair Ynys Môn ac YCG GwE fel rhan o'r prosesau arfarnu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymateb yn briodol i ganfyddiadau o brosesau arfarnu.

Mae cynhaliaeth ddwys wedi ei roi i un ysgol uwchradd ar yr ynys i geisio gwella ansawdd ac effeithiolrwydd uwch arweinyddiaeth. Maent yn parhau ar y daith wella ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth ddwys. Yn yr ysgol hon, er bod meysydd datblygu yn cael eu hadnabod yn gywir, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwelliant na'r diwylliant ar gyfer sicrhau gwelliannau ar y cyd yn ddigon grymus.

Ceir cydweithio buddiol gyda Llywodraethwyr yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, ac lle mae hyn ar ei orau, mae aelodau o'r Corff Llywodraethwyr yn rhan weithredol o brosesau arfarnu yr ysgolion, ac yn cydweithio'n agos gyda'r arweinwyr i osod cyfeiriad strategol.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i ymateb i ganfyddiadau o brosesau arfarnu a sicrhau bod monitro dilynol yn digwydd er mwyn mesur effaith gweithredu.
- Parhau i gysoni ansawdd gweithredu arweinwyr ar bob lefel.
- Sicrhau gwell dealltwriaeth a chywirdeb o safonau a chynnydd mewn pynciau ac yn arbennig felly'r medrau.

**Gwella Dysgu ac Addysgu: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**
Mae llawer o waith a buddsoddiad wedi ei wneud o ran datblygu addysgeg yn yr ysgolion uwchradd. Mae arweiniad ac hyfforddiant defnyddiol ac o ansawdd uchel wedi ei ddarparu i athrawon yn fewnol gan yr uwch arweinwyr. Mae'r strategaethau gaiff eu dilyn i wella ansawdd addysgeg yn yr ysgolion yn amrywio e.e. Building Learning Power, egwyddorion asesu ffurfiannol Shirley Clarke.

Mewn prosesau arfarnu dros y flwyddyn ddiwethaf yn gyffredinol gellid cyfeirio at amgylcheddau dysgu cadarnhaol a pherthynas dda rhwng athrawon a disgyblion yn nifer o'r gwersi. Gwelwyd disgwyliadau uchel mewn sawl gwers gydag athrawon yn cynnig cymorth ac arweiniad buddiol i'r dysgwyr. Mae gweithgareddau amrywiol yn cynnig her briodol mewn rhai gwersi ac yn cynnal diddordeb y dysgwyr. Serch hyn, mewn rhai gwersi mae diffygion yn yr addysgu yn golygu nad yw dysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd adborth yn amrywio yn yr ysgolion. Mae nifer o athrawon yn cydnabod gwaith da a rhoi cyngor i wella, ond nid yw hyn yn gyson ac mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn sicrhau gwelliannau yn y maes.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Gwella ansawdd ac effaith adborth i ddysgwyr.
- Cysoni safonau addysgu ac ansawdd y cynllunio ar gyfer y medrau.
- Cefnogi a hyfforddi ymarferwyr i osod lefel her briodol.
- Sicrhau bod trefniadau atebolrwydd priodol yn eu lle ar gyfer gyrru gwelliannau ym maes addysgeg.
- Cysoni ansawdd yr adborth a roddir i ddisgyblion a sicrhau ei fod yn caniatáu i'r disgyblion wneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

**Cwricwlwm a Darpariaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**
Mae'r ysgolion yn llwyddo i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion eraill a cholegau i ehangu dewisiadau disgyblion yn CA4 a'r chweched dosbarth. Caiff amrywiaeth gynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol eu cynnig sydd yn llwyddo i ddiwallu diddordebau a galluoedd y disgyblion. Mae rhaglenni allgyrsiol gynhwysfawr yn ei lle yn yr ysgolion.

Ceir dealltwriaeth glir o holl elfennau statudol Cwricwlwm i Gymru gan y mwyafrif o'r arweinwyr yn yr ysgolion. Mae gwaith treialu ymhob MDAPh wedi digwydd eleni a bydd angen i'r ysgolion werthuso'r ddarpariaeth eleni ac addasu yn ôl y galw.

Mae cyfleoedd addas ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o ysgolion ond mae angen cynyddu'r cyfleoedd mewn un ysgol. Ceir cyfleoedd priodol i ddatblygu'r medrau yn y rhan fwyaf o ysgolion ond mae angen sicrhau bod y cynllunio yn cyd-fynd gyda datblygu egwyddorion cynnydd Cwricwlwm i Gymru. Mae cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau mewn un ysgol yn annatblygedig.

Mae trefniadau asesu ar gyfer y cwricwlwm newydd yn amrywio o ysgol i ysgol ac yn parhau yn annatblygedig mewn ambell ysgol.

Mae enghreifftiau da yn bodoli o bartneriaeth effeithiol gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i rymuso cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd gyda ffocws ar adlewyrchu'r weledigaeth a rennir gan yr holl randdeiliaid, asesu a chynnydd ac ar adeiladu ymhellach ar y cyfnod pontio o'r cynradd.
- Sicrhau dilyniant a chynnydd y dysgwyr yn y medrau.

**Safonau a Chynnydd Dysgwyr: Cynnydd ac Effaith mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig**
Mae systemau tracio ar waith yn yr ysgolion sydd yn caniatáu i arweinwyr adnabod disgyblion sydd yn tanberfformio. Amrywiol ydi'r ymateb i'r canfyddiadau yn yr ysgolion, gyda rhai enghreifftiau o drefniadau trylwyr ar waith ar gyfer targedu cynhaliaeth briodol mewn rhai

ysgolion. Mae enghreifftiau eraill i'w cael lle nad ydi'r gweithredu dilynol yn ddigon cadarn ac o'r herwydd nid yw'r deilliannau cystal â'r disgwyl.

Yn dilyn canfyddiadau o arsylwadau gwersi yn yr ysgolion, yn gyffredinol, gwna mwyafrif o ddisgyblion gynnydd priodol yn eu gwersi gyda nifer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn barod i ymateb. Gwelwyd bod nifer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'w hathrawon yn y bump ysgol, ond mae'r bump ysgol uwchradd wedi nodi'r angen i weithio ar agweddau disgyblion at ddysgu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn gyffredinol mae medrau darllen y disgyblion yn amrywio. Gwelwyd rhai disgyblion yn ddarllenwyr hyderus ac o gael y cyfle yn gallu defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus i'w helpu i ddadansoddi a deall testunau. Mae medrau llafar yn amrywio gyda nifer o ddisgyblion yn gallu mynegi eu hunain ar lafar yn hyderus yn y ddwy iaith, ac eraill yn gyndyn eu hymatebion. O gael y cyfle mae disgyblion yn gallu ysgrifennu'n estynedig i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd mewn nifer o bynciau ond anghyson yw ansawdd y gwaith.

Gwelwyd bod nifer o ddisgyblion yn gallu cymhwyso medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm ac mae eu medrau digidol yn datblygu. Mae sgiliau creadigol y disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgolion hynny lle bo'r ddarpariaeth yn addas ac yn caniatáu'r datblygiad.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau mewn un ysgol yn annatblygedig a chaiff hyn effaith ar y safonau a'r cynnydd yn y medrau.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Cysoni safonau cyrhaeddiad TGAU.
- Parhau i gynllunio a mapio cyfleoedd i sicrhau cynnydd yn y medrau.
- Sicrhau bod datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn flaenoriaeth.
- Gwella a chysoni ansawdd adborth i sicrhau cynnydd mewn safonau.

DRAFT

## ATODIAD 2

**Arweinyddiaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**
Mae deugain ysgol gynradd ar yr ynys. Mae cymysgedd o benaethiaid o rai mwyaf profiadol yr awdurdod i'r rhai sydd wedi eu penodi i'w swydd pennaeth cyntaf yn y dair mlynedd ddiwethaf yn ogystal â phenaethiaid mewn gofal. Mae cyfrifoldebau dysgu'r penaethiaid yn amrywio – rhai yn dysgu dros hanner amser ac eraill yn dysgu hanner amser neu lai.

Mae arweinyddiaeth y mwyafrif o'r ysgolion yn dda gydag llawer o agweddau da iawn. Erbyn Gorffennaf 2023 un ysgol sydd mewn dilyniant Estyn, mae ysgol arall newydd ddod allan o ddilyniant yn llwyddiannus. Mae un ysgol wedi mynd i fesurau Estyn yn dilyn arolygiad diweddar ac mae gwaith i'w wneud i gryfhau'r arweinyddiaeth yno ar bob lefel.

Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion strwythur staffio clir, gydag arweinwyr ar bob lefel yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig mewn prosesau gwella ysgolion. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt weithdrefnau gwerthuso cadarn ac yn llawer ohonynt mae'r gweithdrefnau hyn wedi parhau i ddigwydd dros gyfnod y pandemig. Mae pob ysgol yn raddol esblygu eu gwerthuso i ystyried gofynion y cwricwlwm newydd ac ymhob clwstwr mae cynlluniau ar waith er mwyn datblygu i ymateb i'r fframwaith atebolrwydd newydd. Mae mwyafrif o'r penaethiaid wedi ymgysylltu â gweithdai hunan werthuso a chynllunio gwelliant GwE. Mae cynllun gwella y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gynhwysfawr gyda blaenoriaethau yn arwain yn glir o ganlyniad i brosesau gwerthuso. Mewn llawer o glystyrau mae ysgolion yn cydweithio ar flaenoriaethau cytûn y clwstwr mewn agweddau megis Addysgeg, ADY a Digidol.

Ar lefel penaethiaid mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn y clystyrau yn cydweithio yn dda gyda thrafodaethau aeddfed i gytuno ar faterion strategol clwstwr cyfan neu i sicrhau ymatebion tebyg lleol. Mae traddodiad o gydweithio ar ddogfennau a chynlluniau mewn llawer o ysgolion o fewn ac ar draws clystyrau. O fewn y  rhan fwyaf o ysgolion unigol yn y clystyrau, mae athrawon yn cydweithio yn dda ac mae arferion llwyddiannus yn cael eu rhannu traws ysgolion unigol ac ar draws y clystyrau. Yn y mwyafrif o glystyrau hefyd mae'r cydweithio rhwng cynorthwywyr addysgu'r ysgolion yn datblygu'n effeithiol er mwyn creu haen effeithiol iawn o gymorthyddion yn bron pob ysgol sy'n fodlon arwain ac arbrofi i gefnogi unigolion a grwpiau penodol o blant.

Eleni mae bron pob clwstwr wedi ymrwymo i Raglen Partneriaeth Ysgolion GwE. Mae'r ysgolion sydd wedi ymrwymo i'r rhaglen yn ymgymryd â chylchoedd o hunan-adolygu ac adolygu cymheiriaid gan gynnig cefnogaeth ar y cyd i wella meysydd blaenoriaeth. Yn dilyn hyfforddiant i Adolygwyr Cymheiriaid a Hwyluswyr Gwelliant yn ystod y flwyddyn, mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn y clystyrau a'r cylchoedd gweithredu yn cael eu cwblhau. Gwahoddwyd clystyrau i roi cyflwyniad ar y gweithredu i glystyrau eraill a rhannu darganfyddiadau. Mae hyfforddiant pellach hefyd yn yr arfaeth ar gyfer arfogi mwy o hwyluswyr gwelliant yn ogystal â chyflwyniad i feddylfryd y rhaglen i holl staff yr ysgolion.

Mae bron pob un o'r ysgolion yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r Gymraeg ac mae blaenoriaeth neu gynllun pwrpasol gan bron pob ysgol i barhau i ddatblygu eu darpariaeth yn seiliedig ar hunanwerthusiad trylwyr o'r maes. Mae gwaith y clystyrau ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol.

Mae'r cyswllt cydweithio gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn cryfhau. Hyderir y bydd strategaeth bontio'r clwstwr yn sicrhau parhad i gryfhau'r cydweithio yma fwy- fwy.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i ddatblygu rolau arwain a chydweithio athrawon rhwng ysgolion drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion
- Ymateb yn llwyddiannus i ofynion y Fframwaith newydd ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd
- Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel a chreu sefydliadau sy'n hunanwella.
- Sicrhau ymrwymiad pob clwstwr i'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion

**Gwella Dysgu ac Addysgu: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**
Mae'r rhan fwyaf o'r penaethiaid yn arwain timau o athrawon da gyda llawer o ddysgu rhagorol. Mae'r athrawon yn frwdfrydig yn y rhan fwyaf o'r ysgolion ac yn llwyddo i sicrhau safonau da neu well yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion mae'r prosesau gwerthuso wedi adnabod bod dysgu ac addysgu o leiaf yn dda gyda llawer yn dda iawn neu well. Mae'r farn yma yn cael ei atgyfnerthu drwy sgyrsiau proffesiynol gyda'r penaethiaid, athrawon a gweddill y staff. Mae hyn wedi ei gadarnhau gan yr YCG yn ystod ymweliadau drwy deithiau dysgu a chyd graffu gwaith gyda'r ysgolion yn ogystal â chyfleoedd i drafod eu gwaith gyda disgyblion. Mae nifer o enghreifftiau ble defnyddiwyd gwaith athrawon unigol neu grwpiau'r clystyrau i gyfrannu at hyfforddiant rhanbarthol, neu gyflwyniadau Cenedlaethol/ byd eang ym maes Addysgeg.

Mae disgwyliadau uchel yn y rhan fwyaf o'r ysgolion gyda gwaith ac asesiadau'r disgyblion yn dal y cynnydd maent yn ei wneud drwy ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o brofiadau cyfoethog.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion 3 i 8 yn gryfder amlwg yn y mwyafrif o'r ysgolion gyda meddylfryd y Dysgu Sylfaen a'r defnydd effeithiol o ardaloedd tu allan wedi eu gwreiddio yn gadarn ers amser. Mae dros haner yr ysgolion yn raddol drosglwyddo'r meddylfryd 3 i 8 i ddatblygu ymagweddau tebyg o ran dysgu yn yr awyr agored i bob dosbarth.

Mae datblygu disgyblion annibynnol yn gryfder amlwg yn y mwyafrif o'r ysgolion. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddylanwadu ar eu dysgu ac i gael llais strategol yng ngweithgarwch eu hysgolion.

Mae trefniadau ar gyfer disgyblion ar gofrestr ADY yn gryfder arall yn y clystyrau. Mewn rhai clystyrau mae cydlynwyr pob ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd dan arweiniad eiriolwr y dalgylch ac mae gwaith un cydlynydd yn cael ei ddefnyddio fel arfer dda yn Genedlaethol. Mae arbenigedd cymorthyddion hefyd yn gyrru cynnydd cadarn gan y grwpiau yma o ddisgyblion.

Mae'r berthynas waith glos rhwng y staff a'r plant yn gryfder yn yr holl glystyrau gyda'r gofal a'r parch yn sicrhau awyrgylch a naws hyfryd yn mhob ysgol. Mae'r staff dysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion yn modelu iaith lafar dda sy'n dylanwadau yn effeithiol ar ddatblygiad iaith y plant. Mae'r brwdfrydedd a gofal y staff yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol iawn at eu dysgu gan ddangos diddordeb ac yn ymroi i'w gwaith. Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion ymyraethau llesiant pwrpasol ar gyfer yr ychydig o ddisgyblion ble nad yw'r agwedd yma cystal. Mae'r athrawon ymhob ysgol yn rhoi llais i'w disgyblion ac yn sicrhau cyfleon gwerthfawr iddynt fod yn dylanwadu ar eu dysgu.

Mae llawer o ysgolion y clystyrau yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu dealltwriaeth eu staff o les. Mae canran uchel o staff y clystyrau, yn benaethiaid, athrawon a chymorthyddion wedi, neu yn y broses o ddilyn rhaglen hyfforddiant diploma Trauma Informed Schools. Mae hyn wedi

DRAFT

cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion. Mae tair ysgol ar yr ynys wedi derbyn achrediad Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i ddatblygu darpariaeth y Gymraeg gan hyrwyddo safonau uchel a defnydd cymdeithasol cyson ymysg y disgyblion.
- Parhau gyda'r gwaith cydweithio effeithiol mewn grwpiau clwstwr
- Sicrhau amser i athrawon fod yn rhannu agweddau o ddysgu rhagorol ar draws y clwstwr.

**Cwricwlwm a Darpariaeth: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**

Mae paratoadau ar gyfer cyflwyno y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Medi 2022 wedi bod yn dda neu well yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yn y clystyrau. Mae gan bob ysgol weledigaeth glir sydd wedi ei datblygu drwy drafodaethau a chasglu barn yr holl rhanddeiliaid. Mae rhai o ysgolion yr ynys hefyd wedi eu hadnabod i arddangos arferion llwyddiannus yn Rhanbarthol ac yn Genedlaethol o ran eu dulliau llunio gweledigaeth a cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd.

Mae pob ysgol wedi troi eu gweledigaeth yn ddyluniad cwricwlwm effeithiol sydd yn parhau i ddatblygu ac esblygu fel mae'r dyfnder o wybodaeth a'r cynlluniau darpariaeth yn aeddfedu.

Mae'r Gymraeg yn cael lle amlwg yn nyluniad cwricwlwm yr ysgolion ac mae'r ddarpariaeth ar draws yr ynys yn adlewyrchu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus. Mae ethos yr ysgolion a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r Gymraeg a llythrennedd yn gyfoethog ac mae'r profiadau a gynigir ar draws yr ynys wedi'u cynllunio'n ofalus ac i bwrpas ac yn ysgogol a chyfoes. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd eu rolau ar gyfer modelu a datblygu'r iaith. O ganlyniad, mae hyn yn hybu mwynhad y dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi a thu hwnt i'r dosbarthiadau.

Eleni mae pob ysgol wedi parhau i ddatblygu dealltwriaeth o'r 4 diben ac fe'i gwelir yn cael eu dathlu mewn dosbarthiadau ac yn ffocws i gynlluniau. Mae pob ysgol hefyd yn parhau i arbrofi â dulliau gwahanol o gynllunio, addysgu ac o sicrhau profiadau cyfoethog. Mae'r broses o gynllunio dros amser i sicrhau cynnydd gan roi sylw i bob datganiad o'r hyn sy'n bwysig a'r elfennau mandadol yn parhau i gael ei datblygu.

Mae llawer o aelodau staff ysgolion yr ynys wedi bod yn arwain neu yn rhan weithredol o rwydweithiau CiG lleol a rhanbarthol. Mae'r athrawon yma wedi cael cyfle i fod yn rhannu'r hyn maent wedi ei ddatblygu gyda gweddill staff y clystyrau. Mae hyn wedi arwain at ddyfnhau dealltwriaeth o'r MDaPh a'r camau cynnydd ym mhob ysgol.

Mae mwyafrif y clystyrau hefyd wedi creu grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad, mae hyn wedi sicrhau bod pob aelod o staff ymhob ysgol wedi cael bod yn sŵn y drafodaeth o fynd i wraidd y meysydd, dod i ddeall y camau cynnydd a'r disgrifiadau dysgu a chydweithio wrth ystyried y cynllunio. Defnyddiwyd sesiynau Hyfforddiant Mewn Swydd a gwyll yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer rhaeadru gwybodaeth o'r naill grŵp i'r llall.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Parhau i adnabod sut mae cynnydd yn edrych er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn fwriadus dros amser.
- Parhau i gynnal trafodaethau/ deialog proffesiynol am gynnydd dysgwyr gyda'r dysgwyr eu hunain, gyda staff yr ysgol yn ogystal â staff ysgolion eraill



DRAFT

**Safonau a Chynnydd Dysgwyr: Cynnydd ac Effaith mewn Clystyrau Ysgolion Cynradd**

Mae safonau a’r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn dda yn y rhan fwyaf o’r ysgolion ac yn dda iawn yn y mwyafrif.

Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn datblygu yn dda ac yn cael eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm yn y rhan fwyaf o’r ysgolion gyda’r sgiliau digidol yn datblygu yn dda. Mae sgiliau Cymraeg da neu well gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y rhan fwyaf o’r ysgolion ac maent yn gwrando, siarad a chyfathrebu yn gynyddol hyderus yn yr iaith. Fodd bynnag mae effaith y pandemig yn parhau i ddylanwadu ar fedrau llafaredd y lleiafrif o’r disgyblion, yn enwedig y disgyblion ieuengaf ac ar waith ysgrifennu estynedig a chymhwyso rhifedd ychydig o ddisgyblion hŷn. Mae’r agweddau yma yn cael sylw o fewn cynlluniau gwella a rhaglenni ymyrraeth yn yr ysgolion hyn.

Mae’r mwyafrif o ysgolion wedi cydweithio er mwyn sicrhau trefn bwrpasol o adnabod gwaelodlin disgyblion fel y maent yn cychwyn yr ysgolion. Mae llawer o ysgolion hefyd yn datblygu trefniadau asesu cynnydd priodol ar gyfer disgyblion wrth iddynt ddilyn y cwricwlwm newydd.

Yn y mwyafrif o ysgolion mae cytundeb traws glwstwr i roi y pwyslais ar ddal cynnydd unigolion yn eu dosbarth drwy weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion defnyddir taenlenni gwahanol wedi eu personoli ar gyfer disgyblion unigol sy’n dal enghreifftiau o ganlyniadau asesiadau safonol disgyblion yn ogystal â mesuryddion llesiant ac ymagweddau at waith ac ysgol dros amser. Mae mwyafrif yr ysgolion hefyd yn treialu offeryn Taith 360 er mwyn hwyluso gwaith o sicrhau bod asesiadau yn arwain at gynllunio’r camau dysgu nesaf.

**Mynd i'r afael â gwelliannau pellach**

- Cytuno ar ddulliau o ddal a sicrhau cynnydd yn y medrau gan sicrhau pontio effeithiol.
- Datblygu ymhellach allu disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm.

DRAFT

CYNLLUN BUSNES 2022-2023

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RANBARTHOL 2022-2023**

**AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU**

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.**

**CONTINWWM ADDYSG 3 i 16**

**Data rhanbarthol:**

**Prosiect pontio addysgeg**

- Ysgolion: 25

**Gweithdy Pontio:**

- Ysgolion: 284

**Pecyn cymorth 3-8 Tymor:**

- Cymorth i ysgolion: 74
- Nifer o ymweliadau: 184
- Cymorth clwstwr (nifer ysgolion): 132
- Rhwydwaith 3-8: 735 wedi mynychu yn rhanbarthol
- Gweithdai i Athrawon a Chymorthyddion Dysgu newydd i'r oedran 3-8: 778 wedi mynychu yn rhanbarthol

**Data Awdurdod Lleol:**

**Prosiect Pontio Addysgeg**

| | **Clystyrau/** |
|---|---|
| Ynys Môn: | 1 |

| | Ysgolion |
|---|---|
| Ynys Môn: | Llangefni/ Y Graig |

**Pontio Workshops:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 34 |

**Pecyn cymorth 3-8**

| | Nifer ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Ynys Môn: | 10 | 43 |

**Cymorth clwstwr (nifer ysgolion)**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 20 |

**Rhwydwaith:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 100 |

**Gweithdai:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 122 |

**GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

**Data Rhanbarthol:**

**Niferoedd yn mynychu'r sesiynau Dysgu Proffesiynol CiG cenedlaethol ar-lein:**

- Cyfanswm o 668 ar draws Cymru - 251 o GwE

**Data Awdurdod Lleol:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 20 |

**TIMAU MDaPh**

DRAFT

<table>
<tr>
<td>Data rhanbarthol :<br><br>Mwy o ymweliadau â’r wefan - mynediad i ddeunyddiau ac enghreifftiau a rennir gan rwydweithiau ac ysgolion:<br><br>Rhwng 1/9/21 a 20/1/23<ul><li>8418 CfW GwE Support Centre</li><li>8100 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE</li></ul><br>Between 1/9/21 a 30/3/23:<ul><li>9021 CfW GwE Support Centre</li><li>8504 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE</li></ul></td>
<td>Data Awdurdod Lleol:<br><br>D/B</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL<br><br>Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion</th></tr>
<tr><th colspan="2">IEITHOEDD TRAMOR MODERN</th></tr>
<tr>
<td>Data Rhanbarthol:<br><br>Webinars cynradd<ul><li>Power Language + Institut français: Mai - Mehefin 2022: 35 ysgol (41 o athrawon)</li></ul><br>Uwchsgilio cynradd:<ul><li>Mehefin - Gorffennaf 2022- 3 sesiwn - 8 ysgol (13 o athrawon)</li><li>Tachwedd 2023 - 1 sesiawn - 7 ysgol - (9 o athrawon)</li><li>Ionawr 2023 - 2 sesiwn - 8 ysgol (10 o athrawon)</li></ul><br>Power Language – Hyfforddiant Cynradd:<ul><li>16.11.22 - 28 ysgol (30 o athrawon)</li><li>21.3.23 - 31 ysgol (36 o athrawon)</li></ul><br>Cyfarfod Rhwydwaith Cynradd<ul><li>Chwefror- Mawrth 2023 – Nifer ysgolion: 25</li></ul><br>Cerdd Iaith Almaeneg:<ul><li>Nifer yr ysgolion: 3</li></ul><br>Rhannu arferion llwyddiannus Cynradd Chwefror 2023<ul><li>Nifer yr ysgolion: 6</li></ul></td>
<td>Data Awdurdod Lleol:<br><br>Webinars cynradd<table><tr><td>Ynys Môn:</td><td></td></tr></table><br>Uwchsgilio cynradd:<br><br>Ynys Môn (Tachwedd 2023): 1<br><br>Power Language – Hyfforddiant Cynradd:<table><tr><td></td><td>16.11.22</td><td>21.3.23</td></tr><tr><td>Ynys Môn:</td><td>1</td><td>2</td></tr></table><br>Cyfarfod Rhwydwaith Cynradd<table><tr><td>Ynys Môn:</td><td>1</td></tr></table><br>Cerdd Iaith Almaeneg:<table><tr><td>Ynys Môn:</td><td>0</td></tr></table><br>Rhannu arferion llwyddiannus Cynradd Chwefror 2023</td>
</tr>
</table>

DRAFT

| Ynys Môn: | 0 |
|---|---|

**Rhaglen Dylunio ar gyfer Ieithoedd**
Hydref 2022 – Mawrth 2023

- Ieithoedd Rhyngwladol a'r Gymraeg: 26 ysgol

**Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd**

- Tachwedd 2022 - Nifer yr ysgolion: 29
- Chwefror 2023 - Rhannu Arferion Llwyddiannus: 15 ysgol

**Rhaglen Dylunio ar gyfer Ieithoedd**

| | Hydref 2022 | Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| Ynys Môn: | 1 | 1 |

**Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd**

| | Tachwedd 2022 | Chwefror 2023 |
|---|---|---|
| Ynys Môn: | 3 | 1 |

## CALU - LLDC

**Data rhanbarthol :**

**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi:**

- 62

**Cymorthyddion wrth eu Gwaith:**

- 137

**Darpar CALU Cylch 4, 5 a 6:**

- 88

**Statws CALU Cylch 3 a 4:**

- 38

**Hyfforddiant Aseswyr CALU newydd:**

- 5

**Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru:**

- 219

**Data Awdurdod Lleol:**

**Ymsefydlu**

| Ynys Môn: | 17 |
|---|---|

**Cymorthyddion wrth eu Gwaith**

| Ynys Môn: | 44 |
|---|---|

**Darpar CALU Cylch 4, 5 a 6**

| Ynys Môn: | 5 |
|---|---|

**Statws CALU Cylch 3 & 4**

| Ynys Môn: | 3 |
|---|---|

**Hyfforddiant Aseswyr CALU newydd**

| Ynys Môn: | 2 |
|---|---|

**Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru**

| Ynys Môn: | 30 |
|---|---|

## Y Gymraeg (DP)

**Data Rhanbarthol:**

**Cyrsiau Sabothol 2022-2023:**

- 27

**GwE yn mynychu fforymau penaethiaid:**

- 7

**Ein Llais Ni**

**Data Awdurdod Lleol:**

Cyrsiau Sabothol 2022-2023: Ynys Môn:

- Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn: 0
- Rhan 2 tymor y Gwanwyn: 0
- Rhan 2+3: 0
- Rhan 3 yn unig tymor yr Haf: 0

**Mynychu fforymau penaethiaid:**

| Ynys Môn: | 2 |
|---|---|

**Ein Llais Ni – astudiaethau achos wedi eu cyflwyno:**

DRAFT

- Astudiaethau achos wedi eu cyflwyno: 65
- Ysgolion wedi ymrwymo i'r prosiect: 81

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 16 |

**Ein Llais Ni – ymrwymiad ysgolion i'r prosiect:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 17/21 |

**Mynediad i gyrsiau y Ganolfan Dysgu genedlaethol**

- Cyfanswm gweithgareddau dysgu: 54
- Nifer sy'n parhau â'r gweithgareddau dysgu: 23

**Mynediad i gyrsiau y Ganolfan Dysgu Cenedlaethol**
**Cyfanswm gweithgareddau dysgu**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 3 |

**Nifer sy'n parhau a'r gweithgareddau dysgu**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 2 |

**SAFON UWCH**

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer fynychodd y gynhadledd i arweinwyr Ôl-16:**

- 35

**Data Awdurdod Lleol:**

**Nifer fynychodd y gynhadledd i arweinwyr Ôl-16:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 5 |

**YMCHWIL A GWERTHUSO**

**Data Rhanbarthol:**

**Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa:**

- Nifer o ysgolion: 30

**Data Awdurdod Lleol:**

**Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 4 |

**AGA**

**Data Rhanbarthol:**

- Cynnydd sylweddol yn nifer (%) yr athrawon cyflenwi byrdymor (STS) oedd yn bresennol yn sesiynau cenedlaethol 1 a 2 y rhaglen dysgu proffesiynol. Roedd 51 (81%) athro cyflenwi byrdymor newydd gymhwyso sydd mewn gwaith yn Sesiwn 1, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Rhaglen Dilyswyr Allanol - Mynychodd 100% o Ddilyswyr Allanol GwE (83) a'r Mentoriaid Allanol y gweithdy hyfforddi Cenedlaethol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r Broses Sefyldu ANG.
- Nifer yr ANG a fynychodd y sesiynau DP gorfodol: 172

**Data Awdurdod Lleol:**

D/B

**DIGIDOL**

**Data Rhanbarthol:**

**Data Awdurdod Lleol:**

DRAFT

**Nifer a gofrestrwyd ar gyfer Hyfforddiant Digidol:**

- 386

Data defnydd Hwb – nifer o ysgolion sy'n ymgysylltu ar gyfartaledd yn ystod chwarter 4:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 98% |

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Data Rhanbarthol:**

| | Nifer yr ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Cymorth pynciol unigol i ysgolion cynradd | 6 | 18 |
| Cymorth unigol i ysgolion uwchradd | 32 | 79 |
| Cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg | 47 | N/A |

**Data Awdurdod Lleol:**

**Cymorth i ysgolion cynradd:**

| | Nifer ysgolion | Nifer o ymweliadau | Nifer clystyrau | Nifer o ymweliadau clwstwr |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2 | 7 | 0 | 0 |

**Cymorth unigol i ysgolion uwchradd**

| | Nifer ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 4 | 7 |

**Cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg**

| | Nifer Ysgolion (Tachwedd) | Nifer ysgolion (Mawrth 2023) |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 5 | 3 |

## SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorth unigryw i ysgolion:**

- Cynradd: 145
- Uwchradd: 50

**Data Awdurdod Lleol:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 5 - Uwchradd<br>5 - Cynradd |

## CYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol**

**Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog):**

- 20

**Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE)**

- Nifer yr ysgolion uwchradd yn rhan o'r prosiect: 12

**Data Rhanbarthol**

**Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog):**

- Ynys Môn: 4

**Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE)**

- Ynys Môn: 1

DRAFT

<table>
<tr>
<td>

**Prosiect 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd CiG'**

- Adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r prosiect: 6

**Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE':**

- Y Gymraeg: 27
- Y Gymraeg – Uwchradd YCS: 19

</td>
<td>

**Prosiect 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd CiG'**

- Ynys Môn: 1

**Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE':**

- Ynys Môn: 5

</td>
</tr>
<tr>
<th colspan="2">GWYDDONIAETH</th>
</tr>
<tr>
<td>

**Data Rhanbarthol:**

**Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor yr Hydref 2022:**

- 37

**Rhwydwaith Grŵp Datblygu Technoleg:**

- 6 ysgol

**Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor y Gwanwyn 2023:**

- 38

**Wedi derbyn cymorth ysgol penodol:**

- 22

</td>
<td>

**Data Awdurdod Lleol:**

**Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor yr Hydref 2022:**

- Gwynedd/Mon: 12 ysgol

**Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor y Gwanwyn 2023:**

- Gwynedd/Mon: 11 ysgol

**Wedi derbyn cymorth ysgol penodol:**

- 2

</td>
</tr>
<tr>
<th colspan="2">OEDRAN 3-8</th>
</tr>
<tr>
<td>

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorth i ysgolion:**

- Nifer ysgolion: 74
- Nifer o ymweliadau: 184
- Cymorth clwstwr (nifer ysgolion): 132

**Rhwydwaith 3-8 Tymor:**

- 735 wedi mynychu yn rhanbarthol

**Gweithdy i Athrawon a CD yn newydd i'r grŵp oedran 3-8:**

- 778 wedi mynychu yn rhanbarthol

</td>
<td>

**Data Awdurdod Lleol:**

**Cymorth i ysgolion:**

| | Nifer ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Ynys Môn: | 10 | 43 |

**Cymorth clwstwr:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 20 |

**Rhwydwaith 3-8**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 100 |

**Gweithdy:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 122 |

</td>
</tr>
</table>

DRAFT

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**
**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**ARWEINYDDIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

| | 2021-22 |
|---|---|
| 1.Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 102 |
| 2.Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr | 72 |
| 3.Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP) | 35 |
| 4.Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro | 32 |
| 5.Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol | 17 |
| **CYFANSWM** | **258** |

**Niferoedd yn dilyn Rhaglenni arweinyddiaeth**

| **Rhaglen** | **2021-22** | **2022-23** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| MLDP | 74 | 86 | +14% |
| RhDAG | 29 | 41 | +30% |
| SLDP | 44 | 74 | +40% |
| RhDUA | 27 | 30 | +10% |
| | | | |
| Cyfanswm | 174 | 231 | +25% |

| **Rhaglen / Programme** | **2021-22** | **2022-23** |
|---|---|---|
| RhDDB (CPCP) / AHT (NPQH) | 35 | *35 cais |
| Penaethiaid Newydd a Mewn gofal / New and Acting Headteachers / | 15 | 30 |
| Penaethiaid Profiadol / Experienced Headteachers | 17 | 6 |

DRAFT

**AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**AILGYNAU'R DYSGU**

DRAFT

**Data rhanbarthol :**

**Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)**

- Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein.

**Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio Google Classroom:**

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.
- Ysgolion wedi cofrestru i gael mynediad i'r fideos hyfforddi a'r adnoddau ymyrraeth yn (2021/22): 52
- Ysgolion wedi cofrestru i gael mynediad at y fideos hyfforddi a'r adnoddau ymyrraeth (Medi 2022): 31

**Sesiynau hyfforddi iFOR**

- Cofrestrodd 28 ysgol a 32 o athrawon i gael hyfforddiant ac adnoddau yr ymyraethau rhuglder darllen (Darllen Ailadroddol a Geiriau Amledd Uchel).

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**

- Niferoedd ysgolion GwE yn cymryd rhan: 45

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**
Dyma fanylion ynghylch niferoedd athrawon a rhieni ac ymweliadau â'r adnoddau ar-lein:

- Nifer a fynychodd: 9

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)**

- Cyfanswm ysgolion GwE a ymgysylltwyd: 45
- Cofrestrodd wyth ysgol ac 16 athro i gael mynediad i Weminar 1 ac 1 ysgol ac ymunodd 1 athro i gael mynediad i Weminar 2.

**Sesiynau KPR**

**Data Lleol:**

**Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)**

Ysgolion sydd wedi cofrestru i gael mynediad at y fideos hyfforddi a'r adnoddau yn (2021/22)

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 7 |

Ysgolion sydd wedi cofrestru i gael mynediad at y fideos hyfforddi a'r adnoddau yn (Medi 2022)

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 3 |

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**
Nifer ysgolion sy'n cymryd rhan:

| | 2022-23 |
|---|---|
| Ynys Môn: | 3 |

Webinar:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 1 |

| **Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2** | **Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)** |
|---|---|
| • Hyfforddwyd 33 o ysgolion mewn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn gyfrwng Cymraeg<br>• Mae chwe deg un o ysgolion wedi eu hyfforddi mewn RILL yn ystod tymor yr Hydref 2022 (RILL Cymraeg = 27 ysgol, 39 o athrawon; RILL Saesneg = 34 ysgol, 60 o athrawon). | Ynys Môn: 7 |

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)**

| | 07/2021 | 07/2022 |
|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd wedi adnewyddu trwydded(au) yn uniongyrchol gyda SR ers mis Medi 2021 | 30 | 15 |
| Nifer y disgyblion sydd wedi ymuno â Google Classroom | 40 | 40 |
| Nifer y staff sydd wedi ymuno â Hwb | 71 | 73 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Headsprout gartref (Rhieni ac aelodau staff) | 399 | 513 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ddefnyddio straeon Headsprout (Rhieni) | 106 | 363 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meincnodau (Rhieni) | 18 | 46 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meithrin Rhuglder (Rhieni) | 13 | 54 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i drefnu treial am ddim/prynu neu adnewyddu trwydded (Staff ysgol) | 65 | 77 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ychwanegu disgyblion at y rhaglen (Staff ysgol) | 84 | 135 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i wirio sgorau (Staff ysgol) | 39 | 85 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i fewnbynnu sgorau Meincnod (Staff ysgol) | 16 | 25 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i gael mynediad i Google Classroom (Rhieni) | 33 | 50 |
| Gweminar 1 Cychwyn arni gyda Headsprout | - | 2 |
| Gweminar 2 Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout | - | 0 |

DRAFT

**STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR**

**Data Rhanbarthol:**

**Defnyddwyr wedi cofrestru ar draws y rhanbarth:**

- Helpu Eich Plentyn i Ddysgu: 378
- Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu: 451

**Data Awdurdod Lleol:**

**Helpu Eich Plentyn i Ddysgu:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 21 |

**Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu:**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 34 |

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer o ysgolion/clystyrau/cynghreiriau wedi ymrwymo:**

- 206 / 37

**Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd:**

- 266

**Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd:**

226

**YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER**

**Data Rhanbarthol:**

**Ysgolion uwchradd**

- Mesurau Arbennig: 3
- Gwelliant Sylweddol: 1

**Ysgolion cynradd**

- Mesurau Arbennig: 2
- Gwelliant Sylweddol: 2

**Data Awdurdod Lleol**

**Secondary schools in statutory category**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 0 |

**Primary schools in statutory category**

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 1 |

**CYMELL A MENTORA**

**Data Rhanbarthol:**

**Hyfforddiant Cymraeg Hyfforddi'r Hyfforddwr:**

**Data Awdurdod Lleol:**

DRAFT

| | |
|---|---|
| • 21 (56% o'r cohort Cymraeg Cymru gyfan)<br><br>**Hyfforddiant Saesneg Hyfforddi'r Hyfforddwr:**<br>• 32<br><br>**Achrediad Cymell Lefel 3**<br>• 2 staff GwE, 4 o ysgolion<br><br>**Hyfforddiant CiG Hyfforddi'r Hyfforddwr**<br>• 6 staff GwE<br><br>**Mynychu Hyfforddiant Cymell Lefel 7**<br>• 11 o staff GwE, 6 o ysgolion<br><br>**Achrediad Cymell Lefel 7**<br>• 5 staff GwE, 1 o ysgolion<br><br>**Mynychu Hyfforddiant Iechyd Meddwl a lles Lefel 7**<br>• 11 o staff GwE, 1 o ysgolion<br><br>**Mynychu Hyfforddiant Goruchwyliaeth Cymell Lefel 7**<br>• 5 o staff GwE | Ynys Môn: — Cym: 5 Saes: 1 |

DRAFT

| W<br>**CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | 19 Medi, 2023 |
| **Pwnc:** | Panel Sgriwtini Addysg |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Sgriwtini Addysg |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Dafydd Roberts, Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>07971167198<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio nodi'r:<br>**A1** Cynnydd dros y cyfnod diwethaf gyda gwaith y Panel Sgriwtini Addysg<br>**A2** Cynnydd sylweddol wnaed wrth ddatblygu model craffu diwygiedig ar faterion Addysg fel sail i waith y Panel Sgriwtini Addysg a'r ddau riant Bwyllgor Sgriwtini. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor: 2023-2028.<br>Mae addysg yn un o'n 6 amcan strategol allweddol (Cynllun y Cyngor: 2023-2028) sef – sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Ystyrir rôl allweddol gan yr Aelodau Etholedig wrth wireddu'r amcan hon drwy graffu a ddal i gyfrif.<br>Mae gwaith y Panel Sgriwtini Addysg yn cyfrannu at yr amcan yma. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio |

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â chyfeiriad gwaith y Panel?
2. Pa awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor i gryfhau ymhellach ar waith y Panel?
3. Pa feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. CYD-DESTUN**

1.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol o gyfraniad y panelau sgriwtini at drefniadau llywodaethiant y Cyngor:

- Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol
- Panel Sgriwtini Cyllid
- **Panel Sgriwtini Addysg.**

**1.2 Trefniadau Llywodraethiant y Panel**

Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini[1] yn cadarnhau cylch gorchwyl y Panel mewn ffordd sy'n creu'r amodau ar gyfer cwmpas ehangach i'w waith gyda'r manteision allweddol canlynol:

i. Datblygu model o graffu mewn Addysg sy'n canolbwyntio ar grŵp llai o Aelodau yn cydweithio ar themâu penodol er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc ac annog presenoldeb da a gwaith tîm
ii. Cryfhau gallu Aelodau i herio perfformiad ymhellach drwy wella ansawdd eu gwybodaeth gyffredinol a'u dealltwriaeth parthed data perfformiad ysgolion
iii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau Gwasanaeth fel sail i flaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion Addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[2] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Hefyd, rhoddwyd trefniadau mewn lle i adrodd gynnydd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan y Cyng. Gwilym Owen Jones, cadeirydd y Panel. Mae aelodaeth y Panel ynghlwm (**Atodiad 1**).

2. **FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI ADDYSG**

Dyma drydydd adroddiad cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg sy'n cwmpasu'r cyfnod Chwefror – Medi, 2023.

[1] Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21 Mehefin, 2022
[2] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017

Cynhaliwyd 7 cyfarfod o'r Panel[3] yn ystod y cyfnod hwn a rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol:

**2.1 Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru**

Yng nghyfarfod mis Chwefror[4], bu i'r Panel dderbyn cyflwyniad ar oblygiadau a gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru gan ffocysu ar yr agweddau canlynol:

i. Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021
ii. Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
iii. Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2021

**Allbwn:**
Dealltwriaeth o oblygiadau a gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

**2.2 Addysg Ddewisol Gartref**

Cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr mewn cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg ar 27 Ebrill ar y trefniadau mewn lle ar gyfer addysg ddewisol gartref ar Ynys Môn.

**Allbwn:**
Derbyn sicrwydd bod y trefniadau mewn lle yn lleol yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru.

**2.3 Hunan-werthusiad - Effaith Gwaith y Panel Sgriwtini Addysg**

Rhoddwyd trefniadau mewn lle i'r Panel gwblhau hunan-werthusiad o'i gyfraniad at graffu Addysg yng nghyfarfod mis Mawrth, 2023[5] a hynny mewn sesiwn wedi'i hwyluso'n fewnol. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig:

- Hunan arfarnu'n allweddol bwysig fel dull o adnabod y llwyddiannau yn ogystal â'r meysydd datblygu
- Cafwyd arolwg llwyddiannus gan Estyn – allweddol parhau i gryfhau ein trefniadau llywodraethiant corfforaethol i gefnogi'r ddarpariaeth addysg
- Creu'r amodau i Aelodau Etholedig lwyddo fel arweinwyr gwleidyddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Hyn i gynnwys y gallu i fesur effaith gwaith Cynghorwyr.

Yn sgil y craffu, bu i'r Panel benderfynu blaenoriaethu'r agweddau canlynol fel sail i ddatblygiad pellach y Panel yn ystod 2023/24:

- Gwaith parhaus i ddatblygu ymagwedd tîm ymhlith aelodau'r Panel (gweithdy datblygu mis Mai 2023 i fod yn sbardun pellach ar gyfer hynny)
- Datblygu ymhellach ar gyfranogiad Aelodau a'r defnydd o strategaethau cwestiynu
- Llais y dysgwr – cryfhau yng ngwaith y Panel
- Adborth gan Aelodau yn sgil gweithgareddau cysgodi i'w cryfhau fel rhan annatod o raglen waith y Panel

[3] Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 16/02/23, 30/03/23, 27/04/23, 25/05/23, 13/06/23, 18/07/23 a 05/09/23
[4] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 16 Chwefror, 2023
[5] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, 2023

- Y Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru) yn sylfaen allweddol ac yn gosod fframwaith i ddatblygu model craffu ar gyfer materion addysg
- Blaen raglen waith y Panel i'w datblygu ar sail themâu.

**Allbynnau:**

i. Hunan-arfarnu'n rhan amlwg yn nhrefniadau llywodraethiant Sgriwtini
ii. Trefniadau adolygu, dysgu a gwella parhaus mewn lle
iii. Perchnogaeth gan Aelodau Etholedig i'w cyfraniad at y ddarpariaeth addysgol ar Ynys Môn.

**2.4 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022-2032**

Yng nghyfarfod mis Mehefin[6], bu i'r Panel roi ystyriaeth i gynnydd wrth wireddu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Rhoddwyd sylw penodol i weledigaeth, nod ac amcanion Ynys Môn ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a hefyd cyfraniad yr Uned Iaith ar draws y sector cynradd ac uwchradd.

**Allbwn:**

Derbyn sicrwydd ynghylch cynnydd y flwyddyn ddiwethaf wrth wireddu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**2.5 Ysgolion mewn Categori, Dilyniant Estyn neu'n Derbyn Cefnogaeth Ychwanegol**

Gwelwyd y Panel hefyd yn adolygu ysgolion y Sir mewn categori, dilyniant Estyn neu'n derbyn cefnogaeth ychwanegol yn rheolaidd dros y cyfnod diwethaf[7] a hynny er mwyn craffu ar y trefniadau gwella ar waith mewn ysgolion penodol.

**Allbynnau**:

i. Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am safonau mewn ysgolion ar Ynys Môn
ii. Derbyn sicrwydd bod mesurau gwella mewn lle a chefnogaeth briodol ar gael ar gyfer ysgolion sy'n peri consyrn
iii. Trefniadau dal i gyfrif a chraffu cadarn yn sail i waith y Panel Sgriwtini Addysg.

**2.6 Datblygu Cydweithio Effeithiol → edrych mewn manylder ar sut mae'r Gwasanaeth Dysgu'n creu'r amodau ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol**

Yng nghyfarfod mis Gorffennaf[8], rhoddwyd ystyriaeth i sut mae'r Gwasanaeth Dysgu'n creu'r amodau ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol gan edrych ar weledigaeth, nod ac amcanion yr Awdurdod drwy gyfrwng 2 astudiaeth achos:

- Dalgylch **Caergybi** → dysgu ac addysgu
- Dalgylch **Llangefni** → strategol (cydweithio penaethiaid).

[6] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Addysg dyddiedig 13 Mehefin, 2023
[7] Cyfarfodydd o'r Panel Sgriwtini Addysg ar 30 Mawrth, 2023 ac 18 Gorffennaf, 2023
[8] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2023

**Allbynnau:**

i. Gwell ddealltwriaeth o effaith gadarnhaol gwaith partneriaeth effeithiol ar y ddarpariaeth addysgol a phrofiad y dysgwr unigol
ii. Cadarnhau'r gwerth ychwanegol a'r buddion o ganlyniad i waith partneriaethol
iii. Parhau i fonitro'r amodau ar waith i greu cydweithio effeithiol gan y Gwasanaeth Dysgu.

**2.7 Model ar gyfer Craffu Addysg - Siarter Craffu Addysg**

Ystyriwyd y pwnc hwn ar ddwy achlysur dros y misoedd diwethaf[9]. Mae'n destun adroddiad ar wahân ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini heddiw.

**Allbynnau:**

i. Rhoi ffrwd gwaith mewn lle i gryfhau ymhellach ar y trefniadau craffu addysg a dal i gyfrif gan Aelodau Etholedig (fel rhan o'n prosesau llywodraethiant corfforaethol)
ii. Datblygu model o graffu addysg yn lleol sy'n cydymffurfio â deilliannau'r Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru)
iii. Datblygu meddylfryd o gyd-gynhyrchu a chyd-atebolrwydd
iv. Cwrdd ag argymhelliad arolwg Estyn yn diweddar o'r Awdurdod Lleol[10] → **"R2** Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol".

**2.8 Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23**

Ar 5 Medi, 2023, cafwyd trafodaeth ar ffurf gweithdy ynghylch prif gasgliadau Adroddiad Blynyddol GwE: 2022/23. Roedd y ddogfen yn tystioli ac yn cydnabod natur y cydweithio a'r bartneriaeth rhwng GwE a'r Awdurdod Lleol. Rhoddwyd sylw i'r agweddau canlynol yn bennaf:

- Fformat newydd i'r Adroddiad Blynyddol – ffocws ar ansawdd yn lleol o dan gyfres o benawdau penodol:
  - Arweinyddiaeth
  - Gwella Addysgu a Dysgu
  - Cwricwlwm a Darpariaeth
  - Cynnydd a Safonau Dysgwyr
  - Cefnogaeth a Her i Ysgolion sy'n Achosi Pryder
  - Atodiadau penodol ar gyfer – Ysgolion Uwchradd ac Arbennig; clystyrau Ysgolion Cynradd; data hyfforddiant a chefnogaeth i Ynys Môn

- Prif gasgliadau a'r meysydd fesul sector fydd angen sylw pellach yn ystod y flwyddyn 2023/24 a thu hwnt
- Strategaeth gwestiynu ar gyfer y craffu cyhoeddus o'r Adroddiad Blynyddol yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio[11] – er mwyn

[9] Cyfarfodydd o'r Panel Sgriwtini Addysg – 25 Mai, 2023 (ar ffurf gweithdy mewn person, wedi'i hwyluso'n allanol) ac 18 Gorffennaf, 2023
[10] Adroddiad Arolygiad Estyn o Awdurdod Lleol Ynys Môn (Mehefin 2022)
[11] Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'w gynnal ar 19 Medi, 2023

tystioli gwerth ychwanegol a rhoi egwyddorion y Siarter Craffu Addysg ar waith.

**Allbynnau:**

i. **Rhoi ar waith y Siarter Craffu Addysg a hynny fel sylfaen i waith sgriwtini'r Aelodau**
ii. **Datblygu strategaeth gwestiynu gadarn ar faterion Addysg sydd o bwys strategol i'r Cyngor.**

**2.9 Rhaglen waith y Panel Sgriwtini am y cyfnod Mai 2023 → Ebrill, 2024**

Cafwyd adolygiad o'r blaen raglen waith ymhob cyfarfod o'r Panel gyda'r amcan o sicrhau rhaglen waith gadarn i gefnogi cyfraniad y Panel at drefniadau llywodraethiant y Cyngor. Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Panel Sgriwtini[12] yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

i. Model Cydweithio Integredig – cynnydd wrth ddatblygu model lleol ar gyfer Ynys Môn (Plant mewn Gofal)
ii. Cysgodi gweithgareddau Addysg – diweddariad a derbyn adborth gan aelodau'r Panel
iii. Blaen raglen waith – adolygiad.

**6. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED**

Dim mater i'w uwchgyfeirio gan y Panel.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ddim yn berthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ddim yn berthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ddim yn berthnasol |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ddim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|

[12] Panel Sgriwtini Addysg, 19 Hydref, 2023

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Gwilym Owen Jones**
**Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg**
**Dyddiad: 10/08/2023**
**(diwygiwyd 07/09/2023 )**

**Atodiad 1**

**AELODAETH Y PANEL SGRIWTINI ADDYSG**

| Aelod | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Cyng Gwilym Owen Jones (Cadair) | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| Cyng Margaret M Roberts (Is-gadair) | |
| Cyng Non Dafydd | |
| Derek Owen | |
| | |
| Cyng Arfon Wyn | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| Cyng Dyfed Wyn Jones | |
| Cyng Alwen Watkin | |
| Cyng Keith Roberts | |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | 19 Medi, 2023 |
| **Pwnc:** | Siarter Craffu Addysg |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ceisio sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Siarter Craffu Addysg arfaethedig |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer<br>Cyng Dafydd Roberts, Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>07971167198<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** Gynnig sylwadau ar gynnwys y Siarter Craffu Addysg<br>**A2** Gymeradwyo'r Siarter fel sail ar gyfer craffu materion Addysg<br>**A3** Nodi'r bwriad i ddatblygu'r ddogfen maes o law fel Siarter Craffu cyffredinol ar draws ystod gwaith sgriwtini'r Cyngor. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor: 2023-2028.<br>Mae addysg yn un o'n 6 amcan strategol allweddol (Cynllun y Cyngor: 2023-2028) sef – sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Ystyrir rôl allweddol gan yr Aelodau Etholedig wrth wireddu'r amcan hon drwy graffu a ddal i gyfrif. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor |

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Beth ydy'r prif yrwyr wrth baratoi Siarter Craffu ar faterion addysg?
2. I ba raddau y mae oblygiadau ariannol ynghlwm wrth weithredu'r Siarter arfaethedig?
3. Mae rhoi Siarter yn ei lle fel sylfaen i waith Sgriwtini'r Cyngor yn elfen ychwanegol at ein prosesau lleol presennol. Pa drefniadau sydd ar waith mewn awdurdodau lleol eraill?


## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

**1.1** Mae pwyllgorau sgriwtini'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru'n gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, mae'n statudol ofynnol[1] i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl pennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl wrth ddatblygu ac adolygu polisïau.

### 2. Cefndir a chyd-destun lleol

**2.1** Bydd Aelodau'n ymwybodol bod ein strwythur Sgriwtini lleol yn cynnwys dau bwyllgor a thri phanel Sgriwtini fel a ganlyn:




[1] Deddf Llywodraeth Leol 2000

**2.2** Mae'r panelau sgriwtini wedi'u sefydlu er mwyn cwblhau ffrydiau gwaith ar ran y rhiant bwyllgorau[2] ac maent yn grwpiau gweithredol heb yr hawl i wneud penderfyniadau.

**2.3** Mae gweithrediad y panelau hyn wedi cael eu sefydlu'n gadarn drwy:

i. Sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn i gefnogi pob panel
ii. Sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith glir ar gyfer y panelau
iii. Sefydlu proses adrodd / uchafu er mwyn sichrau yr adroddir ar waith y panelau sgriwtini yn amserol i'r ddau riant bwyllgor
iv. Sicrhau'r cyflymder priodol ar waith y panelau sy'n cydymffurfio â blaenoriathau corfforaethol a hefyd craffu manwl ar bynciau holl bwysig i'r Cyngor.

**3. Siarter Craffu Addysg**

**3.1** Bydd Aelodau'n ymwybodol o'n gweledigaeth leol (egwyddorion arweiniol a gwerthoedd) ar gyfer sgriwtini effeithiol sydd wedi'i chrynhoi yn y Siarter Craffu Addysg ynghlwm.

**3.2** **Arolwg Estyn o'r Awdurdod Lleol** – bu i Estyn gwblhau arolwg y llynedd o'r Awdurdod Lleol[3] gan gynnig 2 argymhelliad:

**A1** Cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu
**A2** Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Addysg[4] a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio[5] graffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion Estyn a chynnig y cynllun ôl-arolwg fel un ystyrlon, cynhwysfawr a chadarn i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith. Ym mis Mai 2023[6], cynhaliwyd gweithdy i aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg wedi'i hwyluso'n allanol gyda'r amcan o gyd-gynhyrchu'r egwyddorion a'r cynnwys ar gyfer model a sgiliau craffu effeithiol yn y maes addysg.

**3.3** Y cam naturiol nesaf ymlaen i ni'n lleol felly ydy paratoi crynodeb trosfwaol sy'n dwyn ynghyd ymrwymiad a gwerthoedd y Cyngor ac sy'n sail i waith sgriwtini Aelodau Etholedig ar faterion addysg o bwysigrwydd strategol. Mae copi o'r Siarter Craffu Addysg arfaethedig ynghlwm. Bwriedir datblygu'r ddogfen maes o law fel Siarter Craffu cyffredinol ar draws ystod gwaith sgriwtini'r Cyngor.

**3.4** **Mewnbwn Rhanddeiliaid** – lluniwyd y Siarter gan swyddogion y Cyngor ac mae'r broses o'i pharatoi wedi cynnwys mewnbwn gan Aelodau Etholedig:

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a / neu'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
[3] Adroddiad Arolygiad Awdurdod Lleol Ynys Môn Mehefin, 2022
[4] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Addysg ar 22 Medi, 2022
[5] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2022
[6] Gweithdy rhyngweithiol, mewn person ar gyfer aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg ar 25 Mai, 2023

- Panel Sgriwtini Addysg
- Fforwm Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini
- Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**4. Materion ar gyfer eu Hystyried**

**4.1** Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini:

- gynnig sylwadau ar gynnwys y Siarter Craffu Addysg drafft
- gymeradwyo'r Siarter fel sail ar gyfer craffu materion Addysg
- nodi'r bwriad i ddatblygu'r ddogfen maes o law fel Siarter Craffu cyffredinol ar draws ystod gwaith sgriwtini'r Cyngor.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| • Siarter Craffu Addysg<br>• Cyflwyniad i Drosolwg a Sgriwtini – Atodiad 1<br>• Canllaw Cwestiynu ar gyfer Aelodau Sgriwtini Addysg – Atodiad 2 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW. |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn ddwyieithog
This document is available bilingually

DRAFT

# SIARTER CRAFFU ADDYSG
# *EDUCATION SCRUTINY CHARTER*

# Mynegai o’r Cynnwys:

| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyd-destun Polisi Cenedlaethol | 3 |
| 2. Cefndir a Chyd-destun Lleol | 4 |
| 3. Ein Gweledigaeth ar gyfer Sgriwtini Effeithiol | 5 |
| 4. Darparu Sgriwtini Addysg Effeithiol | 6 |
| Nodyn o Eglurhad | 12 |

DRAFT

# SIARTER CRAFFU
# *SCRUTINY CHARTER*

Mae'r Siarter hon yn grynodeb trosfwaol sy'n dwyn ynghyd ymrwymiad a gwerthoedd y Cyngor sy'n sail i waith sgriwtini Aelodau Etholedig ar faterion o bwysigrwydd strategol i'r Awdurdod Lleol.

## 1. CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL

### 1.1 Craffu

Mae pwyllgorau sgriwtini'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru'n gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl pennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl wrth ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Llywodraethiant a Chraffu Cyhoeddus (CfGS)[1] yn arddel pedair egwyddor allweddol i gefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. darparu her "cyfaill beirniadol" i reini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau
ii. sicrhau y clywir llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau
iii. "llywodraethwyr annibynnol eu meddwl" sy'n arwain y broses Sgriwtini ac yn cymryd perchnogaeth ohoni
iv. Yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

### 1.2 **Y Gymraeg**

Mae yna sylfaen bolisi sylweddol yn genedlaethol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg y dylai gwneuthurwyr penderfyniadau a'r rhai sy'n gyfrifol am eu dwyn i gyfrif fod yn ymwybodol ohoni. Yn bennaf oll yw strategaeth iaith Llywodraeth Cymru sef Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Mae'r gyfundrefn addysg yn allweddol i greu a meithrin siaradwyr Cymraeg y dyfodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Gweler dyletswydd ar bob awdurdod lleol[2] i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) sy'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, darparu a datblygu addysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol.


[1] Canllaw Sgriwtini Da: Canolfan Llywodraethiant a Chraffu (2004)
[2] Deddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2013

DRAFT

# 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN LLEOL

## 2.1 Craffu

Mae ein strwythur Sgriwtini lleol yn cynnwys dau Bwyllgor a thri phanel Sgriwtini:




Darperir rôl / pwrpas Sgriwtini yn ein trefniadau llywodraethiant yn **Atodiad 1.**

## 2.2 Y Gymraeg

Ochr yn ochr â'n CSCA[3], mae gennym nifer o ymrwymiadau polisi i ddatblygu'r Gymraeg trwy'r gyfundrefn addysg ac yn ehangach. Mae'r Gymraeg ac addysg yn feysydd blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor: 2023-2028. Nod ein strategaeth hybu'r Gymraeg a'n Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yw datblygu defnydd o'r iaith yn lleol drwy'r gyfundrefn addysg drwyddi draw - blynyddoedd cynnar, addysg statudol, addysg ôl-16, addysg uwch / bellach a dysgu gydol oes.

[3] Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

DRAFT

# 3. EIN GWELEDIGAETH AR GYFER SGRIWTINI EFFEITHIOL

Ein gweledigaeth ar gyfer craffu'n effeithiol:

**Gweledigaeth**
Mae Sgriwtini ar Ynys Môn yn anelu at sicrhau gwell ganlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau a hefyd ychwanegu at effeithiolrwydd y Cyngor drwy helpu i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.

**Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini ar Ynys Môn**

- Mae Sgriwtini'n creu awyrgylch o gyd-ymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol ar Ynys Môn

- Mae Aelodau Sgriwtini yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi ac herio

- Mae gweithgaredd Sgriwtini'n ehangu yn uniongyrchol y sylfaen dystiolaeth ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid oherwydd mae'n rhoi syniad o'r modd y mae cymunedau lleol yn debygol o deimlo am y cynigion

- Mae Aelodau Sgriwtini yn helpu i sicrhau y cymerir ymagwedd strategol, hir dymor pan mae bwriad i ail ystyried strategaethau sylweddol gan wasanaethau a hynny drwy gynnig her adeiladol wrth roi prawf ar ragdybiaethau, edrych ar risgiau ac herio sut y mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

**Ein Gwerthoedd**
**Sgriwtini ar Ynys Môn .....**

- mae'n edrych ymlaen ac at allan ac yn rhagweithiol (yn hytrach na mewnol ac ymatebol)

- rôl wedi'i diffinio'n glir ac sy'n cael ei gwerthfawrogi yn nhrefniadau llywodraethiant a gwella'r Cyngor


- yn anwleidyddol ac yn cynnwys amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau gan gynnwys rhai gan bartneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd

- arwain gan Aelodau Etholedig sydd â'r cyfleon hyfforddi a datblygu maent eu hangen i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol

- derbyn cefnogaeth effeithiol gan Dîm Arwain y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Sgriwtini o ansawdd uchel ac ar gael yn amserol a chyson

- cymryd i ystyriaeth bryderon a fynegir ar lefel ward mewn modd nad yw'n blwyfol wrth reoli ei flaen raglen waith

- cael ei gynllunio'n dda, ei gadeirio'n effeithol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ar gael iddynt.




DRAFT

# 4. DARPARU SGRIWTINI ADDYSG EFFEITHIOL

**Craffu Addysg**
Mae atebolrwydd addysg a chraffu gan Aelodau ar y system addysg ehangach yn rôl hollbwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gydweithio'n effeithiol. Yn dilyn newidiadau i sut mae ysgolion yn gweithredu a gyda mwy o ddiwygio ar y gorwel[4], mae risg bosibl o lawer llai o eglurder a dealltwriaeth o bwy sy'n atebol am beth a phwy sydd â'r trosolwg o systemau addysg lleol.

Addysg yw un o'n 6 amcan strategol allweddol[5] - sicrhau darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Gwelwyd Cyngor Sir Ynys Môn felly'n ail ystyried y

[4] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Addysg (Cymru) 2018 – yn creu fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a darparu darpariaeth dysgu ychwanegol;
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – yn sefydlu Cwricwlwm i Gymru yn gyfraith
[5] Cynllun y Cyngor 2023-28

cwestiwn beth yw rôl Aelodau Etholedig yn y system hon. Mae angen goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth leol glir a strwythuredig er mwyn sicrhau gwiriadau a chydbwysedd y tu allan i systemau llywodraethiant ysgolion unigol ynghylch sut mae'r system addysg gyffredinol yn gweithredu ar lefel Sirol. I'r perwyl hwn, mae gan y Panel Sgriwtini Addysg gyfraniad pwysig i'w wneud. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn ar addysg yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini. Mae craffu da'n golygu ychwanegu gwerth, cryfhau penderfyniadau a chanlyniadau.

Mae craffu ar addysg felly'n ymwneud hefyd â dwyn darparwyr lleol i gyfrif, ac ar lefel strategol:

- Edrych / craffu ar sut mae'r holl gydrannau'n cydweithio ee sut mae GwE yn cyflawni eu dyletswyddau, sut mae partneriaid lleol yn cydlynu gweithgareddau
- Bod pob ymdrech yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr a chymunedau.

Mae craffu ar addysg yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses graffu briodol yn rhan o'r gwaith cynllunio, gweithredu a gwaith dilynol ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar ddysgwyr, trethdalwyr a chymunedau.

**Beth rydym yn disgwyl ei weld**
'Rydym yn disgwyl gweld arweinyddiaeth wleidyddol a sgriwtini effeithiol gan Aelodau sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ddarpariaeth addysg i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol:

- **Safonau** – herio perfformiad er mwyn codi safonau cyrhaeddiad addysgol
- **Ansawdd** – dealltwriaeth o ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg
- **Arweinyddiaeth** – dealltwriaeth o effeithiolrwydd arweinyddiaeth addysg ar bob lefel yn y Sir.

**Creu'r amodau:**
Mae'r camau gweithredu a'r ymddygiadau canlynol yn ceisio sicrhau bod ein Haelodau'n craffu'n effeithiol ar faterion addysg:



DRAFT

DRAFT

## Amodau ar gyfer Sgriwtini Addysg Effeithiol – Ymrwymiad Aelodau Etholedig

→ **glynu at y weledigaeth ehangach ar gyfer y Gwasanaeth Addysg**

→ **bod yn wybodus am y pwnc ac ymchwilio cyn Craffu**

→ **gofyn cwestiyniau agored, treiddgar ac atodol**

→ **edrych mewn manylder ar bynciau**

→ **ystyriaeth fanwl mewn Pwyllgor**

→ **bod yn barchus pan yn craffu**

→ **meithrin perthynas barchus a chynhyrchiol rhwng Aelodau Etholedig a swyddogion**

→ **agos at ysgolion, clust ar y ddaear i goladu tystiolaeth anffurfiol**

→ **sicrhau digon o gyfle ar gyfer sgyrsiau agored ar lefel Panel**


→ **gyda blaen raglenni gwaith Pwyllgor a Phanel er mwyn gosod cyfeiriad**

→ **parchu dewis iaith cyd-Aelodau gyda'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg**

→ **cefnogi ymrwymiad y Cyngor trwy ei bolisi iaith Gymraeg a chynlluniau eraill i ddatblygu defnydd o'r iaith**

**Addewid Aelodau Etholedig**
Mae ein Haelodau Etholedig wedi ymrwymo i:

**i.** gynnal sgriwtini effeithiol drwy:





DRAFT

**ii.** ddatblygu gwybodaeth gefndirol, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o’r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc Ynys Môn drwy:

- ✓ ddatblygu ymhellach ar ein model gwaith sy’n ffocysu ar “grŵp” llai – yn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o “arbenigedd”, annog presenoldeb da a gwaith tîm. Hefyd, fel fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda’r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio -

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

DRAFT





- ✓ meithrin perthynas o ymddiriedaeth a galluogi adeiladu tîm ymhlith aelodau’r Panel er mwyn annog awydd i ddatblygu gwaith Sgriwtini ymhellach

- ✓ ddarparu cyfleon cyfnodol yn y calendr ar gyfer hunan-werthuso gan Aelodau i alluogi myfyrio a dysgu

- ✓ gymryd rhan lawn ac ymgysylltu mewn cyfleon cysgodi (gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion) fel modd o gadw mewn cyswllt â’r heriau bob dydd sy’n wynebu Penaethiaid a staff ein hysgolion.  Hyn i gynnwys adrodd yn ôl i aelodau’r Panel ar faterion allweddol a risgiau.

**iii.** ddatblygu strategaeth gwestiynu effeithiol fel sylfaen ar gyfer yr holl weithgaredd Sgriwtini:

## Cwestiwn da?




Rhoddir arweiniad pellach ar gwestiynu effeithiol yn **Atodiad 2.**

DRAFT

**iv.** gadeirio effeithiol o’n cyfarfodydd Panel a Phwyllgor drwy:

- Clirdeb - argymhellion
- Crynhoi
- Glynu wrth y pwnc
- Gwahaniaethu rhwng cwestiynau a sylwadau
- Cynhwysol a pharchus
- Cyfranogiad gan yr holl Aelodau

DRAFT

## NODYN O EGLURHAD:

Lluniwyd y Siarter Craffu Addysg gan swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn ac mae wedi cynnwys mewnbwn gan Aelodau Etholedig sef:

i. Panel Sgriwtini Addysg
ii. Rhiant Bwyllgorau Sgriwtini sef y Pwyllgor Sgriwitini Corfforaethol a’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
iii. Fforwm Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini
iv. Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol
v. Tîm Arwain.

## *CYFLWYNIAD I DROSOLWG A SGRIWTINI*

**“Effective public scrutiny committees can be a powerful vehicle for change. It can improve the delivery of services; it can connect the public to decision-makers and politicians; it can improve efficiency…..”**

**[Canolfan Llywodraethiant a Sgriwtini 2008]**

## BETH YDY SGRIWTINI?

Ffocus ar faterion o gonsyrn go iawn i ddinasydion Ynys Môn.

Herio’r sawl yn gwneud penderfyniadau i wella perfformiad.

Darparu gwiriadau a chydbwysedd ar gyfer penderfyniadau’r Pwyllgor Gwaith.

## 4 EGWYDDOR ALLWEDDOL

1. Darparu her “ffrind beirniadol” i’r Pwyllgor Gwaith.
2. Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion.
3. Cael ei arwain a’i berchnogi gan Aelodau’r Cyngor.
4. Cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau.

## YR HYN <u>NAD</u> YW SGRIWTINI ……

Cymryd rhan mewn mân faterion neu faterion sy’n ymwneud ag unigolion.

Ymdrin â chwynion neu faterion rheoleiddio e.e. ceisiadau cynllunio neu drwyddedu.

Ymdrin â materion sy’n parhau i fod yn destun achos llys.

Gwleidyddol.

Lle i ddadlau.

Ystyried materion sy’n destun adolygiad gan sefydliad arall o fewn yr Awdurdod Lleol neu’r tu allan iddo.

Cyfle i ofyn cwestiynau i swyddogion ar eitemau nad ydynt ar y rhaglen.

Negyddol.

Lle i edrych ar bethau’n hamddenol.

DRAFFT

DRAFT

## GWAITH PWYLLGORAU SGRIWTINI

Gall Bwyllgorau Sgriwtini:

1. Adolygu a chraffu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith, Deilyddion Portffolio unigol neu Swyddogion y Cyngor.
2. Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion.
3. Adolygu unrhyw faterion wedi'u cyfeirio drwy'r rheolau "Galw i Mewn" a pharatoi adroddiadau a gwneud argymhellion yn ôl yr angen.
4. Adolygu a chraffu ar berfformiad gwasanaethau.
5. Ymateb i fudiadau allanol ble y mae eu gweithredu'n cael effaith ar drigolion yr Ynys.
6. Ei gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac uwch reolwyr fynychu cyfarfodydd a chael eu herio ynghylch materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.
7. Gwahodd ymgynghorwyr arbenigol, Aelodau eraill y Cyngor, rhanddeiliaid neu aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn adolygiadau Sgriwtini.
8. Cyfeirio materion i'r Panelau Sgriwtini (sy'n cynnwys grwpiau llai o Aelodau).


## STRWYTHUR Y CYNGOR

Mae gan y Cyngor gyfanswm o 35 Cynghorydd. Mae 9 Cynghorydd yn ffurfio'r Pwyllgor Gwaith, y prif gorff gwneud penderfyniadau. Mae gan y Cyngor hefyd nifer o Bwyllgorau i ymdrin â materion fel Trwyddedu, Cynllunio a materion mewnol fel Llywodraethiant a materion Staffio.

Rheolau sy'n llywodraethu'r ffordd mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini'n gweithredu gan gynnwys y cyd-destun deddfwriaethol i'w gweld yn Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae 2 Bwyllgor Trosolwg a Sgriwtini sy'n cynnwys y mwyafrif o'n Haelodau Etholedig.

## SGRIWTINI FEL RHAN O BROSES GWNEUD PENDERFYNIADAU'R CYNGOR



**Pwyllgor Gwaith**
**Arweinydd a Deilyddion Portffolio (9)**

- Cynnig polisïau a'r gyllideb
- Gweithredu'r fframwaith polisi
- Gwneud penderfyniadau dirprwyedig fel grŵp neu unigolion

Panel Sgriwtini Gwasanaeth-au Cymdeithasol

Panel Sgriwtini Cyllid

Panel Sgriwtini Addysg

DRAFFT

**Atodiad 2**

# Cwestiwn Da?
# Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini Addysg

| |
|---|
| **Eich cyflwyniad ffeithiol byr:** mae hyn yn sichrau bod pawb yn canolbwyntio ar y mater allweddol. Defnyddiwch deitl unrhyw un yr ydych yn cyfeirio ato er eglurder |
| **Eich cwestiwn(au) agored:** mae'r cwestiynau hyn yn cychwyn gyda → Pwy, Beth, Pryd, Lle, Sut, Pam ac ni ellir ateb y rhain gydag ateb ie neu na. Dim problem i ddefnyddio dau gwestiwn byr cysylltiedig |
| **Eich cwestiwn(au) treiddgar:** yn arferol mae'r cwestiynau hyn yn cychwyn gydag ymadroddion fel "O ystyried eich bod wedi datgan bod …….." Neu "Allwch chi fod yn fwy penodol ynghylch…." "Allwch chi esbonio pam felly…." "Beth arall sydd ei angen?" "Er mwyn i mi ddeall……" "Disgrifiwch sut y bydd hyn yn edrych mewn 3 blynedd…." "Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud?" |
| **Eich cwestiwn(au) crynhoi caeedig:** gallwch chi neu'r Cadeirydd (os byddwch yn methu'r cyfle) ofyn y cwestiynau hyn ar ddiwedd eich cyfraniad. Eu nod yw sicrhau bod ateb yn gwbl glir a'u nod yw sicrhau ateb "ie" neu "na". Mae croeso i chi ddefnyddio 2 gwestiwn byr caeedig ond cysylltiedig. Mae'r cwestiynau hyn yn cychwyn gyda "Felly rydych yn dweud….."; "Rydych felly'n teimlo fod….."; "Felly rydych yn glir fod…."; "Eich targed felly ydy…." |

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 01/09/23]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Ymgynghoriad ar Ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – sylwadau Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid | Siarter Craffu Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23)** | **Hydref, 2023 (17/10/22)** |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Strategaeth Gwastraff ac Ail-gylchu: 2023/2028 |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028 (i’w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Strategaeth Tai Gwag: 2023/28 | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2022/23<br>Adroddiad Cynnydd Ch1: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (18/01/24) – Cyllideb 2024/25** | **Ionawr, 2024 (16/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | |
| Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai) | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/2024)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (cynllunio ar gyfer Tachwedd, 2023) |
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Trawsnewid a Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus: 2023/28 |

| | |
|---|---|
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/223) |
| | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Medi, 2024 ac Ionawr, 2025) |